# Astudiaeth Dichonolrwydd i Ddatblygu Gofal Plant Cyfrwng Cymraeg yn Siroedd y Fflint a Wrecsam

**gan**

**Menter Iaith Fflint a Wrecsam**
**Corlan**
**Uned 3**
**Parc Busnes Yr Wyddgrug**
**Yr Wyddgrug**
**CH7 1XP**

Cyllidwyd y prosiect hwn drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Wledig Cymru 2014 -2020, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.
This project has received funding through the Welsh Government Rural Communities - Rural Development Programme 2014 - 2020, which is funded by the European Agricultural Fund for Rural Development and the Welsh Government.

# Cynnwys


1.0 Cyflwyniad ..... 1

1.1 Covid-19 ..... 2

2.0 Methodoleg ..... 3

3.0 Canfyddiadau ..... 5

3.1 Cadarnhau'r sefyllfa bresennol ac adnabod y bylchau a fodolir yn y ddarpariaeth sydd ohoni. . 6

3.1.1 Gofal diwrnod llawn i blant o dan oedran ysgol ..... 6

3.1.2 Gofal cyn/ar ôl ysgol a darpariaeth gwyliau i blant oedran ysgol. ..... 7

3.1.3 Barn Rhieni ..... 8

3.2 Teithio a Chymudo ..... 10

3.2.1 Ffyrdd ..... 11

3.2.2 Trafnidiaeth gyhoeddus ..... 11

3.2.3 Cymudo ..... 13

3.2.4 Barn Rhieni am Deithio a Gofalu am Blant ..... 16

3.3 Sefyllfa cyflogaeth y siroedd, yn arbennig yng nghyd-destun merched. ..... 17

3.4 Gweithwyr i gyflenwi'r ddarpariaeth ..... 20

3.5 Prif gyflogwyr yn yr ardal. ..... 22

3.6 Modelau addas i gynnig y gwasanaeth ..... 23

3.6.1 Ychwanegu gofod uniaith Cymraeg i feithrinfa sy'n bodoli eisoes ..... 23

3.6.2 Sefydlu busnes newydd ..... 24

3.7 Darganfod a meithrin unigolion allweddol ..... 25

3.8 Darganfod safle addas i'r datblygiad ..... 26

3.9 Darganfod cronfeydd addas i ddatblygu'r cynllun ..... 28

4.0 Y Cynllun Busnes ..... 29

5.0 Casgliadau ..... 32

6.0 Argymhellion ..... 33

7.0 Diolchiadau ..... 33

8.0 Ffynonellau gwybodaeth a rhagor o fanylion ..... 34

Atodiad 1. Cygnor Sir y Fflint ..... 38

1. E-bost i Nerys Affleck - Swyddog Datblygu Gofal Plant, Cymorth y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Cymdeithasol, Cyngor Sir y Fflint - Cadarnhau sgwrs ffôn ar 8 Mehefin 2020 ..... 39

2. Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant - Adroddiad Cynnydd 2018 ..... 41

3. Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant - Adroddiad Cynnydd 2019 ..... 82

4. Datblygu Gofal Plant Sir y Fflint - Grant Cynaliadwyedd 2020 – 2021 ..... 121

Atodiad 2. Mudiad Meithrin ..... 125

5. E-bost i Ceri Edwards - Dirprwy Reolwr Mudiad Meithrin yng Ngogledd Ddwyrain Cymru - Cadarnhau sgwrs ffôn ar 5 Mehefin 2020 ........ 126

6. E-bost i Eunice Jones - Rheolwr Cynllun Hyfforddi Cenedlaethol a Chynllun Ysgolion Cam wrth Gam, Mudiad Meithrin - Cadarnhau sgwrs ffôn ar 8 Mehefin 2020 ........ 128

Atodiad 3. Prifysgol Glyndŵr ........ 131

7. E-bost i Elen Mai Nefydd - Llysgennad Iaith Prifysgol Glyndŵr Wrecsam - Cadarnhau sgwrs ffôn ar 8 Mehefin 2020 ........ 132

Atodiad 4. Coleg Cambria ........ 135

8. E-bost i Llinos Roberts - Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol, y Gymraeg a Rhyngwladol Coleg Cambria - Cadarnhau sgwrs ffôn ar 8 Gorffennaf 2020 ........ 136

Atodiad 5. NDNA (Cymru) ........ 139

9. E-bost i Sarah Coates - Policy and Strategic Partnerships Manager at National Day Nurseries Association (NDNA Cymru)- Cadarnhau sgwrs ffôn ar 24 Mehefin 2020 ........ 140

Atodiad 6. Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ........ 142

10. E-bost i Rebecca Roberts - Rheolwr Cynorthwyol Tîm Gofal Plant, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam, CBS Wrecsam - Cadarnhau sgwrs ffôn ar 3 Gorffennaf 2020 ........ 143

11. E-bost i Hayley Morgan - Business Enterprise Officer, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam - Cadarnhau sgwrs ffôn ar 26 Mehefin 2020 ........ 145

Atodiad 7. Holiaduron Survey Monkey ........ 147

12. Holiadur "Eich Teulu" ........ 148

13. Holiadur "Arferion Teithio i'r Gwaith" ........ 152

Atodiad 8. AVOW a FLVC ........ 155

14. E-bost gan Nigel Davies – Funding Advice Officer, AVOW - Cadarnhau cyfarfod Zoom, 12 Mehefin 2020 ........ 156

15. Gwybodaeth am CIOs gan Nigel Davies – AVOW ........ 158

16. Gwybodaeth am elusennau gan Nigel Davies – AVOW ........ 161

17. Gwybodaeth am CIO / CIC gan Heather Hicks – FLVC ........ 163

Atodiad 9. Logos Enghreifftiol ........ 165

18. Syniadau o Logos addas i Feithrinfa ........ 166

## Ffigurau

Ffigur 1 Barn Rhieni am Bwysigrwydd Gofal Plant Cyfrwng Cymraeg (Holiadur "Eich Teulu" ar Survey Monkey) .... 9
Ffigur 2 Ardaloedd Cyflogaeth Allweddol .... 10
Ffigur 3 Y Rhwydwaith Cefnffyrdd .... 11
Ffigur 4 Rhwydwaith Trenau Trafnidiaeth Cymru (Gogledd / Canolbarth) .... 12
Ffigur 5 Prif Rwydweithiau Bysiau a Threnau .... 13
Ffigur 6 Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy .... 14
Ffigur 7 Ystad Ddiwydiannol Wrecsam .... 14
Ffigur 8 Patrymau cymudo - Niferoedd o bobl (blwyddyn i 31/12/19) .... 15
Ffigur 9 Patrymau cymudo - Cymlethdod traws-ffiniol .... 15
Ffigur 10 Amser mae rhieni'n gadael eu cartrefi i deithio i'r gwaith (Holiadur "Arferion Teithio i'r Gwaith" ar Survey Monkey) .... 17
Ffigur 11 Pellter o gartrefi a gweithleoedd y rhieni i'w prif ddarparwyr gofal plant (Holiadur "Arferion Teithio i'r Gwaith" ar Survey Monkey) .... 17
Ffigur 12 Cyfradd gyflogaeth (16-64 oed) .... 17
Ffigur 13 Cyfradd gyflogaeth menywod (16-64 oed) .... 18
Ffigur 14 Cyfradd gyflogaeth (24-49 oed) .... 18
Ffigur 15 Cyfradd gyflogaeth menywod (25-49 oed) .... 18
Ffigur 16 Y Gweithlu .... 19

# 1.0 Cyflwyniad

"Beth yw sefyllfa gwasanaethau gofal plant cyfrwng Cymraeg yn siroedd y Fflint a Wrecsam?" - dyna oedd y cwestiwn a ofynnwyd ar ddechrau'r prosiect ymchwil hwn.

Penderfynwyd cynnal yr Astudiaeth hon yn sgil y nifer cynyddol o drigolion y siroedd hynny oedd yn dod atom i fynegi eu gofid ynglŷn â diffyg darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg o fewn y ddarpariaeth bresennol, ac yn sgil cael gwybod bod yr ymchwil diweddaraf gan gynghorau'r ddwy sir yn gadarnhau bod sail gadarn i'w pryderon.

Mae Deddf Gofal Plant 2006 (Ffynhonnell 1) yn egluro a manylu ar y ddeddfwriaeth parthed darpariaeth gofal plant yng Nghymru. Mae'r ddeddf yn atgyfnerthu'r fframwaith i siapio a diogelu gwasanaethau plant a chanolbwyntio yn benodol ar ddarparu gofal plant digonol, cynaliadwy a hyblyg sy'n ymateb i anghenion rhieni.

Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau, cymaint ag sy'n ymarferol, darpariaeth gofal plant sy'n ddigonol i ddiwallu gofynion rhieni yn eu hardal.

Mae awdurdodau lleol yn cynnal Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant bob tair blynedd. Mae'r asesiadau hyn yn galluogi:

- Mesur natur a maint yr angen, a'r cyflenwad o ofal plant yn yr ardal
- Nodi bylchau yn y farchnad a chynllunio sut i gefnogi'r farchnad i fynd i'r afael â nhw

Mae'r adroddiadau diweddaraf gan Gyngor Sir y Fflint (2017) (Ffynhonnell 2) a CBS Wrecsam (2017) (Ffynhonnell 3) yn cadarnhau bod diffyg darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn y ddwy sir. Yn ôl yr adroddiadau mae angen mwy o ofal plant cyfrwng Cymraeg o bob math, yn enwedig darpariaeth gofal diwrnodau llawn yn ystod y tymor a gwyliau'r ysgol. Mae'r adroddiadau cynnydd gan Gyngor Sir y Fflint yn 2018 a 2019 (gweler Atodiad 1. Cyngor Sir y Fflint) yn cadarnhau bod y bwlch hwn dal i fodoli. Does dim diweddariad gan Gyngor Wrecsam ers 2017 (gweler Atodiad 6. Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam)

Nod cyntaf y prosiect hwn oedd cadarnhau nad oedd datblygiadau wedi bod ers cyhoeddi ymchwil y ddau awdurdod lleol a all fod wedi newid y sefyllfa. Wedyn i fapio a mesur y galw am wasanaethau o'r fath er mwyn cynorthwyo darpar ddarparwyr i adnabod y cyfleoedd gorau i sefydlu busnesau llwyddiannus.

Roeddem am gynnal ymarfer ymgynghorol cynhwysfawr gyda phartneriaid allweddol a chwsmeriaid potensial, budd-ddeiliad a'r gymuned ehangach i gasglu gwybodaeth fyddai yn bwydo i mewn a chyfrannu at yr wybodaeth a gasglir yn ystod y broses.

Nodau'r Astudiaeth:

- Cadarnhau'r sefyllfa bresennol ac adnabod y bylchau a fodolir yn y ddarpariaeth sydd ohoni.
- Cynnal arolwg demograffig o arferion teithio i waith rhieni'r siroedd.
- Cynnal arolwg o sefyllfa gyflogaeth y siroedd, yn arbennig yng nghyd-destun merched.
- Ystyried a oes cyflenwad digonol o weithwyr i gyflenwi'r ddarpariaeth.
- Ymgynghori â phrif gyflogwyr yr ardal
- Adnabod model addas fydd yn cynnig y gwasanaeth. E.e. mae Menter Iaith Conwy wedi sefydlu menter gymunedol newydd i ddarparu gwasanaeth gofal dyddiol yn y sir. Mae'n bosib datblygu model arall mwy addas i'r sefyllfa yma fydd yn rhan o strwythur y Cyngor Sir Leol fel sydd yn digwydd ar safle Ysgol Glan Clwyd yn Sir Ddinbych.
- Darganfod a meithrin unigolion i fod ar bwyllgor unrhyw fenter newydd fydd yn ei dro yn esblygu i fod yn fwrdd rheoli er rhedeg y cynllun.
- Darganfod safle addas i'r datblygiad. Mae'n hanfodol adnabod safle fydd yn gweithio a bydd angen ystyried ei leoliad a chyfleustra, hygyrchedd a bod gofod parcio digonol. Bydd gofyn gweithio gyda'r Cynghorau Sir rhag ofn bod adeilad addas ar gael a thrafod y posibilrwydd o'i drosglwyddo ac yna ei addasu. Er enghraifft Meithrinfa Gymraeg Derwen Deg yn Sir Conwy, lle cynigiwyd tendr ar gyfer les tymor hir i adeilad oedd Cyngor Conwy eisiau ei waredu. Llwyddwyd Menter Iaith Conwy i ddenu £375k mewn grantiau gan i'w atgyweirio a'i sefydlu fel menter gymunedol
- Darganfod cronfeydd addas i ddatblygu'r cynllun yn gyfan gwbl a byddai angen arian cyfalaf a refeniw.
- Ar ôl adnabod safle addas bydd angen llunio cynllun busnes 5 mlynedd yn cynnwys costau arfaethedig ar gyfer datblygu a gweithredu'r gwasanaeth gofal plant. Fe fydd y cynllun busnes hefyd yn sail i'r Fenter asesu a fyddai modd datblygu a chynnal gwasanaeth hyfyw a chynaliadwy. Dylai fod modd i'r cynllun busnes fod yn sail i gais am gyllid ychwanegol o wahanol ffynonellau.

## 1.1 Covid-19

Mae pandemig diweddar Covid-19 wedi newid bywyd yng Nghymru yn ddramatig yn y byrdymor. Mae ansicrwydd mawr ynghylch ei oblygiadau hirdymor. Mae'n bosibl y bydd rhai agweddau ar y ffordd y mae cymdeithas a'r economi, gan gynnwys y sector gofal plant o bosibl, yn cael eu newid yn barhaol. Wrth symud ymlaen gyda'r astudiaeth hwn, roedd angen rhoi ystyriaeth ofalus i effeithiau posibl Covid-19 gan gynnwys sut y gallai ddylanwadu ar weithrediad nodau'r prosiect.

## 2.0 Methodoleg

Cynhaliwyd ymarfer cwmpasu er mwyn mapio gwybodaeth bresennol yn y maes hwn.

Cynhaliwyd adolygiad o ffynonellau sy'n trafod polisïau, arferion a rhaglenni sy'n ymwneud â gofal plant yng Nghymru, gan ganolbwyntio'n bennaf ar siroedd Sir y Fflint a Wrecsam. Gwnaethom hefyd adolygu ffynonellau sy'n ymwneud yn benodol â gofal plant cyfrwng Cymraeg.

Adolygwyd ffynonellau sy'n trafod arferion cyflogaeth a theithio i'r gwaith yn y rhanbarth ac wedi nodi'r prif gyflogwyr ar draws y ddwy sir.

Adolygwyd ffynonellau sy'n trafod safonau addysgol sy'n ofynnol i weithio mewn lleoliadau gofal plant a chyrhaeddiad addysgol yn y rhanbarth yng nghyd-destun cymwysterau gofal plant a Chymraeg.

Casglwyd dogfennau perthnasol, yn ogystal a chynnal ein hymchwil ein hunain ac wedi prosesu a dadansoddi data perthnasol.

Yn gyntaf, gwnaethom gynnal chwiliad rhyngrwyd i nodi, casglu a dosbarthu dogfennau perthnasol (gwefannau, dogfennau, adroddiadau, canllawiau ac ati). Ar gyfer hyn gwnaethom ddefnyddio Google a'r Ap 'Onenote'. Roedd y meini prawf cynhwysiant a gymhwyswyd i'r chwiliad yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn:

- Roedd rhaid i gynnwys unrhyw ddogfennau a ddarganfuwyd eu cyfeirio'n glir (yn rhannol neu'n gyfan gwbl) at themâu perthnasol.
- Gallai'r ddogfen fod yn Gymraeg neu Saesneg.
- Dylai dogfennau fod yn gyfredol, neu'r data mwyaf diweddar sydd ar gael.

Roedd yr eitemau hynny a oedd yn cydymffurfio â'r meini prawf cynhwysiant yn cael eu storio o dan bedwar tag:

- Dogfennau Llywodraeth Cymru
- Dogfennau'n ymwneud â Sir y Fflint
- Dogfennau'n ymwneud â Wrecsam
- Dogfennau perthnasol eraill

Yn ail, defnyddiwyd yr ymarfer cwmpasu i nodi arbenigwyr i'w cyfweld. Roedd yr arbenigwyr hyn yn hanfodol ar gyfer darparu'r wybodaeth, y cadarnhad a'r mewnwelediadau gofynnol i ni gwblhau ein chwiliadau. Gwnaeth eu cyfweld ein galluogi i ddeall yn well sut y gweithredwyd polisïau; y rôl mae

gwahanol sefydliadau sy'n ymwneud â gofal plant yn chwarae ac archwilio'r rhagdybiaethau a wneir am anghenion a darpariaeth gofal plant.

Yn drydydd, defnyddiwyd yr ymarfer cwmpasu i nodi sut y medrwn adnabod safleoedd a allai fod yn addas ar gyfer y datblygiad. Bydd adnabod safle yn hanfodol a bydd angen ystyried ei leoliad a'i gyfleustra, ei hygyrchedd a bod maes parcio ceir digonol. Roedd hefyd angen nodi sut y medrwn adnabod model addas i gynnig y gwasanaeth, a sut i ddod o hyd i unigolion a'u meithrin i fod ar bwyllgor unrhyw fenter newydd. Byddai'r pwyllgor hwn yn ei dro yn esblygu'n fwrdd rheoli ar gyfer rhedeg y cynllun.

## 3.0 Canfyddiadau

Daw'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael am ofal plant o Ystadegau ar gyfer Cymru, Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2018-19 (Ffynhonnell 4). Mae’r wybodaeth ynghylch defnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau gofal plant ffurfiol. Mae hyn o ganlyniad i gwestiynau newydd cyflwynwyd yn 2018-19 ynghylch darpariaeth gofal plant yn Gymraeg ar gyfer plant oedran cyn ysgol. Mae'r wybodaeth yn genedlaethol, ond mae'n darparu cyd-destun da ar gyfer y sefyllfa bresennol ledled Cymru:

*”Roedd 31% o rieni plant oed cyn ysgol yn defnyddio gofal plant a oedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn y Gymraeg, neu'n gymysgedd cyfartal o Gymraeg a Saesneg. Roedd y 69% o rieni oedd yn weddill yn defnyddio gofal plant a oedd yn bennaf neu'n gyfan gwbl yn Saesneg.*

*Gofynnwyd hefyd i rieni a oedd yn defnyddio, neu'n disgwyl defnyddio, gofal plant ffurfiol: ym mha iaith y byddai'n well ganddynt gael gofal plant? Byddai 44% o rieni yn hoffi i ofal plant fod yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Gymraeg neu'n gymysgedd cyfartal o Gymraeg a Saesneg, a byddai'n well gan 55% o rieni ofal sy'n bennaf neu'n gyfan gwbl yn Saesneg.*

*Roedd rhieni a oedd yn byw mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o fod eisiau gofal plant yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Gymraeg neu mewn cymysgedd cyfartal o Gymraeg a Saesneg (59%), o gymharu â'r rhai mewn ardaloedd trefol (37%). Roedd rhieni oedd yn siarad Cymraeg hefyd yn fwy tebygol o ddweud eu bod eisiau gofal (28%) yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Gymraeg neu mewn cymysgedd cyfartal o Gymraeg a Saesneg (86%) na’r rhieni nad oeddent yn siarad Cymraeg (28%).”*

Mae canlyniad Cyfrifiad 2011 (Ffynhonnell 5) yn dangos fod 16,659 o bobl ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam yn gallu siarad Cymraeg, sef 12.9% o’r boblogaeth. Y cyfanswm o bobl oedd yn siarad Cymraeg yn 2001 oedd 18,105, sef 14.6% o’r boblogaeth. Dros gyfnod o ddeg mlynedd bu gostyngiad o 1,446 yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yn y sir, sef gostyngiad o 1.7%. Mae adroddiad Strategaeth Hybu’r Gymraeg 2016-21 (Ffynhonnell 6) yn gosod targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol ar ôl 5 mlynedd (canlyniadau Cyfrifiad 2021) i 14.4%. Yng nghyd-destun gofal plant, dywed yr adroddiad:

*“Cynyddu’r defnydd o’r Gymraeg mewn grwpiau chwarae a meithrinfeydd dydd sy’n gyfrwng Saesneg yn bennaf. Mae cynyddu’r niferoedd sy’n mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a gwneir hyn drwy waith y Mudiad Meithrin.”*

Mae'r Cylchoedd Meithrin yn cynnig gofal ac addysg i blant dros 2 flwydd (gweler Atodiad 2. Mudiad Meithrin), felly mae bwlch yn y ddarpariaeth rhwng genedigaeth a’r oedran hwnnw.

Ar ran Sir y Fflint, mae canlyniad Cyfrifiad 2011 yn dangos bod nifer y bobl sy’n dweud y gallant siarad Cymraeg yn lleihau hefyd. Yn 2011 roedd 19,343 o siaradwyr, sef 13.2% o’r boblogaeth, o gymharu â 20,599 o siaradwyr yn 2001, sef 14.4% o’r boblogaeth. Dros y deg mlynedd bu gostyngiad o 1,256 yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yn y sir, gostyngiad o 1.2%. Mae Strategaeth Hyrwyddo’r Iaith Gymraeg (Ffynhonnell 7) gan Gyngor Sir y Fflint ar gyfer y cyfnod 2019-24. Maent wedi gosod targed i gefnogi cynnydd yn y lefel o siaradwyr Cymraeg o fewn y sir i 21,891 (15%) o bobl yn ystod y cyfnod hwn. Yng nghyd-destun gofal plant maent yn addo:

*“digon o gyfleoedd i rieni gael mynediad i ofal plant a gwasanaethau addysg drwy gyfrwng y Gymraeg”*

Trwy bartneriaeth rhwng y Cyngor a Mudiad Meithrin, byddai modd cynyddu'r ddarpariaeth i blant dros 2 flwydd oed. Fel yn Wrecsam, mae bwlch yn y ddarpariaeth rhwng genedigaeth a'r oedran hwnnw.

## 3.1 Cadarnhau'r sefyllfa bresennol ac adnabod y bylchau a fodolir yn y ddarpariaeth sydd ohoni.

Mae'r gyfran fwyaf o ofal plant cyfrwng Cymraeg yn y gogledd-ddwyrain yn cael ei gyflwyno gan y Mudiad Meithrin (Ffynhonnell 8), trwy Gylchoedd Meithrin, sy'n cynnig gofal ac addysg i blant dros 2 flwydd oed. Mae pob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn y ddwy sir gyda Chylch Meithrin ar y safle. Nid yw pob un yn darparu gofal i blant 2 flwydd oed, mae rhai ond yn darparu gofal cofleidiol i blant yn Nosbarth Meithrin yr ysgol. Mae lleoliadau ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg wedi eu gwasgaru ar draws y ddwy sir felly maent yn hygyrch i'r rheiny sy'n ffafrio Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Does dim newid yn sefyllfa Wrecsam na Sir y Fflint ers cyflwynwyd eu Hasesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant diweddaraf. Mae adroddiad Wrecsam (2017) yn dweud:

*"Mae gofal plant cyfrwng Cymraeg yn dal i gael ei nodi fel maes lle mae angen gwelliant ac mae diffyg darpariaeth dydd llawn drwy gyfrwng y Gymraeg yn bodoli."* a dywed adroddiad Sir y Fflint (2017) *"Mae angen mwy o ofal plant cyfrwng Cymraeg o bob math ym mhob ardal yn Sir y Fflint, yn enwedig y rhai sy'n darparu gofal diwrnodau llawn yn ystod y tymor a gwyliau'r ysgol."*

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (Ffynhonnell 9) yn cofrestru, arolygu a gweithredu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er llesiant pobl Cymru. Maent yn rheoleiddio gwasanaethau gofal plant a chwarae, sef gwarchodwyr plant, crèches, gofal dydd llawn, gofal dydd sesiynol, gofal y tu allan i'r ysgol a darpariaeth chwarae mynediad agored. Maent hefyd wedi derbyn y dasg o brif ffrydio'r gwaith o arolygu cynlluniau, darpariaeth a phrofiad o wasanaethau iaith Gymraeg yn y maes hwn. Cyhoeddwyd Fframwaith Strategol ar gyfer hyrwyddo'r Iaith Gymraeg ym maes Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol yn 2012 sef "Mwy na geiriau/More than just words". Y Cynllun Gweithredu diweddaraf ar gyfer y fframwaith strategol hwn yw o 2019-2020 (Ffynhonnell 10).

Bwriad y fframwaith yw sicrhau bod sefydliadau yn cydnabod bod iaith yn rhan gynhenid o ofal, a bod pobl sydd angen gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael y cynnig. Gelwir hyn y 'Cynnig Gweithredol'. Mae'r 'Cynnig Gweithredol' yn golygu bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Cyfrifoldeb pawb sy'n darparu gwasanaethau gofal i bobl a'u teuluoedd ledled Cymru yw darparu'r 'Cynnig Gweithredol'. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn edrych ar y 'Cynnig Gweithredol', ac yn nodi a yw'n cael ei wneud ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwahanol wasanaethau.

### 3.1.1 Gofal diwrnod llawn i blant o dan oedran ysgol

Ar hyn o bryd, does dim meithrinfeydd cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam. Mae gwefan Arolygiaeth Gofal Cymru gyda chyfeiriadur gwasanaethau gofal cofrestredig sy'n dangos 68 lleoliad sy'n cynnig

gofal dydd llawn yn Wrecsam. Heblaw darpariaeth Mudiad Meithrin (dros 2 flwydd oed), does dim un lleoliad yn cyflenwi'r 'Cynnig Gweithredol'. Mae hyn yn golygu bod dim newid ers yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn 2017:

*Lleoliad Cyfrwng Cymraeg - 0 lle*
*Lleoliad Cyfrwng Cymraeg a Chyfrwng Saesneg - 0 lle*
*Lleoliad Cyfrwng Saesneg yn bennaf gyda rhywfaint o Gymraeg - 1258 lle*
*Lleoliad Cyfrwng Saesneg yn Unig - 0 lle*

Ar hyn o bryd, does dim meithrinfeydd cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint, ac nid yw'r Cyngor Sir yn darparu ystadegau ieithyddol yn ei Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant. Mae gwefan Arolygiaeth Gofal Cymru gyda chyfeiriadur gwasanaethau gofal cofrestredig sy'n dangos 47 lleoliad sy'n cynnig gofal dydd llawn yn Sir y Fflint. Heblaw darpariaeth Mudiad Meithrin, trwy Gylchoedd Meithrin (dros 2 flwydd oed), does dim un lleoliad yn cyflenwi'r 'Cynnig Gweithredol'. Dywed yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn 2017 bod 24 o ddarparwyr Gofal Diwrnod Llawn, yn cynnig 1572 o lefydd ond:

*"nid oes unrhyw Feithrinfeydd Dydd cyfrwng Cymraeg wedi'u cofrestru yn y Sir."*

### 3.1.2 Gofal cyn/ar ôl ysgol a darpariaeth gwyliau i blant oedran ysgol.

Mae clybiau brecwast / cyn ysgol a chlybiau ar ôl ysgol yn cael eu cynnal mewn nifer o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam yn ystod tymor ysgol. Mae Cylchoedd Meithrin yn cynnig gofal plant / addysg mewn 11 lleoliad yn Wrecsam. Mae rhai cylchoedd yn darparu gofal cyn a/neu ar ôl ysgol i blant y dosbarth meithrin, gydag oriau amrywiol rhwng 7.45am a 6.00pm mewn gwahanol leoliadau. Nid yw Cylchoedd Meithrin yn darparu gofal plant o unrhyw fath yn ystod gwyliau ysgol. Mae un Clwb Gwyliau i blant Ysgolion Cymraeg Wrecsam rhwng 3 a 12 oed, sy'n cael ei gynnal yn ystod gwyliau hanner tymor Chwefror, Mai a Hydref, ac yn ystod gwyliau Pasg a'r Haf. Mae gwefan Arolygiaeth Gofal Cymru gyda chyfeiriadur gwasanaethau gofal cofrestredig sy'n dangos 32 lleoliad sy'n cynnig gofal dydd sesiynol, 23 yn cynnig gofal y tu allan i'r ysgol a 2 yn cynnig darpariaeth chwarae mynediad agored. Heblaw darpariaeth Mudiad Meithrin, trwy Gylchoedd Meithrin (dros 2 flwydd oed), a Chlwb Gwyliau Maelor, does dim un lleoliad yn cyflenwi'r 'Cynnig Gweithredol'. Mae hyn yn golygu bod dim newid ers yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn 2017:

*Lleoliad Cyfrwng Cymraeg - 617 lle*
*Lleoliad Cyfrwng Cymraeg a Chyfrwng Saesneg - 0 lle*
*Lleoliad Cyfrwng Saesneg yn bennaf gydag ychydig o Gymraeg - 4221 lle*
*Lleoliad Cyfrwng Saesneg- 890 lle*
*Mae un clwb gwyliau cyfrwng Cymraeg yn cynnig lleoedd i'r rheiny sy'n mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Cydnabyddir nad yw hyn yn caniatáu i deuluoedd sydd am wneud dewis gwahanol i'r addysg gynradd, felly mae hyn wedi ei nodi fel gwendid yn y sector ac o ganlyniad mae cam gweithredu yn ei le er mwyn ymestyn y ddarpariaeth hon.*

Mae clybiau brecwast / cyn ysgol a/neu glybiau ar ôl ysgol yn cael eu cynnal mewn pob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint yn ystod tymor ysgol. Mae Cylchoedd Meithrin yn cynnig gofal plant / addysg mewn 7 lleoliad yn Sir y Fflint. Mae rhai cylchoedd yn darparu gofal cyn a/neu ar ôl ysgol i blant y dosbarth meithrin, gydag oriau amrywiol rhwng 7.45am a 6.00pm mewn gwahanol leoliadau. Nid yw'r Cylchoedd Meithrin yn darparu gofal plant o unrhyw fath yn ystod gwyliau ysgol.

Nid yw'r Cyngor Sir yn darparu ystadegau ieithyddol yn ei Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant.

Mae gwefan Arolygiaeth Gofal Cymru gyda chyfeiriadur gwasanaethau gofal cofrestredig sy'n dangos 22 lleoliad sy'n cynnig gofal dydd sesiynol, 34 yn cynnig gofal y tu allan i'r ysgol a 0 yn cynnig darpariaeth chwarae mynediad agored. Heblaw darpariaeth Mudiad Meithrin, trwy Gylchoedd Meithrin (dros 2 flwydd oed), does dim un lleoliad yn cyflenwi'r 'Cynnig Gweithredol'.

Dywed yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn 2017:

*Gofal Tu Allan i Ysgol - 37 lleoliad yn cynnig 1595 o lefydd*
*Cyn ysgol - 14 lleoliad*
*Ar ôl Ysgol - 24 lleoliad*
*Darpariaeth gwyliau - 10 lleoliad*
*Mae dau leoliad yn darparu darpariaeth Cylch Meithrin bore a phrynhawn, un yn Nhreuddyn ac un yn Nhreffynnon. Maent hefyd yn darparu gofal cofleidiol a darpariaeth cinio. Ar adeg yr arolwg, roedd 75 lle wedi'u llenwi.*

Roedd tri chynllun chwarae cyfrwng Cymraeg yn gweithredu yn yr Wyddgrug, y Fflint a Charmel wedi'i rhedeg gan Gyngor Sir y Fflint ar y cyd â'r Urdd i blant rhwng 5 a 12 oed, yn ystod gwyliau'r Haf. Dywed yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn 2017 (nid yw'r Cyngor Sir yn darparu ystadegau ieithyddol):

*Cyfanswm darpariaeth chwarae mynediad agored - 195 lleoliad gyda 3783 o blant yn defnyddio'r gwasanaeth.*

Mae'r adroddiadau cynnydd gan Gyngor Sir y Fflint yn 2018 a 2019 yn cadarnhau bod bellach 4 cynlyn yn cael eu rhedeg ar yr un sail.

### 3.1.3 Barn Rhieni

Rydym wedi cynnal ymchwil ein hunain trwy holiadur "Survey Monkey", a hefyd ystyried ymchwil perthnasol allanol.

Fel rhan o'u Hasesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn 2017, cynhaliwyd y ddwy sir ymgynghoriadau rhieni/gofalwyr. Roedd y canran a ymatebodd yn eithaf isel, gyda chanran bach iawn yn mynegi barn am argaeledd gofal plant cyfrwng Cymraeg. Ond dylid ystyried y modd y gofynnwyd y cwestiynau. Er hynny, mae'r cynnwys yr adroddiadau'n werthfawr iawn am ddangos profiadau rhieni a'r angen amlwg a fodolir.

Yn Wrecsam, roedd 3% o'r rhieni yn nodi nad oedd y teulu yn defnyddio gofal plant oherwydd nad oedd gofal plant cyfrwng Cymraeg addas ar gael. Gan ystyried y rhieni a nododd eu bod yn defnyddio gofal plant, roedd 22% yn dweud nad oedd digon o ofal plant cyfrwng Cymraeg ar gael.

Yn Sir y Fflint, yn ystod y tymor, defnyddiodd 19% o ymatebwyr ofal plant cyfrwng Cymraeg ac roedd y mwyafrif o'r rhain yn defnyddio llefydd ar ôl ysgol a chlwb brecwast. Yn ystod gwyliau'r ysgol, dim ond 7% o ymatebwyr oedd yn defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg ac roedd y rhain i gyd mewn

cynlluniau chwarae.  Cofnodwyd argaeledd gofal plant cyfrwng Cymraeg fel problem yn bennaf ym Mwcle a'r Wyddgrug, yn ystod y tymor ac yn ystod gwyliau'r ysgol. Ond 30% o ymatebwyr roedd yn credu bod digon o ofal plant cyfrwng Cymraeg ar gael. Wrth ddewis ffactorau pwysig wrth fwriadu defnyddio gofal plant, roedd 15% o rieni yn dewis argaeledd cyfrwng Cymraeg fel ffactor pwysig. Y farn gyffredinol yw bod darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn foddhaol ar ei orau. Nid yw rhieni sy'n gweithio ac angen darpariaeth gofal diwrnod llawn yn gallu cael mynediad at unrhyw ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn Sir y Fflint.

Roedd yr ymchwil ar gyfer y prosiect hwn yn cynnwys holiadur Survey Monkey o'r enw "Eich Teulu". Dangosir y canlyniadau llawn yn Atodiad 7. Holiaduron Survey Monkey. Roedd y nifer a ymatebodd yn isel gydag ond 31 wedi cymryd rhan, ond maent yn dangos profiadau rhieni a'r angen a fodolir.


Roedd 67% o ymatebwyr yn feichiog neu'n rhieni/gwarchodwyr i blant o dan 11 oed (cwestiwn 1). Roedd 23 yn gweithio dros 16 awr yr wythnos (cwestiwn 2). Roedd 26 wedi dychwelyd (neu'n bwriadu dychwelyd i'r gwaith o fewn 18 mis wedi genedigaeth eu plant (cwestiwn 3). Roedd 44% o ymatebwyr yn/yn bwriadu defnyddio meithrinfa neu warchodwr plant (cwestiwn 4).

Gofynnwyd cwestiwn am bwysigrwydd cael meithrinfa cyfrwng Cymraeg yn yr ardal (cwestiwn 9). Roedd 30 o ymatebwyr i'r cwestiwn, gyda sgôr dros 8 allan o 10 ar gyfartaledd, gweler Ffigur 1 isod. Roedd dros 60% o'r ymatebwyr yn uniaith Saesneg (cwestiwn 6) ond wedi ystyried neu ddewis gofal/addysg Cyfrwng Cymraeg i'w plant (cwestiwn 7). Roedd 30% o'r ymatebwyr yn nodi "Iaith" fel ffactor pwysig wrth iddynt ystyried gofal plant (cwestiwn 5).

*Ffigur 1 Barn Rhieni am Bwysigrwydd Gofal Plant Cyfrwng Cymraeg (Holiadur "Eich Teulu" ar Survey Monkey)*

Pa mor bwysig ydych chi'n teimlo ei fod i gael meithrinfa dydd cyfrwng Cymraeg yng Ngogledd Ddwyrain Cymru? (0 dim yn bwysig, 10 pwysig iawn) / How important do you feel that it to have a Welsh medium day nursery in North East Wales? (0 not important, 10 very important)

Answered: 30    Skipped: 1




| ANSWER CHOICES | AVERAGE NUMBER | TOTAL NUMBER | RESPONSES |
|---|---|---|---|
| Responses | 82 | 2,462 | 30 |
| Total Respondents: 30 | | | |

Wrth ateb cwestiwn am ymwybyddiaeth am feithrinfa cyfrwng Cymraeg yn yr ardal (cwestiwn 8), roedd dros 80% wedi ymateb “Na”. Roedd y chwe pherson wnaeth ymateb “Ydw” wedyn yn nodi naill ai ysgolion cynradd neu ddarpariaeth Mudiad Meithrin. Felly raid ystyried eu bod wedi camddeall y cwestiwn i ryw raddau.

Mae lleoliad meithrinfa yn hynod o bwysig. Wrth ystyried atebion i’r cwestiwn “Pa mor bell a fyddech yn fodlon teithio i’ch plentyn cael mynychu meithrinfa dydd cyfrwng Cymraeg?” gwelwn fod 43% o rieni eisiau meithrinfa o fewn 3 milltir, a 30% yn fodlon teithio 4 - 6 milltir.


Trafodir teithio ymhellach yn adran 3.2.

## 3.2 Teithio a Chymudo

Daw'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael o Ystadegau ar gyfer Cymru yn yr adroddiad “Ystadegau cryno ar gyfer rhanbarthau economaidd Cymru: Gogledd Cymru 30 Mai 2019” (Ffynhonnell 11) sydd yn cynnig dadansoddiad ystadegol am ranbarth Gogledd Cymru. Mae elfennau o’r wybodaeth ar gael ynglŷn â Siroedd Fflint a Wrecsam yn unigol, a’r gweddill am y rhanbarth i gyd. Mae rhanbarth Gogledd Cymru yn cynnwys awdurdodau lleol Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam.

Rhaid ystyried cynllun Metro Gogledd-ddwyrain Cymru gan Lywodraeth Cymru hefyd. Mae adroddiad Mawrth 2017 “Symud Gogledd Cymru Ymlaen, Ein Gweledigaeth ar gyfer Gogledd Cymru a Metro Gogledd-ddwyrain Cymru” (Ffynhonnell 12) yn cynnwys nifer o elfennau pwysig i’w hystyried. Mae’r cynllun isod yn dangos y cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus rhwng ardaloedd cyflogaeth allweddol yng ngogledd-ddwyrain Cymru a gogledd-orllewin Lloegr, yn sgil gweledigaeth Llywodraeth Cymru am rwydwaith tramwy integredig.


*Ffigur 2 Ardaloedd Cyflogaeth Allweddol*



### 3.2.1 Ffyrdd

Mae cysylltiadau ffyrdd strategol lleol a rhanbarthol o Ogledd-ddwyrain Cymru i Ogledd-orllewin Cymru, y Canolbarth, De a Gorllewin Cymru ac ar draws y ffin i Loegr. Mae cefnffyrdd mawr yn darparu cysylltiadau ffordd ragorol i drigolion Sir y Fflint a Wrecsam. Mae'r A55 yn rhedeg am tua 87 milltir o borthladd Caergybi, drwy awdurdodau lleol Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint cyn croesi'r ffin i Loegr lle mae'n cysylltu gyda'r M53 ac M56. Mae'r A55 yn rhan o Lwybr Ewropeaidd E22, llwybr 3310 milltir o hyd, sy'n rhedeg o borthladd Caergybi i Ishim yn Rwsia. Mae'r A483 yn rhedeg am tua 153 milltir, gan gysylltu'r M4 a'r A55. Mae'n rhedeg o Abertawe, trwy Sir Gaerfyrddin, Powys, Swydd Amwythig (A5), gyda chysylltiadau i'r M54 a M6 a chanolbarth Cymru, ac yn olaf Wrecsam, cyn ymuno a'r A55 yn ymyl Caer.

*Ffigur 3 Y Rhwydwaith Cefnffyrdd*




### 3.2.2 Trafnidiaeth gyhoeddus

Ar ran trafnidiaeth gyhoeddus, mae yna ddiffyg ar nifer o'r prif safleoedd cyflogi yn Siroedd y Fflint a Wrecsam. O ganlyniad gwelir tagfeydd ac oedi ar y rhwydwaith ffyrdd wrth i bobl ddewis gyrru i'r gwaith ac mae'n lleihau cyfleoedd cyflogi i'r rhai hynny sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus.


Ynghylch trenau, daw'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael o Ystadegau ar gyfer Cymru yn yr adroddiad “Defnydd gorsafoedd rheilffordd, Ebrill 2016 i Fawrth 2017” (Ffynhonnell 13).

Llinell Arfordir Gogledd Cymru yw'r brif reilffordd yng Ngogledd Cymru sy'n cysylltu Caergybi yn y Gorllewin â Shotton yn y Dwyrain gyda gwasanaethau ymlaen i Ogledd Lloegr, Canolbarth Lloegr a Llundain trwy Crewe. Yn 2016-17 yn gyffredinol, gwelwyd gostyngiad o 2% yn y niferoedd yn defnyddio’r gorsafoedd ar hyd y llinell hon i gymharu â 2015-16.

Mae Llinell y Gororau yn rhedeg i'r gogledd o orsaf Wrecsam Canolog gan derfynu yn Bidston yng Nghilgwri gyda gwasanaethau ymlaen i Lerpwl a Gogledd Lloegr. Yn 2016-17, i gymharu â 2015-16 gwelwyd gostyngiadau o 3.5% mewn niferoedd yn defnyddio pob un o’r gorsafoedd (heblaw Wrecsam Canolog) ar hyd y llinell hon.  Ond defnydd o orsaf Wrecsam Canolog wnaeth cynyddu, a hynny ond 1.4%.

Mae rhan o linell Amwythig i Gaer yn rhedeg trwy Gymru rhwng gorsaf Wrecsam Cyffredinol a'r Waun. Ar gyfer 2016-17 gwelwyd gostyngiadau o 2.1% mewn niferoedd yn defnyddio pob un o'r gorsafoedd ar hyd y llinell hon, heblaw am Y Waun wnaeth cynyddu 4.9% i gymharu â 2015-16.

*Ffigur 4 Rhwydwaith Trenau Trafnidiaeth Cymru (Gogledd / Canolbarth)*




Ffynhonnell:
https://trctrenau.cymru/cy/map-or-llwybr?_ga=2.13802103.1397754625.1588599317-1940798817.1588599317

Mae'r ddwy sir yn cael eu gwasanaethu gan fysiau o sawl cwmni, gyda'r prif orsafoedd bysiau yn Wrecsam, yr Wyddgrug a Treffynnon. Mae Cyngor Sir y Fflint hefyd wedi datblygu Cynllun Teithio


Cymunedol, sy'n cwmpasu TacsiBws, gwasanaeth Ffonio a Theithio a Bws Cymunedol i ymdrin â bylchau mewn darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus yn y sir (Ffynhonnell 14).

Fel rhan o gynllun Metro Gogledd-ddwyrain Cymru, bydd datblygiadau yn Wrecsam a Glannau Dyfrdwy i'w gwneud yn haws i deithio ar drenau, bysiau a theithio llesol i brif safleoedd cyflogaeth a lleoliadau allweddol eraill o fewn y dalgylch.

Bydd cynllun Parcio a Theithio newydd gyda thua 275 o leoedd parcio ar gael yn fuan i leihau tagfeydd ar Barc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy.  Bydd gwasanaethau bysiau gwennol reolaidd yn teithio yn ôl ac ymlaen i dri pharth yr ystâd ddiwydiannol i annog cymudwyr i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus (Ffynhonnell 15).

Isod gwelir y prif gysylltiadau bws (mewn gwyn), a threnau (mewn coch) ar draws y ddwy sir.

*Ffigur 5 Prif Rwydweithiau Bysiau a Threnau*




Ffynhonnell:
https://tfwrail.wales/sites/tfwrail.wales/files/2018-10/North%20Wales%20Ranger%20LG_0.pdf


### 3.2.3 Cymudo

Mae cysylltiadau cadarn rhwng economi Gogledd-ddwyrain Cymru ac economi Gogledd-orllewin Lloegr. Cofnododd cyfrifiad 2011 gymudo sylweddol ar draws y ffin ddaeth i gyfanswm o filiwn o deithiau pob mis (Ffynhonnell 16). Roedd llif sylweddol o deithwyr i'r gwaith bob dydd o Ogledd Cymru i Gaer a Sir Gaer (tua 17,500), i Lannau Mersi (tua 3,500) ac i Fanceinion (tua 2,200).  Roedd tua 3,000 o deithiau gan gymudwyr o Ogledd-ddwyrain Cymru i Swydd Amwythig bob dydd, gan ddangos pwysigrwydd cysylltiadau ar draws y ffin â Chanolbarth Lloegr. Mae llwybrau ar draws y ffin drwy Ogledd-orllewin Cymru yn bwysig ar gyfer cludo nwyddau, yn enwedig cludo nwyddau rhwng tir mawr Ewrop, Lloegr ac Iwerddon.

Roedd tua 20,000 o weithwyr yn croesi’r ffin bob diwrnod i mewn i Gymru. Mae posibiliadau cryf o dwf mewn swyddi yn y dyfodol yn yr ardal drawsffiniol gyda chynnydd gobeithiol mewn swyddi o tua 45,000 - 55,000 dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae’r ddwy ardal cyflogaeth fwyaf yn yr ardal yng Nglannau Dyfrdwy ac i’r dwyrain o Wrecsam. Mae dros ddwy filiwn o bobl yn byw o fewn pellter cymudo 30 munud i’r ardaloedd hyn.

Mae Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy yn 2,000 hectar (4942 erw) o faint, ac yn gartref i weithgynhyrchu cyfoes a medrus iawn ar draws sectorau amrywiol - o awyrofod a cherbydau modur i electroneg a deunydd fferyllol ac adeiladu, bwyd ac ynni cynaliadwy (Ffynhonnell 17). Mae Llywodraeth Cymru yn annog busnesau i gychwyn yn, neu symud i’r Ardal Fenter, gyda chefnogaeth trwy gymorth ariannol a chyngor busnes.

*Ffigur 6 Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy*




Ffynhonnell:
https://businesswales.gov.wales/enterprisezones/cy/ardaloedd-menter-yng-nghymru/glannau-dyfrdwy

Mae Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam ar gyrion dwyreiniol y dref, tua 2.5 milltir o ganol Wrecsam. Mae’n cwmpasu tua 550 hectar (1,359 erw). Mae tua 300 o fusnesau wedi lleoli ar yr ystâd, a tua 8000 o bobl wedi’i gyflogi yno. Yr ystâd ydy lleoliad carchar mwyaf y DU, Carchar EM Berwyn a agorodd yn 2017.


*Ffigur 7 Ystad Ddiwydiannol Wrecsam*




Ffynhonnell:
https://www.google.com/maps/search/Wrexham+Industrial+Estate/@53.0436449,-2.9392252,1750m/data=!3m2!1e3!4b1

Gweler yn Ffigur 8. isod bod mwy o bobl yn cymudo allan o'r ardal i fynd i'r gwaith nag sy'n cymudo i mewn iddo o siroedd eraill.


*Ffigur 8 Patrymau cymudo - Niferoedd o bobl (blwyddyn i 31/12/19)*




Ffynhonnell:
[https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Employment/Commuting/commutingpatterns-by-welshlocalauthority-measure](https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Employment/Commuting/commutingpatterns-by-welshlocalauthority-measure)

Mae detholiad o'r symudiadau cymhleth ar draws y ffin o fewn gogledd-ddwyrain Cymru a gogledd-orllewin Lloegr i'w gweld yma:

*Ffigur 9 Patrymau cymudo - Cymhlethdod traws-ffiniol*



### 3.2.4 Barn Rhieni am Deithio a Gofalu am Blant

Rydym wedi cynnal ymchwil ein hunain trwy holiadur “Survey Monkey”, a hefyd ystyried ymchwil perthnasol allanol.

Yn ôl data'r cyfrifiad o 2011, roedd 75.7 y cant o weithwyr 16-74 oed a oedd yn byw yng Ngogledd Cymru yn teithio i'r gwaith yn y car, mewn fan neu ar feic modur, sgwter neu foped. Mae hyn yn cyfateb i tua 237,000 o bobl ledled y rhanbarth. Roedd 11.9 y cant (37,000 o bobl) yn teithio i'r gwaith ar droed neu ar feic. Roedd 5.1 y cant (16,000 o bobl) yn teithio i'r gwaith ar drên neu mewn bws, bws mini neu goets.

Gan ystyried bod dros 75% o'r gweithlu'n teithio i'r gwaith mewn car, fan, beic modur neu debyg, mae'n rhesymol tybio bod mwyafrif o’r rhieni sy'n defnyddio meithrinfeydd dydd ar gyfer gofal plant yn eu cyrraedd mewn car.


Roedd yr ymchwil ar gyfer y prosiect hwn yn cynnwys holiadur Survey Monkey o'r enw “Arferion Teithio i'r Gwaith”. Dangosir y canlyniadau llawn yn Atodiad 7. Holiaduron Survey Monkey. Roedd y nifer a ymatebodd yn isel gydag ond 36 wedi cymryd rhan, ond maent yn dangos profiadau rhieni a’r angen a fodolir.

Roedd dros 75% o ymatebwyr rhwng 26 a 45 (cwestiwn 1). Roedd 50% gyda 1 plentyn dibynnol, a 40% gyda 2 (cwestiwn 8). Roedd 40% o’r ymatebwyr yn defnyddio meithrinfa neu warchodwr plant a 34% yn defnyddio teulu neu ffrindiau i ofalu ân eu plant (cwestiwn 9).

Roedd cyfeiriadau cartref yr ymatebwyr wedi'u gwasgaru'n gyfartal rhwng y ddwy sir (cwestiwn 2). Roedd lleoliadau gweithle'r ymatebwyr yn cefnogi'r ystadegau a oedd yn dangos y patrymau cymudo amrywiol yn y rhanbarth (cwestiwn 3). Roedd 44% o'r ymatebwyr yn gweithio'n llawn amser, gyda 41% arall yn gweithio 3 neu 4 diwrnod yr wythnos (cwestiwn 4).

Wrth ateb cwestiwn am unrhyw effaith y mae trefnu gofal plant yn ei chael ar sut neu pryd maent yn teithio i'r gwaith (cwestiwn 7), roedd dros 50% wedi ymateb bod amseroedd agor/cau ysgolion neu feithrinfeydd, ac/neu'r amser/pellter teithio yn cael effaith ar gymudo.

Mae’r amseroedd roedd yr ymatebydd yn gadael eu cartrefi i deithio i'r gwaith i’w gweld isod yn Ffigur 10 (cwestiwn 5).



*Ffigur 10 Amser mae rhieni'n gadael eu cartrefi i deithio i'r gwaith (Holiadur "Arferion Teithio i'r Gwaith" ar Survey Monkey)*

Roedd 50% o rieni yn gadael eu llefydd gwaith rhwng 5.00yp a 6.00yp i deithio adref (cwestiwn 6).

Gweler yn Ffigur 11 isod y pellter o gartrefi a gweithleoedd y rhieni i'w prif ddarparwyr gofal plant (cwestiwn 10).

*Ffigur 11 Pellter o gartrefi a gweithleoedd y rhieni i'w prif ddarparwyr gofal plant (Holiadur "Arferion Teithio i'r Gwaith" ar Survey Monkey)*

| Pellter | Cartref (31 ymatebwr) | Gwaith (29 ymatebwr) |
|---|---|---|
| 0-3 milltir / miles | 25 | 8 |
| 4-10 milltir / miles | 5 | 9 |
| 11-15 milltir / miles | 1 | 3 |
| Dros 16 milltir | | 9 |

Mae pwysigrwydd cael gofal plant yn agos i gartrefi'r ymatebwyr i'w gweld yn glir, gyda llawer yn gollwng y plant cyn teithio'n bell i'w gweithle. Rhaid ystyried hyn wrth symud y prosiect hwn yn ei flaen.


## 3.3 Sefyllfa cyflogaeth y siroedd, yn arbennig yng nghyd-destun merched.

Daw'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael o Ystadegau ar gyfer Cymru, "Regional economic and labour market profiles, April 2020" (Ffynhonnell 18) (Saesneg yn unig). Mae'r bwletin ystadegol chwarterol hwn yn crynhoi gwybodaeth o nifer o setiau data am yr economi a'r farchnad lafur ar gyfer rhanbarthau economaidd Cymru ynghyd â chymariaethau â Chymru gyfan a'r DU. Mae'r data mwyaf diweddar am y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2019. Wrth edrych ar y setiau data, mae'n bosib crynhoi ymhellach. Mae elfennau o'r wybodaeth ar gael ynglŷn â Siroedd Fflint a Wrecsam yn unigol, a'r gweddill am wahanol ardaloedd a Chymru gyfan. Rhaid nodi nad yw'r wybodaeth yn seilio at y sefyllfa gyda'r pandemig Covid-19. Mae'n debyg, o leiaf yn y byrdymor, bod newidiadau enfawr mewn sawl sector busnes yn mynd i effeithio ar y gweithlu.

Mae'r 4 siart ac ystadegau isod ar gyfer y flwyddyn i 31/12/19 yn dod o:


https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Employment/Persons-Employed/employmentrate-by-welshlocalarea-year

*Ffigur 12 Cyfradd gyflogaeth (16-64 oed)*




Mae'r gyfradd gyflogaeth oedran 16-64 yn Sir y Fflint (79.4%) a Wrecsam (75.1%) yn uchel i gymharu gyda chyfradd Cymru (73.2%) a'r DU (75.6%). Mae llawer o hyn oherwydd agosrwydd swyddi gweithgynhyrchu medrus iawn yn y ddwy sir a Gogledd-orllewin Lloegr.

*Ffigur 13 Cyfradd gyflogaeth menywod (16-64 oed)*




Ar gyfer fenywod oedran 16-64, yr ystadegau yw Sir y Fflint 77.4%, Wrecsam 71.2%, Cymru 69.4%, DU 71.6%. Yn ogystal â swyddi gweithgynhyrchu, mae gan yr ardal nifer fawr o rolau traddodiadol benywaidd yn y sectorau manwerthu, bwyd, gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd.

*Ffigur 14 Cyfradd gyflogaeth (24-49 oed)*





Wrth ddewis yr oedran 25-49 yn unig, gwelwn fod y gyfradd gyflogaeth yn uchel dros y ddwy sir, gyda Sir y Fflint 79.4%, Wrecsam 75.1%, Cymru 73.2% a'r DU 75.6%.

Dyma'r oedran sydd fwyaf tebygol o fod gyda phlant sydd angen gofal. Mae argaeledd gofal plant a safbwyntiau rhieni a drafodir yn adran 3.1 yn dangos pa mor bwysig yw gofal plant o ansawdd da wrth alluogi rhieni i weithio. Er bod y teulu cyfan yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â gofal plant, mewn llawer o achosion, menywod sy'n gyfrifol am lawer o'r cyfrifoldeb. Mae'r lefel uchel o gyflogaeth ymhlith ferched 25-49 oed yn ffigur 15 isod yn dangos pa mor bwysig yw'r gweithlu benywaidd i economi Siroedd y Fflint a Wrecsam.

*Ffigur 15 Cyfradd gyflogaeth menywod (25-49 oed)*

Trwy ddewis menywod 25-49 oed yn unig, gwelwn fod y gyfradd





gyflogaeth yn uwch byth, Sir y Fflint 84.6%, Wrecsam 80.7%, Cymru 77.7%, DU 79.0%.

Ar draws y ddwy sir yn gyffredinol mae lefel uwch o gyflogaeth nag yng Nghymru a cyfan y DU. Mae hyn yn fwy amlwg ymhlith menywod yn yr oedran 25-49, sef y ddemograffig sydd fwyaf tebygol o fod â phlant sydd angen gofal wrth iddynt weithio.

Trafodir prif gyflogwyr yr ardal yn fanylach yn adran 3.5, ond dangosir ystadegau'r gweithlu yn eu cyfanrwydd isod.

*Ffigur 16 Y Gweithlu*




Ffynhonnell: [https://statswales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Employment/Jobs/Whole-Workforce/workplaceemployment-by-welshlocalareas-industry](https://statswales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Employment/Jobs/Whole-Workforce/workplaceemployment-by-welshlocalareas-industry)

Gwelir yn gyffredinol, bod y mwyafrif o weithlu'r ddwy sir yn gweithio yn y sectorau canlynol:

- Cynhyrchu,
- Cyfanwerthu/manwerthu/cludiant/gwestai/bwyd,
- Gweithgareddau proffesiynol/gwyddonol/technegol,
- Gweinyddiaeth gyhoeddus/amddiffyn/addysg/iechyd.

Gellir dadansoddi'r canlyniadau hyn yng nghyd-destun y lefel uchel o weithleoedd cynhyrchu, gwyddonol, technegol a phroffesiynol yn yr ystadau diwydiannol ar draws y ddwy sir.

Ar ran gweinyddiaeth gyhoeddus, amddiffyn, addysg ac iechyd rhaid ystyried bod mwy o gyfleoedd yn Wrecsam oherwydd Prifysgol Glyndŵr, Ysbyty'r Maelor, swyddfeydd mawr yr Adran Gwaith a Phensiynau a CThEM, swyddfeydd Heddlu Gogledd Cymru yn yr Ardal Reoli a Dalfa Rhanbarth y Dwyrain a Charchar Berwyn. Heblaw'r chwe lleoliad hyn, mae gweithlu sylweddol yn swyddfeydd y ddau gyngor sir, yr heddlu, ysgolion, colegau addysg bellach, a gwasanaethau cymdeithasol.

Mae gweithlu'r sectorau cyfanwerthu, manwerthu, cludiant, gwestai a bwyd yn fwy yn Wrecsam oherwydd bod tref Wrecsam yn fwy o hwb i ddenu siopwyr. Mae hefyd sector twristiaeth fawr yn Wrecsam gyda 1.92 miliwn ymwelwyr yn 2018-19 (Ffynhonnell 19).

## 3.4 Gweithwyr i gyflenwi'r ddarpariaeth

Esbonnir y gofynion cyfreithiol ar gyfer cymwysterau staff meithrinfeydd, cymarebau gofod a staffio yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed (Ffynhonnell 20) gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)/Llywodraeth Cymru.

Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn berthnasol i bob darparwr gofal dydd. Rhoddir y Safonau ar waith mewn gwahanol ffyrdd yn ôl natur y gwasanaeth neu'r lleoliad, ond rhaid rhoi sylw iddynt.

I grynhoi'r manylion ynglŷn â staff mewn meithrinfeydd dydd:

Rhaid i unrhyw un sy'n cynnig darparu gofal dydd i blant fod wedi'i gofrestru gydag AGGCC. Mae "Gofal Dydd Llawn" yn golygu gofal dydd ar gyfer plant 0 hyd at 12 oed am gyfnod parhaus o 4 awr neu fwy mewn unrhyw ddiwrnod, mewn mangre annomestig. Mae "Gofal Plant y Tu Allan i oriau Ysgol" yn golygu bod y cyfanswm o'r gofal sy'n cael ei darparu ar gyfer plant hyd at 12 oed yn fwy na dwy awr mewn unrhyw ddiwrnod ac am fwy na pum niwrnod y flwyddyn. Mae'n cyfeirio at ofal plant y tu allan i ddiwrnod ysgol llawn amser y plentyn, gan gynnwys cyn ysgol, ar ôl ysgol, ac yn ystod gwyliau ysgol. Nid yw'n cynnwys gofal cofleidiol na chynllun brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd Llywodraeth Cymru.

Lle darperir gofal dydd gan sefydliad, rhaid i Unigolyn Cyfrifol sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gofal dydd a ddarperir o ddydd i ddydd gael ei benodi gan y sefydliad hwnnw. Rhaid bod gan berson â chyfrifoldeb (rheolwr) o leiaf 2 flynedd o brofiad o weithio mewn lleoliad gofal dydd cyn ei benodi. Rhaid iddynt fod gyda chymhwyster ar lefel 3 o leiaf a gydnabyddir gan Gyngor Gofal Cymru sy'n briodol i'r swydd.

Ynglŷn â'r staff eraill, rhaid bod gan o leiaf 80% ohonynt gymhwyster ar lefel 2 o leiaf a bod gan o leiaf hanner y rhain gymhwyster lefel 3. Mewn lleoliadau sy'n gofalu am blant o dan 2 oed, rhaid i'r staff sy'n gofalu am fabanod bod yn gymwys i wneud hynny, gydag o leiaf hanner y staff hwn wedi cael hyfforddiant yn y maes penodol hwn. Rhaid bod gan y person sydd â chyfrifoldeb am yr ystafell fabanod o leiaf ddwy flynedd o brofiad o weithio gyda phlant o dan ddwy flwydd oed, a bod y trefniadau staffio'n lleihau nifer yr unigolion sy'n ymwneud â phlentyn unigol.

Mewn lleoliadau gofal dydd, y gymhareb staffio ofynnol yw:

Un oedolyn: tri phlentyn o dan 2 oed

Un oedolyn: pedwar plentyn 2 oed

Un oedolyn: wyth plentyn 3-7 oed

Un oedolyn: deg plentyn 8-11 oed.

Mae Cyngor Wrecsam yn cydnabod yn eu hadroddiad Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2017 - 2022 bod patrwm yn y sector lle mae lleoliadau wedi bod yn cael trafferth recriwtio staff cymwys yn gyffredinol. Maent hefyd yn nodi bod cyfraddau tâl fesul awr y gweithlu gofal plant sy'n gallu siarad Cymraeg yn uwch, gan fod galw yn uchel am staff cymwys sy'n rhugl yn y Gymraeg. Mae trosiant staff yn isel yng Nghylchoedd Meithrin yn y Sir, sydd yr unig ddarparwyr cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd.

Wrth symud ymlaen gyda nodau'r prosiect hwn un o'r heriau mwyaf bydd oresgyn y ffaith mai pwll o ychydig iawn o staff cymwys a phrofiadol sydd ar gael i dynnu oddi wrtho gyda gwybodaeth ddigonol o'r Gymraeg yn yr ardal.

Ar hyn o bryd mae Coleg Cambria yn cynnig tua 6 cwrs llawn amser a 5 cwrs rhan amser cyfrwng Saesneg sy'n ymwneud â Gofal, Addysg a Phlentyndod (gweler Atodiad 4. Coleg Cambria).

Mae Prifysgol Glyndŵr yn cynnig tua 15 cwrs cyfrwng Saesneg sy'n ymwneud â Gofal, Addysg a Phlentyndod (gweler Atodiad 3. Prifysgol Glyndŵr).

Er mwyn hyrwyddo nodau ac amcanion yr astudiaeth hon, bydd angen cyrraedd siaradwyr Cymraeg gyda'r cymwysterau a phrofiad perthnasol. Byddai defnyddio'r cyfryngau canlynol ar gyfer yr ymgyrch recriwtio gychwynnol yn fanteisiol i gyrraedd y gynulleidfa addas ehangaf:

Papurau Bro (Papur Fama, Y Clawdd, Nene, Y Glannau, Yr Ysgub)

Papurau Newydd / Cylchgronau cyfrwng Cymraeg (Golwg, Y Cymro)

Papurau Newydd cyfrwng Saesneg (Daily Post (Reach Group), Leader (Newsquest Group))

Gwefannau (Lleol.cymru, Golwg360.cymru, Swyddle.com, Trac.jobs)

Cyfryngau Cymdeithasol (Facebook, Twitter, Instagram)

Cynghorau Sir

Mentrau Iaith Cymru

Prifysgolion

Colegau Addysg Bellach

Dylid hefyd ystyried hyfforddi aelodau staff newydd, a chynnig prentisiaethau i ddatblygu'r gweithlu ymhellach.

Mae gan Fudiad Meithrin cynlluniau hyfforddi (gweler Atodiad 2. Mudiad Meithrin) sef prentisiaeth newydd sydd yn cynnig cyfle i gymhwyso fel ymarferydd Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant, a Chynllun Ysgolion Cam wrth Gam gyda chyrsiau amrywiol Lefel 2 a Lefel 3.

Comisiynwyd Mudiad Meithrin i ysgrifennu adnoddau Cymraeg ar gyfer cyrsiau gofal plant City & Guilds a CBAC sydd yr unig ddarparwr cyfres newydd o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru.

## 3.5 Prif gyflogwyr yn yr ardal.

Oherwydd y pandemig Coronafirws parhaus a'r cynnwrf cysylltiedig i fusnesau, mae wedi bod yn anodd ymgynghori â chyflogwyr mawr yn Sir y Fflint a Wrecsam fel y rhagwelwyd yn wreiddiol.

Fel y trafodwyd o'r blaen, mae gweithlu'r sector cyhoeddus yn sylweddol ar draws y ddwy sir.

Mae Wrecsam a Sir y Fflint hefyd yn elwa o gyflogwyr ar raddfa fawr yn y sector preifat, mae rhai o'r mwyaf wedi'u rhestru isod. Dylid blaenoriaethu ymgynghori â rhain, yn ogystal â busnesau llai eraill wrth symud y prosiect hwn yn ei flaen yn y dyfodol.

**Sir y Fflint:**

Airbus

2 Sisters Food Group

Toyota Motor Manufacturing UK

ConvaTec

Tata Steel

**Wrecsam:**

JCB

Kronospan

Kellogg’s

Moneypenny

Sharp

Mae lefelau uchel o gymuno yn golygu y byddai angen i unrhyw feithrinfa ddydd hysbysebu'n eang i gyrraedd y gynulleidfa fwyaf bosibl.

Mae dwy enghraifft o ddarpariaeth gofal plant cyfredol ar safleoedd brif gyflogwyr wedi'u nodi isod:

1. Prifysgol Glyndŵr - Mae yna feithrinfa ar Gampws Plas Coch Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam (Meithrinfa Little Scholars) sy'n cael ei rhedeg gan Active Childcare Ltd, nad yw'n gysylltiedig â Phrifysgol Glyndŵr mewn unrhyw ffordd. Mae’r meithrinfa’n cynnig gofal i uchafswm o 91 o blant

rhwng 0 a 12 blwydd oed. Mae'r gofal a ddarperir yn Saesneg, ac nid ydynt yn gallu darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Dyma le darperir gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun ofyn amdano. Nid yw ar gael oherwydd diffyg staff sy'n siarad Cymraeg.

2. Coleg Cambria - Mae Coleg Cambria yn berchen ac yn rhedeg meithrinfeydd ar safleoedd Glannau Dyfrdwy, ac Iâl Wrecsam. Mae meithrinfa Glannau Dyfrdwy yn cynnig gofal i uchafswm o 106 o blant rhwng 3 mis a 5 mlwydd oed, ac yn agored i fyfyrwyr, staff y coleg a phlant trigolion yr ardal. Mae meithrinfa Iâl Wrecsam yn cynnig gofal i uchafswm o 26 o blant rhwng 3 mis a 4 blwydd oed ac yn agored i fyfyrwyr y coleg yn unig. Mae'r gofal a ddarperir gan y 2 feithrinfa yn Saesneg, ac nid ydynt yn gallu darparu 'Cynnig Rhagweithiol' y Gymraeg. Nid yw ar gael oherwydd diffyg staff sy'n rhugl yn y Gymraeg.

Mae'n debygol bod gan gyflogwyr mawr eraill gysylltiadau â darparwyr gofal plant yn eu hardaloedd, dylid ymchwilio ymhellach i rain pan fydd amgylchiadau'n caniatáu.

## 3.6 Modelau addas i gynnig y gwasanaeth

Cynhaliwyd ymchwiliadau ar fodelau busnes posibl y gellid eu defnyddio er mwyn dod a nodau'r prosiect hwn i rym.

Yr opsiynau i'w hystyried yw creu busnes cwbl newydd i redeg y feithrinfa neu gael cwmni sy'n bodoli eisoes i fentro arno. Y peth pwysig yw bod y Gymraeg yn rhan annatod o'r gwasanaeth cyfan ac mai'r Gymraeg hefyd yw iaith weinyddol fewnol y ddarpariaeth.

### 3.6.1 Ychwanegu gofod uniaith Cymraeg i feithrinfa sy'n bodoli eisoes

Mae Cynghorau Sir y Fflint a Wrecsam yn cydnabod diffyg darpariaeth meithrinfeydd dydd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Y sefydliad sy'n cynrychioli meithrinfeydd dydd ledled Cymru yw “National Day Nursery Association (NDNA) Cymru” (gweler Atodiad 5. NDNA (Cymru)). Maent yn rhan o bartneriaeth CWLWM, sy’n cefnogi datblygiadau polisi a gweithredu strategaeth dysgu gynnar a gofal plant o fewn Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd am eu harbenigedd a'u cyngor yn ystod yr astudiaeth hon, ac roeddent yn amhrisiadwy.

Byddai NDNA Cymru yn annog cydweithredu â meithrinfa ddydd presennol, i atal dadleoli gofal plant a chefnogi cynaliadwyedd y ddarpariaeth bresennol yn Siroedd y Fflint a Wrecsam. Efallai y bydd yn bosibl ymgysylltu â meithrinfeydd presennol i weld a oes ffordd i addasu eu darpariaeth i gynnig gwasanaeth cwbl Gymraeg fel rhan o (ond ar wahân i) eu lleoliad presennol. Mae gan NDNA Cymru rwydweithiau aelodau gweithredol mewn ardaloedd awdurdodau lleol ledled Cymru. Gallant hwyluso cyflwyniad y prosiect hwn mewn “cyfarfod rhwydwaith” yn Sir y Fflint a / neu Wrecsam yn y dyfodol i ymgynghori â darparwyr cyfredol ynghylch yr astudiaeth.

Mae’r model hwn yn denu sylw ac yn haeddu ymchwiliad pellach, ond yn yr hirdymor gall fod yn anghynaladwy fel darpariaeth cyfrwng Gymraeg yn y Gogledd-ddwyrain. Y rhesymau am hyn yw bod y meithrinfeydd presennol yn yr ardal i gyd yn fusnesau sy’n cael eu gyrru gan elw. Mae’n bosib byddai'r diffyg staff sy’n rhugl yn y Gymraeg yn y sector yn awgrymu y gallai pwysigrwydd sgiliau Cymraeg yn y gofod cyfrwng Cymraeg yn cael ei danseilio'n hawdd pe bai prinder staff a / neu amrywiadau o fewn y gweithlu.

### 3.6.2 Sefydlu busnes newydd

Ystyriwyd bod yr endidau busnes mwyaf cyffredin yn anaddas yn yr achos hwn h.y.

- Unig fasnachwr
- Partneriaeth
- Cwmni cyfyngedig preifat (Cyf)

Teimlir y byddai cyfranogiad y gymuned ehangach ynghyd â mynediad at ffynonellau cyllid grant yn agweddau allweddol ar ddatblygu'r prosiect ymhellach. Byddai creu “sefydliad trydydd sector” newydd o ryw fath yn fanteisiol. Mae hwn yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio sefydliadau nad ydynt yn y sector cyhoeddus na'r sector preifat. Mae'n cynnwys sefydliadau gwirfoddol a chymunedol (elusennau cofrestredig a sefydliadau eraill fel cymdeithasau, grwpiau hunangymorth a grwpiau cymunedol), mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydfuddiannol a chwmnïau cydweithredol.

Byddai model busnes trydydd sector yn annog mwy o berchnogaeth gymunedol ar y fenter a byddai llywodraethu sefydliad o'r fath yn galluogi aelodau i ddylanwadu ar lwybr y feithrinfa i’r dyfodol. Mae mwy o grantiau ar gael i sefydliadau'r trydydd sector nag i'r sector preifat felly byddai hyn yn dylanwadu ar y model busnes a ddewisir.

Mae'n hanfodol dewis y strwythur cywir, ac mae'n dibynnu a oes angen strwythur corfforaethol a / neu aelodaeth ehangach. Sefydliad corfforedig elusennol, cwmni elusennol neu gymdeithas neu ymddiriedolaeth anghorfforedig yw posibiliadau.

Diffinnir strwythur yr elusen gan ei ‘ddogfen lywodraethol’ (y ddogfen gyfreithiol sy’n creu’r elusen ac yn dweud sut y dylid ei rhedeg). Mae’r strwythur yn effeithio ar sut y bydd yn gweithredu.

Er enghraifft:

- Pwy fydd yn ei redeg ac a fydd ganddo aelodaeth ehangach
- A all y busnes ymrwymo i gontractau neu gyflogi staff yn ei enw ei hun
- A fydd yr ymddiriedolwyr yn atebol yn bersonol am yr hyn y mae'r busnes yn ei wneud

Mae pedwar prif fath o strwythur elusennol (gweler Ffynhonnell 21):

- Sefydliad corfforedig elusennol (CIO - Community Interest Organisation)
- Cwmni elusennol (wedi'i gyfyngu trwy warant)
- Cymdeithas anghorfforedig
- Ymddiriedaeth

Yn dilyn trafodaeth gyda Nigel Davies o AVOW and Heather Hicks o FLVC. (Gweler Atodiad 8. AVOW a FLVC) daeth yn amlwg mai'r model gorau i fynd â'r prosiect ymlaen byddai CIO.

Mae Sefydliadau Corfforedig Elusennol (CIO) yn strwythur cyfreithiol sydd ar gael ar gyfer elusennau neu grwpiau elusennol sy'n dymuno cael eu hymgorffori. Dyluniwyd CIOs yn benodol ar gyfer elusennau, gan ganiatáu iddynt gofrestru unwaith yn unig gyda'r Comisiwn Elusennau fel math corfforedig o elusen nad yw'n gwmni. Mae hyn yn torri allan yr angen i gofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau ac adrodd yn ôl iddo.

Cynigir llai o faich gweinyddol fel budd o ddod yn CIO. Yn ogystal â hyn, byddai gan y CIO ei bersonoliaeth gyfreithiol ei hun ac felly gall ymrwymo i gontractau'i hun yn hytrach nag yn enw ymddiriedolwyr unigol. Bydd gan ymddiriedolwyr atebolrwydd cyfyngedig hefyd. Gweler Ffynhonnell 22.

Mae modelau, templedi a chanllawiau ar gyfer cyfansoddiadau, erthyglau cymdeithasu a gweithredoedd ymddiriedolaeth i elusen neu ymddiriedolaeth elusennol newydd ar gael gan y Comisiwn Elusennau, gweler Ffynhonnell 23.

## 3.7 Darganfod a meithrin unigolion allweddol

Mae gan Siroedd y Fflint a Wrecsam gymuned glos o Gymry Cymraeg sy'n weithgar yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg ym mhob agwedd ar eu bywydau. Gellir gweld hyn yn sgil y prosiectau a redir gan Fenter Iaith Fflint a Wrecsam, Mudiad Meithrin, Yr Urdd a Dysgu Cymraeg yn yr ardal. Y fenter fwyaf llwyddiannus a gafodd ei gychwyn yn ystod y blynyddoedd diweddaraf fu'r Saith Seren yn Wrecsam.

Y camau cyntaf wrth fynd â'r prosiect hwn ymhellach fydd trefnu cyfarfodydd cyhoeddus i gyflwyno canfyddiadau'r adroddiad hwn i'r gymuned. Mae cefnogaeth gan y Cynghorau Sir, sefydliadau addysgol a mudiadau trydydd sector yn yr ardal eisoes wedi'i gadarnhau.

Mae nifer o drigolion siroedd y Fflint a Wrecsam wedi datgan eu rhwystredigaeth oherwydd diffyg darpariaeth gofal plant llawn amser cyfrwng Cymraeg yn eu hardal. Mae angen dal ar y brwdfrydedd hwn i wyrdroi'r sefyllfa ac arwain ar sefydlu'r feithrinfa iaith Gymraeg gyntaf yn y Gogledd-ddwyrain.

Bydd rhaid darganfod a meithrin unigolion gyda'r ymroddiad, angerdd a brwdfrydedd i weithio gyda'i gilydd ar y cynllun ac efallai i ffurfio menter gwbl newydd er darparu'r gwasanaeth, creu swyddi a chyfrannu at adfywiad economaidd eu bro. Bydd y rhinweddau hyn yn holl bwysig er sicrhau cynllun llwyddiannus. Gweler Ffynhonnell 24 am wybodaeth recriwtio ymddiriedolwyr.

Byddai'n hanfodol petai'r unigolion hyn gyda rhai sgiliau, profiad a gwybodaeth berthnasol a gwerthfawr er sicrhau llwyddiant y fenter. Er enghraifft, byddai unigolion o'r meysydd addysg, gofal, cyfrifeg, cyfraith a busnes yn fanteisiol. Hefyd byddai profiad o fod yn rhan o fenter gymdeithasol

arall yn fanteisiol, gyda’r ddealltwriaeth o’r sgiliau sydd eu hangen i ddatblygu cynlluniau busnes a gweithredu fel ymddiriedolwyr/cyfarwyddwyr.

Byddai’n fanteisiol petai’r unigolion yn byw yn Siroedd y Fflint a Wrecsam ac felly’n adnabod y cymunedau’n dda, gyda rhwydweithiau cymdeithasol cryf ac efallai wedi cael profiad o yrru eu plant i ofal ble nad oedd y Gymraeg yn brif iaith.

Yn fwy nag unrhyw sgil arall, mae'n hanfodol bod gan yr unigolion hyn frwdfrydedd mawr iawn i weld yr iaith yn ffynnu o ddydd i ddydd. Bydd gwir frwdfrydedd i'r prosiect lwyddo yn cydbwyso unrhyw ddiffyg profiad neu sgiliau perthnasol. Dyma’r elfennau bydd angen i sicrhau bod y mudiad a’i bartneriaid mewn sefyllfa i arwain y cynllun mewn modd adeiladol a llwyddiannus.

Gall CGGC (WCVA), trwy AVOW a FLVC yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, hefyd ddarparu cymorth a chefnogaeth wrth recriwtio ymddiriedolwyr gweler Ffynhonnell 25.

Bydd cysylltiadau gyda mentrau eraill e.e. Mudiad Meithrin, Cylchoedd Meithrin lleol, Menter Iaith Fflint a Wrecsam, Gwasanaethau Addysg y ddwy sir a.y.b. yn gymorth mawr er annog cydweithrediad yn y dyfodol a lledaenu gwybodaeth am y feithrinfa.

## 3.8 Darganfod safle addas i’r datblygiad

Mae’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)/Llywodraeth Cymru yn trafod gofynion cyfreithiol ynglŷn â gofod mewn meithrinfeydd dydd. I grynhoi:

Ond y cyfleuster sy'n cael defnyddio'r fangre lle mae gofal dydd yn cael ei ddarparu ystod yr oriau gweithredu.

Wrth gyfrifo’r lle sydd ei angen ar gyfer pob grŵp gwahanol oedran, rhaid eithrio’r toiledau, storfeydd, tramwyfeydd, ardaloedd penodol i’r staff, ystafelloedd cotiau, ystafelloedd amlbwrpas, a cheginau. Rhaid bod y lle canlynol, o leiaf, ar gael i bob plentyn yn y man chwarae dan do mewn gofal dydd;

Plant o dan 2 oed - 3.7 metr sgwâr,

Plant 2 flwydd oed - 2.8 metr sgwâr,

Plant rhwng 3 a 12 (yn gynhwysol) oed - 2.3 metr sgwâr.

Rhaid esbonio’n glir sut bydd y gofod dan do yn cael ei rannu a'i ddefnyddio i ddarparu gweithgareddau ar gyfer grwpiau o blant a sut bydd y staff yn cael eu defnyddio.

Bydd rhaid bod ystafell ar wahân ar gael i blant o dan ddwy oed, ond dylent allu cael cysylltiad â phlant hŷn ar adegau priodol. Rhaid darparu cyfleusterau newid cewynnau a mannau tawel er mwyn hwyluso patrymau cysgu unigol.

Ar gyfer plant hyn, rhaid bod man ar wahân ar gael iddynt ymlacio, chwarae yn dawel neu gysgu. Rhaid sicrhau bod dodrefn priodol ar gael yn y man hwn. Ceir trawsnewid man ar gyfer chwarae arferol i'r diben hwn, ond rhaid bod y plant yn cael gorffwys yn ddiogel ynddo heb aflonyddu arnynt.

Fel rheol, gofynnir bod man chwarae awyr agored ar gael yn gysylltiedig â'r fangre. Rhaid iddo fod yn ddiogel ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, a rhaid mai dim ond y plant sy'n ei ddefnyddio pan fydd y ddarpariaeth ar waith. Mewn sefyllfa eithriadol, os nad oes modd darparu man chwarae awyr agored, rhaid mynd â'r plant i barciau neu feysydd chwarae lleol, neu rywle tebyg, yn rheolaidd

Rhaid bod o leiaf un toiled addas i'w ddefnyddio gan y plant ac un basn ymolchi gyda dŵr poeth a dŵr oer ar gael i bob 10 plentyn dros ddwy flwydd oed. Dylid darparu tyweli papur neu dyweli unigol ar gyfer pob plentyn. Rhaid i'r toiledau roi preifatrwydd i'r plant a bod yn briodol ar gyfer eu hoedran.

Rhaid bod toiledau ar wahân ar gael i oedolion a dylai ystafell fod ar gael i staff gael seibiant oddi ar y mannau y mae'r plant yn eu defnyddio.

Mewn lleoliadau gofal dydd adeiledig, rhaid bod cegin (sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau o ran iechyd amgylcheddol a diogelwch bwyd) ar gael. Rhaid bod digon o gyfleusterau i ddarparu prydau bwyd a byrbrydau i'r plant a'r staff yn y fangre. Os nad yw hyn ar gael, rhaid i'r person cofrestredig ddangos sut y gwneir trefniadau digonol i ddarparu bwyd a diod i'r plant a'r staff.

Rhaid sicrhau nad yw'r plant yn cael mynd i'r gegin oni bai ei bod yn cael ei defnyddio ar gyfer gweithgaredd i blant dan oruchwyliaeth.

Mae Cynghorau Sir y Flint a Wrecsam yn gweithredu cynlluniau Trosglwyddo Asedau Cymunedol (TAC/CAT), sef y broses pan fydd eiddo'n cael ei drosglwyddo o berchnogaeth neu reolaeth corff sector cyhoeddus i grŵp trydydd sector neu grŵp cymunedol, gweler Ffynhonnell 26.

Rheolir y cynllun TAC ar ran Cyngor Sir y Fflint gan FLVC. Mae gwybodaeth gyffredinol am TAC Sir y Fflint ar gael ar wefan y cyngor, gweler Ffynhonnell 27.

Mae cynllun TAC Cyngor Sir y Fflint wedi bod ar waith ers cryn amser. Yn dilyn trafodaethau gyda FLVC, deellir y gellir trosglwyddo asedau i grwpiau cymunedol addas ar brydles o 27 mlynedd gyda "rhent pupur". Gall Cyngor Sir y Fflint ddyfarnu grant cyfalaf hyd at £ 50,000, yn dibynnu ar faint yr adeilad ac adroddiad gan syrfëwr. Gellir defnyddio'r grant hwn i gael cyllid cyfatebol o ffynonellau eraill.

Mae'r broses yn cynnwys yn gryno:

- Dod o hyd i asedau addas gan ddefnyddio teclyn chwilio gwefan y cyngor a thrafod canfyddiadau gyda FLVC
- Cwblhau mynegiad o ddiddordeb ar-lein
- Paratoi a chyflwyno gwybodaeth am fodel busnes, gan gynnwys arolwg safle a chynllun busnes sylfaenol
- Gwaith cyfreithiol yn paratoi contractau, prydles ac ati

Ar ôl penderfynu ar leoliad cyffredinol, gall FLVC gynnig cymorth amhrisiadwy i fynd â'r broses ymhellach.

Nid yw'r cynllun TAC yn Wrecsam mor ddatblygedig â'r cynllun yn Sir y Fflint. Mae'r Tîm Asedau yng Nghyngor Wrecsam yn rheoli eu TAC, a daethpwyd atynt wrth baratoi'r adroddiad hwn. Cysylltwyd â'r Swyddog Menter Busnes yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam hefyd. Mae hi'n hwyluso Rhwydwaith Menter Gymdeithasol Wrecsam ac yn darparu cyngor i fusnesau gwledig a sefydliadau cymunedol yn y sir.

Gall y Cyngor gynnal chwiliad o eiddo gwag / sydd ar gael ym mhortffolio'r Cyngor a chynnig cefnogaeth ynghylch Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol posibl maes o law.

Dylid hefyd ystyried cynllun Prifysgol Glyndŵr "Campws 2025" sydd gyda chynlluniau cynnal a gwella darpariaeth gofal plant fel rhan o gynllunio gofod cymdeithasol myfyrwyr a staff.

Mae Llysgennad Iaith Prifysgol Glyndŵr yn awyddus i ehangu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd o waith y Brifysgol. Mae hi'n awyddus i'r Brifysgol ystyried darparu meithrinfa ddydd cyfrwng Gymraeg newydd fel rhan o gynlluniau "Campws 2025". Mae hi'n frwdfrydig i weithio gydag unrhyw fenter Meithrinfa yn y dyfodol i lobïo'r Brifysgol gyda'r bwriad o nodi adeilad addas ar gyfer cynnig y ddarpariaeth hon ar un o'u campysau.

## 3.9 Darganfod cronfeydd addas i ddatblygu'r cynllun

Mae pandemig Covid-19 a'r newidiadau economaidd posibl oherwydd Brexit wedi effeithio ar rhai ffrydiau cyllido ar gyfer ymchwil a chynhwysiant yn yr adroddiad hwn. Yn y dyfodol, wrth symud ymlaen gyda'r prosiect, dylid ymchwilio i'r cyrff cyllido a'r ffynonellau gwybodaeth ganlynol yn llawn. Nid yw'r rhestr ganlynol yn gynhwysfawr a dylid nodi y gallai ffynonellau cyllid eraill ddod ar gael yn y dyfodol.

Ers i'r pandemig coronafirws gyrraedd y DU, mae'r trydydd sector wedi dioddef effaith sylweddol gyda gwasanaethau'n cael eu gohirio ac ymdrechion codi arian yn lleihau. Mae'r Institute of Fundraising wedi ymchwilio effeithiau Covid-19 ar y sector, gyda gwybodaeth ar gael ar eu gwefan. Gweler https://www.institute-of-fundraising.org.uk/home/

Gadawodd y DU'r Undeb Ewropeaidd ar 31 Ionawr 2020 gyda'r cyfnod trosglwyddo yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2020. Mae gan yr NCVO ganllawiau ac adnoddau i helpu sefydliadau trydydd sector i ddeall a pharatoi ar gyfer effeithiau posibl Brexit. Gweler https://www.ncvo.org.uk/policy-and-research/europe

Mae platfform newydd sef "Cyllido Cymru" wedi'i sefydlu gan Gefnogi Trydydd Sector Cymru i chwilio am arian trwy ddefnyddio eu chwilotwr ar-lein am ddim. Mae modd dod o hyd i gyllid ar gyfer elusennau, grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol. Mae manylion cannoedd o gyfleoedd

am arian grant ac arian benthyg o ffynonellau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Gweler https://cy.funding.cymru/

Dylid ystyried tynnu ar arbenigedd y CGGC (trwy AVOW a FLVC yn y Gogledd-ddwyrain). Yn 2018-19, dyrannodd CGGC tua £11.5 miliwn mewn arian i elusennau, mentrau cymdeithasol a gwirfoddolwyr yng Nghymru. Mae gwefan CGGC gyda gwybodaeth ynghylch cynlluniau ariannu â phopeth y bydd ei angen i chwilio am, a chynnal cyllid ar gyfer achosion da. Gweler https://wcva.cymru/cy/cyllid/

Mae'r Loteri Genedlaethol, trwy eu Cronfa Gymunedol, fel arfer yn medru ariannu prosiectau o'r math hyn, ond am nawr, maent yn blaenoriaethu ariannu prosiectau a sefydliadau sy'n cefnogi cymunedau drwy COVID-19. Gweler https://www.tnlcommunityfund.org.uk/welsh/funding/programmes

Dylid ymchwilio ffrydiau cyllido posibl eraill megis:

- Cronfeydd Llywodraeth Cymru ee Y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig
- Cronfeydd Cymunedol Cwmnïau Ynni ee Gwynt y Môr
- Moondance Foundation
- Cronfa Glyndŵr
- Cyngor Sir y Fflint ee grant cynaliadwyedd i gefnogi darparwyr gofal plant

Yn y dyfodol byddai modd i Swyddogion Menter Busnes y ddau Gyngor Sir a'r Gwasanaethau Gwybodaeth Deuluol helpu gyda gwybodaeth ar ffrydiau cyllido posibl (gan gynnwys cronfeydd "Adran 106" o bosib), a gwybodaeth ar gyfer rhedeg y fenter.

Weithiau mae cwmnïau mawr lleol hefyd yn cynnig cyllid cyfatebol ar gyfer mentrau cymunedol ac felly dylid ymchwilio yn llawn i ba gronfeydd sydd ar gael wrth symud y prosiect ymlaen.

## 4.0 Y Cynllun Busnes

Er mwyn symud y prosiect hwn yn ei flaen, yn benodol i gael cyllid grant, bydd angen paratoi cynllun busnes. Mae cymorth cyffredinol ar gael yn y maes hwn gan Fusnes Cymru, gweler Ffynhonnell 28.

Mae gan y mwyafrif o ganghennau banciau'r stryd fawr gynghorydd busnes bach a all hefyd ddarparu cymorth wrth gychwyn menter busnes newydd.

Byddai hefyd yn syniad da i gysylltu â PACEY (Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar). Maent yn elusen sy'n cefnogi pawb sy'n gweithio ym maes gofal plant a blynyddoedd cynnar. Mae PACEY Cymru yn cefnogi pobl sy'n gweithio gyda phlant yng Nghymru ac yn gofalu

amdanyn nhw. Maent yn un o’r pum sefydliad gofal plant sy'n gweithio gyda'i gilydd trwy'r consortiwm Cwlwm a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Mae PACEY wedi datblygu adnodd ar-lein am ddim o'r enw “Business Smart” i gefnogi pawb sy'n gweithio yn y maes gofal plant.

Mae gan Business Smart awgrymiadau, blogiau ac adnoddau defnyddiol i helpu ymarferwyr gofal plant i ddatblygu a thyfu busnes. Mae hwn yn adnodd amhrisiadwy, gyda thempledi ar gyfer cynllunio busnes, asesiadau risg a chyfrifiannell sylfaenol ar gyfer y costau redeg busnes gofal plant. Gweler Ffynhonnell 29.

Mae angen i gynllun busnes gynnwys pedair prif elfen:

Datganiad Cenhadaeth - Beth yw pwrpas y busnes?

Er enghraifft, yn yr achos hwn, efallai mai'r nod fyddai “Darparu gofal o ansawdd uchel trwy gyfrwng y Gymraeg mewn meithrinfa i gefnogi plant rhwng 3 mis a 5 mlwydd oed, a gofal cyn ac ar ôl ysgol i blant rhwng 5 a 12 oed”.

Dylai enw'r busnes fod wedi'i benderfynu hefyd, ynghyd â logo. Gwnaed peth gwaith fel rhan o’r prosiect hwn i edrych ar bosibiliadau. Y pwyntiau allweddol a ganfuwyd oedd:

Pwysigrwydd enw sy'n hawdd ei ynganu ar gyfer pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg.

Logo sy'n cyfleu nodau'r busnes. Gellir gweld dau logo enghreifftiol yn

Atodiad 9. Logos Enghreifftiol

Amcanion - Beth yw nodau'r busnes?

Dylai hyn nodi amcanion tymor byr a thymor hir i’r busnes anelu at eu cyflawni ymhen chwe mis, blwyddyn a thair blynedd.

Dylai'r amcanion fod yn benodol, yn realistig ac yn fesuradwy. Er enghraifft; 10 lle gofal plant mewn chwe mis, gan godi i 20 yn y flwyddyn gyntaf, a 30 mewn tair blynedd. Yna bydd yn bosibl dangos a yw'r amcanion hyn yn cael eu cyflawni, a chymryd camau priodol i'w cyflawni mewn pryd.

Strategaeth - Sut bydd y busnes yn cyflawni ei amcanion?

Dylai'r strategaeth fod yn seiliedig ar ymchwil i'r farchnad ac yn ddigon hyblyg i addasu i newidiadau yn y farchnad neu'r economi. Y meysydd i'w hystyried byddai:

- Pwy yw'r darpar gwsmeriaid?
- Pwy yw'r darpar gystadleuwyr?
- Beth yw'r farchnad gofal plant cyfredol?
- Adnoddau ac offer sydd eu hangen.

Dylid dadansoddi gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau i'r gwasanaeth yn y dyfodol. Dylid paratoi asesiad risg ar gyfer pob agwedd o’r busnes, gan gynnwys unrhyw adfywiad yn Covid-19 (neu sefyllfa frys debyg arall yn y dyfodol).

Cyllideb - Sut bydd y busnes yn cyllido'i hun?

Bydd arian yn symud i mewn ac allan o'r busnes trwy'r amser. Bydd rhieni / gofalwyr yn talu eu bil, a bydd arian yn cael ei wario ar gyflogau staff, adnoddau newydd a gorbenion. Dylai'r cynllun busnes gynnwys rhagolwg llif arian am o leiaf 12 mis. Bydd hyn yn dangos faint o arian fydd yn dod i mewn ac yn mynd allan, oddi wrth ac i bwy, a phryd y disgwylir yr incwm a'r gwariant hwn.

Yn ogystal â gorbenion cyffredinol fel rhent a chyfleustodau, disgwylir y bydd angen i'r busnes brynu car i gludo plant yn ôl ac ymlaen i'r ysgol (dibynnu ar bellter). Bydd hyn yn costio tua £ 20,000. Dylid cyllidebu offer cychwynnol o oddeutu £ 10,000 gyda chost flynyddol arall o £ 5,000 am adnewyddu ac ailosod offer.

Mae ymchwil marchnad a gynhaliwyd ar gyfer y prosiect hwn wedi dangos bod mwyafrif y meithrinfeydd yn yr ardal sy'n hysbysebu eu cyfraddau, yn codi oddeutu £ 50 y dydd neu £ 30 yr hanner diwrnod. Mae rhai yn cynnig gostyngiadau i frodyr a chwiorydd. Mae'n ymddangos bod gofal cyn / ar ôl ysgol a gofal yn ystod gwyliau’r ysgol yn ddibynnol ar ofod ac mae'r cyfraddau'n amrywio.

O ran staffio'r busnes, bydd angen staff sylfaenol er mwyn gweithredu’r feithrinfa o’r diwrnod cyntaf. Yn dibynnu ar arwynebedd llawr yr adeilad, mae'n realistig tybio y bydd 5 swydd gyfwerth ag amser llawn yn cael eu creu o’r cychwyn, gan godi i 12 ar ôl 3 blynedd. Crëir y swyddi canlynol yn uniongyrchol o ganlyniad i’r cynllun, nid ydynt yn bodoli ar hyn o bryd. Rhoddir amcangyfrif o gyflogau staff disgwyliedig mewn cromfachau.

I agor y feithrinfa:

- Rheolwr y Feithrinfa - 1 swydd CaALl (£21,700)
- Dirprwy Rheolwr - 1 swydd CaALl (£18,300)
- 3 x cynorthwywyr (NVQ 3) (£7.86/awr - £8.84/awr dibynnu ar oedran)
- Cogydd (£9.00/awr)
- Glanhawr (£8.72/awr)

Staff ychwanegol wrth i nifer y plant gynyddu:

- Uwch swyddog gweithgareddau/marchnata (£9.10/awr)
- Uwch cymhorthydd (NVQ 3) (£9.10/awr)
- 5 x cynorthwywyr (NVQ 2) (£6.45/awr - £8.72/awr dibynnu ar oedran)

Mae cynaladwyedd yr holl swyddi hyn, a’r potensial i gynyddu’r niferoedd o swyddi a grëir, oll yn ddibynnol ar faint o blant a ddaw i’r feithrinfa.

Dylid i'r cynllun busnes ddangos sut byddai'r feithrinfa'n gweithredu os na lwyddir i ennill unrhyw gymorth ariannol tuag at gostau refeniw. Dylid dangos eu bod yn anelu at ddechrau gwneud elw yn ystod yr ail flwyddyn. Dylid defnyddio ffigyrau realistig ac efallai eithaf ceidwadol er gosod rhagdybiaeth real. Mae posibilrwydd i'r elw ddod yn gynt na hyn wrth ddenu mwy o gleientiaid wrth gwrs. Dylid ystyried pob sefyllfa bosib er cynllunio ar ei gyfer mewn modd realistig er sicrhau llwyddiant cynaliadwy'r feithrinfa.

## 5.0 Casgliadau

Mae'r prosiect ymchwil hwn wedi cadarnhau nid oes meithrinfa cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint na Wrecsam ar hyn o bryd.

Mae'r ddau Gyngor Sir yn gefnogol i amcanion y prosiect hwn oherwydd y bwlch amlwg yn narpariaeth gofal plant cyfrwng Cymru a nodwyd yn eu hadroddiadau "Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant" diweddaraf ar gyfer plant dan 2 oed yn y siroedd.

Mae Mudiad Meithrin yn gefnogol i'r prosiect hwn oherwydd byddai meithrinfa newydd cyfrwng Gymraeg yn Sir y Fflint neu Wrecsam yn darparu mwy o gyfleoedd cyflogaeth iaith Gymraeg o ansawdd da yng Ngogledd-ddwyrain Cymru, ac yn ehangu apêl cyrsiau a phrentisiai yn y maes gofal i fwy o fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith yn yr ardal.

Mae Coleg Cambria a Phrifysgol Glyndŵr yn gefnogol o'r prosiect hwn oherwydd eu bod yn awyddus i hyrwyddo unrhyw gynlluniau sy'n hybu proffil yr iaith Gymraeg ac Addysg Bellach/Uwch yn y Gogledd-ddwyrain. Byddai meithrinfa cyfrwng Cymraeg yn helpu staff sy'n siarad Cymraeg i ddychwelyd i'r gweithle ar ôl genedigaeth eu plant ac yn cynnig mwy o ddewis a hygyrchedd gofal plant i fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg. Byddai'n cynnig cyfleoedd gwaith a phrofiad gwaith i fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg ym meysydd gwaith Gofal Plant, ac yn dangos pwysigrwydd cyfleoedd cyflogaeth iaith Gymraeg o ansawdd da yng Ngogledd-ddwyrain Cymru. Byddai modd ehangu apêl y Coleg a'r Brifysgol i fwy o fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith, a chynnig cyfleoedd i gadw myfyrwyr Cymraeg yng Nghymru ar gyfer addysg uwch.

Byddai symud y cynllun ymlaen yn creu swyddi parhaol, cynaliadwy o safon gyda chyfleodd am gynnydd drwy hyfforddiant a phrofiad. Byddai'r Gymraeg yn sgil hanfodol ar gyfer y swyddi hyn hefyd ac felly'n mynd i'r afael â'r broblem o allfudiad bobl ifanc Cymraeg o'u cymunedau er mwyn cael gwaith. Amcangyfrifir bod colled flynyddol o 3,000 o siaradwyr Cymraeg yn genedlaethol yn bennaf oherwydd diffyg cyfleoedd gwaith addas ble cydnabyddir sgiliau siaradwyr Cymraeg. Mae modd ysgogi datblygiad economaidd drwy edrych ar y Gymraeg fel sgil sy'n creu cyfleoedd gwaith a galluogi pobl i gael swyddi a gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

## 6.0 Argymhellion

Er mwyn hyrwyddo nodau ac amcanion yr astudiaeth hon, trefnu cyfarfodydd cyhoeddus fydd y cam hanfodol nesaf (pan fydd amgylchiadau'n caniatáu).

Cadarnhawyd cefnogaeth nifer o sefydliadau allweddol yn yr ardal eisoes, sef:

- Cyngor Sir y Fflint
- CBS Wrecsam
- FLVC
- AVOW
- Coleg Cambria
- Prifysgol Glyndŵr
- Mudiad Meithrin
- NDNA Cymru

Dylid ymgynghori ymhellach â phartneriaid CWLWM, gan y bydd eu cydweithrediad o'r pwys mwyaf wrth ddwyn y prosiect i rym.

Fel y trafodwyd yn adran 3.7, bydd angen nodi a recriwtio partïon â diddordeb i ymuno â phwyllgor neu fwrdd rheoli yn y dyfodol.

Ar ôl ffurfio pwyllgor, bydd angen penderfynu ar y model busnes mwyaf addas, fel y trafodir yn adran 3.6.2.

Yna bydd angen dod o hyd i leoliad addas ar gyfer y feithrinfa, ac yna paratoi cynllun busnes.

Yna gellir nodi ffrydiau cyllido priodol a gwneud ceisiadau fel y bo'n briodol.

## 7.0 Diolchiadau

**Nerys Affleck -** Swyddog Datblygu Gofal Plant yn adran Cymorth y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Cymdeithasol, Cyngor Sir y Fflint.

**Ceri Edwards -** Dirprwy Reolwr Mudiad Meithrin yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.

**Eunice Jones** - Rheolwr Cynllun Hyfforddi Cenedlaethol a Chynllun Ysgolion Cam wrth Gam, Mudiad Meithrin.

**Elen Mai Nefydd** - Llysgennad Iaith Prifysgol Glyndŵr Wrecsam.

**Llinos Roberts** - Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol, y Gymraeg a Rhyngwladol Coleg Cambria.

**Sarah Coates** - Policy and Strategic Partnerships Manager at National Day Nurseries Association (NDNA Cymru)

**Rebecca Roberts** – Rheolwr Cynorthwyol Tîm Gofal Plant, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

**Hayley Morgan** – Business Enterprise Officer, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

**Nigel Davies** – Funding Advice Officer, AVOW

**Heather Hicks** – Funding Outreach Officer, FLVC

## 8.0 Ffynonellau gwybodaeth a rhagor o fanylion

*Ffynhonnell 1*

Deddf Gofal Plant 2006
http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/21/contents

*Ffynhonnell 2*

Cyngor Sir y Fflint Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant (2017 - 2021)
https://www.siryfflint.gov.uk/cy/PDFFiles/Social-Services/Childrens-Social-Services/Childcare-Sufficiency-Assessment-Form-2017-Welsh.pdf

*Ffynhonnell 3*

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2017 - 2022
http://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/cib/wrexham_csa_w.pdf

*Ffynhonnell 4*

Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2018-19: Gofal Plant. 18 Rhagfyr 2019
https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-12/gofal-plant-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2018-i-mawrth-2019-492_1.pdf

*Ffynhonnell 5*

Cyfrifiad 2001 a 2011, Siaradwyr Cymraeg fesul awdurdod lleol a grwpiau oedran ehangach
https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Census-Welsh-Language/welshspeakers-by-la-broaderage-2001and2011census

*Ffynhonnell 6*

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2016-21

http://193.62.42.46/assets/pdfs/welsh_language_standards/welsh_language_promotion_strategy_w.pdf

*Ffynhonnell 7*

Cyngor Sir y Fflint Strategaeth Pum Mlynedd i Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg 2019-2024
https://www.siryfflint.gov.uk/cy/PDFFiles/Welsh-Language/Five-year-Welsh-Language-Promotion-strategy-2019.pdf

*Ffynhonnell 8*

Mudiad Meithrin
https://www.meithrin.cymru/

*Ffynhonnell 9*

Arolygiaeth Gofal Cymru
https://arolygiaethgofal.cymru/

*Ffynhonnell 10*

Mwy na Geiriau, Cynllun Gweithredu 2019–2020
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/mwy-na-geiriau-cynllun-gweithredu-2019-2020.pdf

*Ffynhonnell 11*

Ystadegau cryno ar gyfer rhanbarthau economaidd Cymru: Gogledd Cymru
30 Mai 2019
https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-08/ystadegau-cryno-ar-gyfer-rhanbarthau-economaidd-cymru-gogledd-cymru.pdf

*Ffynhonnell 12*

Symud Gogledd Cymru Ymlaen, Ein Gweledigaeth ar gyfer Gogledd Cymru a Metro Gogledd-ddwyrain Cymru, Mawrth 2017
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-09/metro-gogledd-ddwyrain-cymru-symud-gogledd-cymru-ymlaen.pdf

*Ffynhonnell 13*

Defnydd gorsafoedd rheilffordd, Ebrill 2016 i Mawrth 2017 (Saesneg yn unig)
https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-01/defnydd-gorsafoedd-rheilffordd-blwyddyn-ariannol-2016-i-2017.pdf

*Ffynhonnell 14*

Teithio Cymunedol Sir y Fflint
https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Streetscene/Community-Transport-in-Flintshire.aspx

*Ffynhonnell 15*

Cynllyn Parcio a Theithio Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy
http://www.deeside.com/work-to-begin-next-month-on-new-deeside-park-and-ride-scheme/

*Ffynhonnell 16*

Commuting Patterns in the UK, 2011
https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20160105224014/http://www.ons.gov.uk/ons/rel/census/2011-census/origin-destination-statistics-on-migration--workplace-and-students-for-local-authorities-in-the-united-kingdom/sum---commuting-patterns-in-the-uk--2011.html

*Ffynhonnell 17*

Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy
https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/deeside-enterprise-zone-2018-2021_0.pdf

*Ffynhonnell 18*

Regional economic and labour market profiles, April 2020
https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-04/proffil-rhanbarthol-marchnad-lafur-ac-economaidd-ebrill-2020-647.pdf

*Ffynhonnell 19*

Tourism growth across Wrexham 12/9/19
http://www.wrexham.com/news/tourism-growth-across-wrexham-brought-nearly-123m-into-local-economy-last-year-173884.html

*Ffynhonnell 20*

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)/Llywodraeth Cymru
Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed
https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2018-01/160411regchildcarecy.pdf

*Ffynhonnell 21*

Mathau o elusennau: sut i ddewis strwythur
https://www.gov.uk/guidance/charity-types-how-to-choose-a-structure.cy

*Ffynhonnell 22*

The Office of the Regulator of Community Interest Companies
https://www.gov.uk/government/organisations/office-of-the-regulator-of-community-interest-companies

*Ffynhonnell 23*

Sefydlu elusen: dogfennau llywodraethol enghreifftiol

https://www.gov.uk/government/publications/setting-up-a-charity-model-governing-documents.cy

*Ffynhonnell 24*

Gwybodaeth am recriwtio ymddiriedolwyr
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/802780/CC30_W.pdf

*Ffynhonnell 25*

Gwybodaeth am recriwtio ymddiriedolwyr
https://wcva.cymru/cy/llywodraethu-ac-arweinyddiaeth/

*Ffynhonnell 26*

Trosglwyddo Asedau Cymunedol
https://llyw.cymru/trosglwyddo-asedau-cymunedol-canllawiau-i-ymgeiswyr?_ga=2.239086661.794027595.1598274047-1602741366.1581083728

*Ffynhonnell 27*

Trosglwyddo Asedau Cymunedol – Cyngor Sir y Fflint
https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Community-Asset-Transfer-(CAT)/Community-Asset-Transfer-(CAT).aspx

*Ffynhonnell 28*

Busnes Cymru
https://businesswales.gov.wales/cy

*Ffynhonnell 29*

PACEY
https://www.pacey.org.uk/

## Atodiad 1. Cyngor Sir y Fflint

## 1. E-bost i Nerys Affleck - Swyddog Datblygu Gofal Plant, Cymorth y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Cymdeithasol, Cyngor Sir y Fflint - Cadarnhau sgwrs ffôn ar 8 Mehefin 2020

Annwyl Nerys,

Diolch i chi am y sgwrs ffôn ar 8 Mehefin 2020 ynghylch prosiect ymchwil Menter Iaith Fflint a Wrecsam i mewn i ddarpariaeth gofal plant a'r posibilrwydd o agor meithrinfa newydd cyfrwng Cymraeg i wasanaethu siroedd Wrecsam a'r Fflint.

Roedd yn bleser trafod fy ymchwil gyda chi, a gweld eich egni a'ch brwdfrydedd dros y Gymraeg fel Swyddog Datblygu Gofal Plant yn adran Cymorth y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Cymdeithasol, Cyngor Sir y Fflint.

Rwy'n cadarnhau ein trafodaeth fel a ganlyn:

1. Yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2017 ydy'r adroddiad diweddaraf. Yn yr adroddiadau cynnydd blynyddol ar gyfer 2018 a 2019 doedd dim newid yn sgil darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae adroddiad cynnydd blynyddol 2020 wedi ei hoedi oherwydd amgylchiadau Covid-19.

2. Does dim meithrinfeydd dydd cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint. Nid yw'r Cyngor Sir yn cyhoeddi ystadegau ieithyddol am fod darpariaeth cyfrwng Cymraeg ddim yn bodoli. Does dim meithrinfeydd yn y sir gyda staff a sgiliau Cymraeg digonol i gynnig y "Cynnig Gweithredol" ar hyn o bryd.

3. Mae'r Cyngor Sir yn gefnogol o'r prosiect ymchwil hon, oherwydd y blwch amlwg mewn darpariaeth gofal plant o dan 2 flwydd oed yn y sir.

4. Pan fydd amgylchiadau'n caniatáu, bydd y Cyngor Sir yn awyddus i gydweithredu â Menter Iaith neu unrhyw fenter newydd yn y dyfodol i drefnu cyfarfod agored i staff y cyngor sir a'r cyhoedd ddysgu mwy am y prosiect hwn. Gobeithiwyd nodi pryd hynny unrhyw unigolion a allai fod â diddordeb mewn ymuno ag unrhyw bwyllgor neu fwrdd rheoli ar y fenter.

5. Mae posibiliad o grant bach cychwyn busnes gan Gyngor Sir y Fflint, mae grant cynaliadwyedd hwn wedi ei sefydlu i gefnogi darparwyr gofal plant yn Sir y Fflint. Yn y dyfodol byddai modd i'r Cyngor Sir / Gwasanaeth Gwybodaeth Deuluol helpu gyda gwybodaeth ar systemau ar gyfer rhedeg y fenter.

6. Mae'r Cyngor yn awyddus i hyrwyddo unrhyw gynlluniau sy'n hybu proffil a defnydd o'r iaith Gymraeg yn Sir y Fflint. Byddai meithrinfa Gymraeg yn gwneud hyn mewn sawl ffordd;
i) Cynorthwyo staff sy'n siarad Cymraeg i ddychwelyd i'r gweithle ar ôl genedigaeth eu plant
ii) Darparu mwy o ddewis a hygyrchedd gofal plant i staff sy'n siarad Cymraeg
iii) Darparu gofal plant cyfrwng Cymraeg i'r gymuned ehangach yn Sir y Fflint
iv) Cynnig mwy o gyfleoedd gwaith i drigolion sy'n siarad Cymraeg ym meysydd gwaith Gofal Plant

v) Darparu mwy o gyfleoedd cyflogaeth iaith Gymraeg o ansawdd da yng Ngogledd-ddwyrain Cymru

Gobeithio bod hyn yn crynhoi ein trafodaeth yn ddigonol. Unwaith eto, a gaf i ddal ar y cyfle hwn i ddiolch i chi unwaith eto am eich cymorth.

Yn gywir,

Bronwen

**Bronwen Wright**
Swyddog Prosiect Gofal Plant / Childcare Project Officer
Menter Iaith Fflint a Wrecsam
01352 744040
bronwen@menterfflintwrecsam.cymru

Cofrestrwch yma i dderbyn ein cylchlythyr / Sign-up to our e-newsletter here

Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg
Please write to me in Welsh or English

Corlan,
Uned 3/*Unit 3*
Parc Busnes Yr Wyddgrug/*Mold Business Park*
Yr Wyddgrug/*Mold*
CH7 1XP
01352 744040
www.menterfflintwrecsam.cymru

## 2. Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant - Adroddiad Cynnydd 2018

**Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant - Adroddiad Cynnydd 2018**

Caiff lefel y cyflenwad gofal plant yn Sir y Fflint ar hyn o bryd ei ddangos yn y tabl isod. Mae'r wybodaeth wedi'i seilio ar Adroddiad Wythnosol FIS (26.03.18) ac Adroddiad VAS (18.02.18) Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

| Math o Ofal Plant | Cofrestredig | Wedi'i atal | Heb gofrestru / Wedi'i gymeradwyp |
|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 112 | 19 | - |
| Gofal Dydd Amser Llawn | 34 | - | - |
| Gofal Dydd Sesiynol | 34 | 2 | - |
| Crèches | 4 | - | - |
| Gofal y Tu Allan i'r Ysgol | 47 | - | - |
| Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored | 2 | - | - |
| Nani | - | - | 3 |
| Cyfanswm | 233 | 21 | |

Mae'r Adroddiad Cynnydd hwn yn dilyn y Cynllun Gweithredu sy'n manylu ar y camau gweithredu, y blaenoriaethau a'r cerrig milltir er mwyn cynnal cryfderau a mynd i'r afael â diffygion, fel a nodwyd yn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2017 – 2021.

**Asesiad o Alw**

| Cryfderau | Gwendidau | I’w weithredu gan | Blaenoriaethau | Cerrig Milltir |
|---|---|---|---|---|
| • Mae gofal plant mewn lleoliad da ac yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o rieni.<br>• Mae gofal plant yn ddibynadwy yn gyffredinol.<br>• Mae’r rhan fwyaf o ymatebwyr yn credu bod gofal plant o ansawdd da. | | CDO, FISF, AWARE | • Ar gyfer yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant nesaf, gwella hyrwyddo’r arolwg rhieni gan mai cyfran fach iawn o rieni Sir y Fflint wnaeth lenwi’r arolwg ar gyfer 2016.<br>• Sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael argymhellion ar gyfer gwelliannau i’r arolwg rhieni. | • CDO i ehangu’r rhestr ddosbarthu ar gyfer yr arolwg rhieni yn 2021.<br><br>Grŵp AWARE wedi bwydo argymhellion ynglŷn â gwelliannau i’r arolwg rhieni yn ôl i Lywodraeth Cymru (2017). |

**Asesiad o Gyflenwad**

| Cryfderau | Gwendidau | I'w weithredu gan | Blaenoriaethau | Cerrig Milltir |
|---|---|---|---|---|
| • Mae pob ardal o Sir y Fflint yn cynnal math o ddarpariaeth gofal plant.<br>• Gwnaeth 77.1% o'r holl waith papur SASS1 yn Sir y Fflint gael ei ddychwelyd a oedd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. | • Amseru'r arolwg SASS1 ar ddiwedd y tymor ac felly ar ddechrau gwyliau'r ysgol. | CDO, FISF, Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru, Mudiad Meithrin, NDNA, PACEY Cymru | • Er mwyn cael data mwy dilys, mae angen i ni gefnogi cwblhau SASS Rhan 1 gan fod 22.9% o ddarparwyr gofal plant Sir y Fflint wedi methu â chwblhau arolwg AGGCC SASS Rhan 1 ar-lein.<br>• Darparu cefnogaeth dechnegol lle bo'n bosibl i gefnogi'r lleoliad wrth iddynt gwblhau arolwg AGGCC SASS Rhan 1 a 2 ar-lein. | • Cymorth ar gael gan Gyrff Ymbarél i gwblhau SASS1 a 2 -<br><br>Mudiad Meithrin wedi trefnu gweithdai i fynd drwy SASS1 a 2. Rhoddwyd cymorth ychwanegol hefyd gan y Swyddog Cymorth i unrhyw grwpiau oedd yn cael anawsterau.<br>Gall pob cylch Meithrin wneud cais am grant drwy Mudiad Meithrin i brynu cyfarpar TG.<br><br>Cynhaliodd PPA Cymru sesiwn gwybodaeth gyda gliniaduron ar gael i'r aelodau i'w defnyddio ar gyfer SASS1, bu Gweithwyr Datblygu yn helpu lleoliadau yn ystod eu hymweliadau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | arferol, a gwahoddwyd pob aelod i ddod i swyddfa PPA Cymru ar gyfer cymorth 1:1 neu grŵp gan ddefnyddio'u technoleg nhw os oes angen.<br><br>Cynigiodd PACEY Cymru gymorth dros y ffôn neu'r ebost i bob gwarchodwr plant cofrestredig yng Nghymru ar gwblhau SASS. Yn Sir y Fflint cynhaliwyd gweithdai ar y Fframwaith Arolygu ym misoedd Mai a Mehefin i baratoi ar gyfer SASS rhan 2 – daeth 23 iddynt i gyd gyda 100% yn dweud bod y cwrs yn dda neu'n rhagorol. Roedd yr adborth yn cynnwys sylwadau ar sut bydd hyn yn help i gwblhau SASS, e.e. *"[Roedd] sut bydda i'n dangos tystiolaeth fy mod yn gwneud gwaith da ac yn gallu llenwi SASS2 [yn ddefnyddiol iawn]"*.<br><br>Rhannodd NDNA Cymru wybodaeth am SASS 1 a 2 gydag aelodau a darparodd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gymorth dros y ffôn ar gwblhau'r SASS.<br><br>Mae'r CDO wedi cefnogi darparwyr Clybiau y Tu Allan i Oriau Ysgol yn ystod ymweliadau arferol i gwblhau SASS1 a 2.<br><br>• Mae FISF wedi prynu chwe gliniadur sydd ar gael i'w benthyca am ddim i leoliadau gofal plant i'w helpu i gwblhau SASS 1 a 2<br><br>Cafodd dau weithdy Hyder Digidol ym mis Mai 2017 eu hyrwyddo i'r holl leoliadau gofal plant. Dim ond un gwarchodwr plant ddaeth i'r gweithdy cyntaf a chafodd yr ail weithdy ei ganslo gan nad oedd unrhyw leoedd wedi'u harchebu. |

**Dadansoddiad o gyflenwad a galw darpariaeth gofal plant cyffredinol**

| Categori | Cryfderau | Gwendidau | I'w weithredu gan | Blaenoriaethau | Cerrig Milltir |
|---|---|---|---|---|---|
| Math o ofal plant sydd ar gael, e.e. gofal dydd llawn, gofal sesiynol, gofal ar ôl ysgol, gwarchodwr plant. | • Darperir ar gyfer yr amrywiaeth lawn o wasanaethau ar draws y rhan fwyaf o Ardaloedd. | • Nifer gyfyngedig o warchodwyr plant mewn lleoliadau gwledig.<br>• Dim ond un cynllun chwarae mynediad agored sydd wedi cofrestru gydag AGGCC.<br>• Tanddefnyddio cyfleusterau crèche cofrestredig.<br>• Nifer gyfyngedig o Famaethod ar y Cynllun Cymeradwyaeth | PACEY Cymru, Tîm Datblygu Chwarae, FISF | • *Recriwtio mwy o warchodwyr plant, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.*<br>• *Cefnogi cofrestru cynlluniau chwarae mynediad agored.*<br>• *Codi ymwybyddiaeth, ymysg asiantaethau* | • Manylion gwaith hyrwyddo PACEY ac FISF.<br><br>Yn ystod y cyfnod Hydref 2017 – Chwefror 2018 darparwyd cyfanswm o 8 x bloc 3 awr o ymgysylltu hyrwyddol gan PACEY Cymru i godi ymwybyddiaeth o ddod yn warchodwr plant cofrestredig mewn ardaloedd targed yn yr Wyddgrug a Threffynnon. Roedd yn cynnwys presenoldeb mewn 9 digwyddiad neu grŵp, ac ymweld ag amryw o ganolfannau a chyrff ychwanegol yn ystod yr oriau hyn i drafod gwarchod plant yn |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Gwirfoddol. | | *a darparwyr hyfforddiant, bod cyfleusterau crèche ar gael yn Sir y Fflint.*<br>• *Cynnig mwy o wybodaeth mewn perthynas â mamaethod ar y cynllun cymeradwyaeth gwirfoddol drwy Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint.* | lleol.<br><br>Mae'r CDO wedi bod i 2 sesiwn P & T, sesiwn Amser Odli a Digwyddiad Rhieni DWP yn y Fflint rhwng mis Rhagfyr 2017 a mis Mawrth 2018 i godi ymwybyddiaeth o warchod plant fel opsiwn gyrfa.<br><br>• Adroddiad Swyddog Datblygu Chwarae ar nifer y lleoliadau<br><br>Daeth 4,107 o blant a phobl ifanc i Gynlluniau Chwarae Haf yn ystod gwyliau'r haf 2017 gyda 37 o'r rhain yn blant a phobl ifanc oedd yn cael cymorth drwy'r system Cyfeillio. Bydd Sir y Fflint yn cynnal yr un nifer o gynlluniau chwarae eleni â'r llynedd. Nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i gofrestru rhagor gydag AGC ond mae'n gobeithio gwneud hynny yn y dyfodol agos.<br><br>• Hyrwyddo Gwasanaethau Crèche Sir y Fflint yn ystod 2017 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | – 2018<br><br>Mae Gwasanaethau Crèche Sir y Fflint wedi darparu'r crèches canlynol rhwng Ebrill 1af 2017 a Mawrth 31ain 2018<br>Crèches unigol = 15<br>Crèches 4 wythnos = 5<br>Crèches 5 wythnos = 6<br>Crèches 6 wythnos = 1<br>Crèches 7 wythnos = 4<br>Crèches 8 wythnos = 7<br>Crèches 11 wythnos = 6<br>Crèches 12 wythnos = 1<br>Crèches 14 wythnos = 1<br><br>Yn ystod y chwe mis diwethaf mae staff Gwasanaethau Crèche Sir y Fflint wedi danfon taflenni hyrwyddo i ysgolion, gwestai, meddygfeydd ac wedi'u rhoi ar wefan FISF.<br><br>• Sut mae FISF yn hyrwyddo Nanis.<br><br>Ar hyn o bryd nid oes manylion Nanis ar wefan FISF ond mae cynlluniau i'w cynnwys ar wefan newydd DEWIS. Caiff rhieni sy'n holi am Nanis eu cyfeirio at y rhai sydd ar Gynllun |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Cymeradwyo Gwirfoddol AGC ar hyn o bryd. |
| Gofal plant yn darparu ar gyfer plant o oedran penodol, e.e. o enedigaeth, o 2 oed neu dros 8 oed. | • Gwarchodwyr Plant a darparwyr Gofal Dydd Llawn yn darparu ar gyfer plant rhwng 0 a 12 oed.<br>• Cyflenwad cymharol gyson a digonol o ofal plant i blant sy'n mynychu darpariaeth Gofal Dydd Sesiynol. | • Dim darpariaeth ar ôl ysgol ar gyfer plant 12 – 17 oed.<br>• Mae nifer fach o blant dan 5 oed yn cael darpariaeth clybiau gwyliau. | MM, PACEY Cymru, NDNA, Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru, CPCKC, CDO | • *Annog yr holl ddarparwyr gofal plant i ehangu'r ystod oedran maent yn darparu ar ei chyfer yn unol â diwygiadau diweddar i reoliadau cofrestru o rai dan wyth i rai dan ddeuddeg.*<br>• *Pob darparwr gofal plant perthnasol i gael ei annog i ehangu'r ystod oedran y mae'n darparu ar ei chyfer i ateb* | • Cyrff Ymbarél yn darparu enghreifftiau o leoliadau sydd wedi ehangu'u hystod oedran.<br><br>Ers i Sir y Fflint gychwyn peilot y Cynnig Gofal Plant, mae 12 o'n 30 o gynlluniau chwarae gwyliau yn darparu gofal i blant o dair oed erbyn hyn.<br><br>O'r 24 Clwb Ar Ôl yr Ysgol sy'n gofrestredig i ofalu am blant 3 oed, mae 8 ohonynt wedi ehangu'u cofrestriad i'r ystod oedran is hon yn ddiweddar.<br><br>Bellach mae Woodies Wraparound (Saltney) yn darparu clwb cyn ac ar ôl yr ysgol ac felly gall ddarparu ar gyfer plant oed ysgol hŷn (8-11).<br><br>Mae meithrinfeydd dydd yn Sir y Fflint sy'n aelodau o NDNA yn darparu ar gyfer plant o'u genedigaeth. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | *gofynion y Cynnig Gofal Plant* | Mae gwarchodwyr plant sydd am gynyddu'u nifer o 6 o blant dan 8 oed i 10 o dan 12 oed wedi wynebu costau ar ôl ymgynghori ag adran gynllunio CSyFf. Ac mae hyn wedi atal rhai rhag ehangu'u hystod oedran |
| Gofal plant fforddiadwy. | • Nifer fach iawn o leoliadau yn Sir y Fflint sydd heb eu cofrestru felly mae rhieni'n gallu cael credyd treth a defnyddio talebion gofal plant yn y rhan fwyaf o leoliadau gofal plant. | • Mae rhieni'n pwysleisio mai fforddiadwyedd yw'r ffactor pwysicaf wrth iddynt ystyried darpariaeth gofal plant.<br>• Mae'r rhai sy'n manteisio ar elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith a Chynlluniau Cymorth Cyflogwyr yn isel iawn yn Sir y Fflint.<br>• Nid oedd tua 48% | Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru, CPCKC, CDO, Tîm Datblygu Chwarae, FISF | • *Hyrwyddo mwy ar Gredydau Treth Gwaith neu Gredydau Cynhwysol a Chynlluniau Cymorth Cyflogwyr sydd ar gael (gan gynnwys y cynllun Gofal Plant Di-dreth cenedlaethol, newydd).*<br>• *Dylid annog* | • Gwnaed gwaith gan y Cyrff Ymbarél i hyrwyddo credydau treth / credyd cynhwysol, cynlluniau a gefnogir gan gyflogwyr a gofal plant di-dreth.<br><br>Mae Sir y Fflint yn Weithredwyr Cynnar ar y cynnig gofal plant wedi'i ariannu i rai 3-4 oed – hyd at 30 awr o ofal plant ac addysg cyfunedig. Mae nifer dda wedi manteisio ac mae mwy o bobl wedi dod i wybod am y wefan 'Childcare Choices'.<br><br>Mae PACEY wedi bod yn hyrwyddo a thrafod y cynnig gofal plant drwy newyddion, e- |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg rhieni / gofalwyr yn gwybod ym mhle y gallent gael gwybodaeth am gymorth ariannol â gofal plant. | | *a chefnogi darparwyr pob math o ofal plant i gofrestru ag AGGCC.* | newyddion a chylchgrawn PACEY, fe'i trafodwyd hefyd yng nghyfarfodydd lleol PACEY. Hefyd, drwy ateb ymholiadau unigol a chyfeirio at y tîm Cynnig Gofal Plant.<br><br>Mae Mudiad Meithrin yn genedlaethol yn hyrwyddo credydau treth / credyd cynhwysol, cynlluniau a gefnogir gan gyflogwyr a gofal plant di-dreth drwy eu tudalen facebook a twitter. Mae lleoliadau'n cael diweddariadau rheolaidd hefyd mewn cylchlythyr bob tymor a thrwy'r swyddog cymorth lleol.<br><br>Mae PPA Cymru a CWLWM yn hysbysebu a hyrwyddo credydau treth, cynlluniau a gefnogir gan gyflogwyr a gofal plant di-dreth drwy eu cyfryngau cymdeithasol a'u gwefannau.<br><br>Cyhoeddwyd llyfryn newydd 'Dewisiadau Gofal Plant' gan Lywodraeth Cymru yn 2017 ac mae ar gael oddi wrth FISF. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Mae'r CDO wedi cynnwys erthyglau'n rheolaidd yng nghylchlythyr FISF ynglŷn â chredydau Treth Gwaith, Cynlluniau a Gefnogir gan Gyflogwyr a'r cynllun gofal plant di-dreth newydd.<br><br>Cafodd taflen 'Help with childcare costs' FISF ei diweddaru ym mis Awst a mis Hydref 2017.<br><br>Bu pum aelod o staff FISF ar hyfforddiant Credyd Cynhwysol yn Wrecsam ar 15fed Mawrth 2018.<br><br>Mae NDNA Cymru wedi rhoi cyhoeddusrwydd i'r wefan dewisiadau gofal plant ac wedi rhannu gwybodaeth am ofal plant di-dreth drwy e-fwletinau ac ar wefan NDNA.<br>Rhannodd CWLWM wybodaeth am ofal plant di-dreth: http://www.cwlwm.org.uk/tax-free-childcare-opens-to-all-eligible-families/<br><br>• Rhoi cymorth i leoliadau |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | sydd heb gofrestru i gofrestru gydag AGC.<br><br>Mae'r CDO a PPA Cymru wedi cefnogi Ysgol y Llan, Ysgol y Santes Fair, Ysgol y Fflint ac Abermorddu wrth iddynt symud tuag at gofrestru eu Clybiau Ar Ôl yr Ysgol sydd heb gofrestru ar hyn o bryd. |
| Amser mae gofal plant ar gael, gan gynnwys yr angen am ofal plant hyblyg sy'n darparu ar gyfer patrymau afreolaidd o ddefnydd ar draws y dydd, yr wythnos a'r flwyddyn | | • Mae llai na 50% o ddarparwyr gofal dydd llawn a gwarchodwyr plant yn darparu sesiynau gofal hanner diwrnod.<br>• Mae darparwyr gofal sesiynol yn tueddu i ddarparu sesiynau bore yn unig neu bnawn yn unig ac ychydig sy'n darparu gofal cofleidiol neu glwb cinio.<br>• Ychydig iawn o ddarparwyr sy'n | CDO, Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru, NDNA, PACEY Cymru, Mudiad Meithrin | • *Er mwyn bodloni anghenion gofal plant y rhai sy'n gweithio oriau annodweddiadol, mae angen mwy o ofal plant cyn 8am, ar ôl 6pm, dros nos ac ar benwythnosau.*<br>• *Dylid annog darparwyr gofal dydd* | • Cyrff Ymbarél yn darparu enghreifftiau o leoliadau sy'n ehangu'u horiau i ddiwallu anghenion teuluoedd sy'n gweithio<br><br>Mae gwarchodwyr plant Squib and Squidge wedi ymestyn eu horiau dyddiol ac maent erbyn hyn yn cynnwys gofal ar Sadyrnau a thros nos.<br><br>Mae Emma Williams yn warchodwr plant newydd sydd wedi cofrestru i ddarparu lleoedd gofal pLant ar y penwythnos ac mae ei sesiynau ar ddyddiau'r wythnos yn ymestyn cyn hwyred â 9.00pm. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | cynnig gofal plant cyn 8.00am neu ar ôl 6.00pm.<br>• Does prin ddim gofal plant ar benwythnos neu ofal dros nos. | | *sesiynol a darparwyr gofal y tu allan i'r ysgol i estyn eu horiau i fodloni anghenion teuluoedd sy'n gweithio.*<br>• *Dylid annog pob darparwr gofal plant i gydweithio i sicrhau bod rhieni sy'n gweithio yn gallu manteisio ar ddarpariaeth addas er mwyn cyflawni'r Cynnig Gofal Plant* | Trafodir oriau hyblyg yn ystod y broses CYPOP5 a chyn-cofrestru i annog ystyried hyn o'r cychwyn cyntaf.<br><br>Mae Woodland Imps (Mynydd Isa), Grŵp Chwarae Oaktree (Bwcle), Grŵp Chwarae Sandycroft, Grŵp Chwarae Kelsterton (Cei Connah) a Grŵp Chwarae (Newydd) Glan Aber (Bagillt) i gyd wedi ymestyn eu horiau i ddiwallu anghenion rheini sy'n gweithio.<br><br>Mae PPA Cymru hefyd yn gweithio gyda darparwyr newydd i sefydlu darpariaeth gyda'r nod o gefnogi'r Cynnig Gofal Plant yn Sir y Fflint e.e. Caerwys, Abermorddu a Chwitffordd.<br><br>Mae'r CDO wedi cefnogi nifer o Glybiau y Tu Allan i Oriau Ysgol sydd wedi dweud yn ddiweddar eu bod wedi ehangu'u horiau – yn cynnwys R.A.S.C.A.L.S. (Penyffordd, Caer), Cool Kidz Club (Brynffordd), Clwb LAFS (Licswm) a St. Winefride's |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | (Treffynnon).<br><br>Mae Teigrod Terrig (Treuddyn) wedi ehangu cofrestriad eu clwb nhw i gynnwys clwb gwyliau dwyieithog |
| Lleoliad gofal plant. | • Mae gwasgariad daearyddol darpariaeth gofal plant yn Sir y Fflint yn dda ac mae'n unol â phoblogaeth, cysylltiadau cludiant a phriodoleddau pob ardal. | • Mae diffyg gofal yn ystod gwyliau mewn nifer o leoliadau, ond yn yr Wyddgrug ac yn Nhreffynnon yn bennaf. | CDO, CPCKC | • *Datblygu darpariaeth gofal yn ystod gwyliau yn yr Wyddgrug a Threffynnon.* | Mae clwb gwyliau newydd wedi cofrestru yn Nhreuddyn (darpariaeth ddwyieithog) a chaiff ei farchnata yng nghylchlythyr Ysgol Glanrafon. Mae'r CDO wedi cynnal trafodaethau gyda'r Urdd ac Ysgol Glanrafon ynglŷn â darparu clwb gwyliau cyfrwng Cymraeg yn yr Wyddgrug. |
| Darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg. | • Mae gan pob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint glwb ar ôl ysgol. | • 30% yn unig o rieni a gwblhaodd yr arolwg oedd yn credu bod digon o ofal plant cyfrwng Cymraeg ar gael yn y Sir.<br>• Nid oes gan Sir y Fflint unrhyw warchodwyr plant, clybiau gwyliau, | Mudiad Meithrin, NDNA, Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru, PACEY Cymru, CDO, CPCKC | • *Mae angen mwy o ofal plant cyfrwng Cymraeg o bob math ym mhob ardal yn Sir y Fflint, yn enwedig y rhai sy'n darparu gofal dydd llawn yn* | • Cyrff Ymbarél yn nodi gwaith a wnaed i annog datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Hefyd, darparu manylion cyrsiau / adnoddau hyfforddi sy'n annog lleoliadau i fod yn ddwyieithog.<br><br>Mae'r CDO wedi cynnal |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | creches, mamaethod na meithrinfeydd gofal dydd cofrestredig sy'n darparu eu gwasanaethau yn Gymraeg. | | *ystod y tymor a gwyliau'r ysgol.*<br>• *Dylid annog pob lleoliad gofal plant i ddarparu rhai elfennau dwyieithog, o leiaf.* | trafodaethau gyda'r Urdd a Llywodraethwyr Ysgol Glanrafon gyda golwg ar agor clwb gwyliau cyfrwng Cymraeg yn yr Wyddgrug.<br><br>Mae rhestr hyfforddiant ychwanegol FISF wedi cynnwys dau weithdy 'Fun with Welsh' am ddim.<br><br>Mae Mudiad Meithrin yn rhan o strategaeth Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a bydd yn agor lleoliadau newydd ar draws Cymru. Mae Sir y Fflint wedi'i chlustnodi ar gyfer lleoliad newydd i'w agor o fewn y 12-18 mis nesaf.<br><br>Mae PPA Cymru wedi cyrraedd eI holl dargedau EDI gan ddarparu cysylltiadau ar gyfer y prosiect o blith aelod leoliadau, mae cyrsiau Un Dau Tri wedi cael eu hyrwyddo, mae cydlynydd i'r Gymraeg wedi bod yn ymweld â'r rhai sy'n cymryd rhan ar gyrsiau Un Dau Tri – mae'n darparu sesiwn flasu Gymraeg a hefyd yn |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | darparu adnoddau Cymraeg i'w defnyddio gan leoliadau. Mae 10 gweithgaredd Cymraeg ar gael drwy becyn ar wefan PPA Cymru. https://www.pacey.org.uk/news-and-views/news/archive/2017-news/september-2017/welsh-language-tool/<br><br>Mae gan PACEY Cymru amryw o adnoddau Cymraeg ar gael i gynorthwyo aelodau, yn cynnwys cymorth i gyflwyno rhagor o Gymraeg i'r rhai sy'n llai hyderus. Caiff adnoddau newydd eu hychwanegu i'r maes hwn bob mis.<br><br>Cafodd gweithdai Fun with Welsh eu darparu ar restr FISF o hyfforddiant ychwanegol wedi'i ariannu, Chwefror 2018. Dywedodd 100% fod y cwrs yn dda/rhagorol a dywedodd 100% fod y tiwtor yn rhagorol. Roedd y sylwadau'n cynnwys "wedi mwynhau'n fawr, mae'r adnoddau'n help mawr iawn", "gwych, wedi mwynhau'r sesiwn heno yn fawr". |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Gwaith datblygu gwarchodwyr plant – mae wedi cynnwys targedu sesiynau Cymraeg Ti a Fi a cheisio recriwtio siaradwyr Cymraeg i ystyried gwarchod plant.<br><br>Mae 4 meithrinfa ddydd yn Sir y Fflint wedi mynychu hyfforddiant Cymraeg Un Dau Tri - hwyl a sbri, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, ac wedi cael cymorth gan weithiwr cymorth y Gymraeg NDNA yn y flwyddyn ddiwethaf |
| *Darpariaeth gofal plant ar gyfer categorïau ieithoedd gwahanol.* | • Nid oes darpariaeth gofal plant ar gael yn Sir y Fflint mewn ieithoedd ar wahân i Gymraeg neu Saesneg, ac ychydig iawn o alw sydd amdani yn ôl data FISF. | • Un rhiant yn unig a wnaeth ymateb i'r arolwg rhieni ag iaith arall. | | • *Dylid cefnogi lleoliadau er mwyn annog teuluoedd ag ieithoedd eraill i ddefnyddio lleoliadau gofal plant sefydledig.*<br>• *Gwella cefnogaeth i rieni sy'n cwblhau'r arolwg rhieni* | • Dywed tîm y Cynnig Gofal Plant fod teuluoedd ag ieithoedd eraill wedi manteisio ar y cynnig gofal plant yn cynnwys Rwsiaid a Phwyliaid. Cafodd y tîm FISF nifer o Geisiadau Grant am Leoedd a Gynorthwyir gan deuluoedd ag ieithoedd eraill. Bydd staff FISF yn rhoi cymorth i bob rhiant gyda'r arolwg rhieni ar-lein neu unrhyw ffurflen |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | *ar-lein.* | FISF cais am grant waeth beth fo'i ethnigrwydd, ei genedl neu'i iaith.<br><br>Hyrwyddodd y CDO arolwg Rhieni'r CSA drwy nifer o rwydweithiau cymorth misol gyda chymorth Fiona Mocko (CSyFf) |

**Materion sy'n wynebu categorïau penodol o rieni o ran argaeledd darpariaeth gofal plant**

| Categori | Cryfderau | Gwendidau | I'w weithredu gan | Blaenoriaethau | Cerrig Milltir |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhieni sy'n gweithio. | • Mae fforddiadwyedd gofal plant yn bryder allweddol i rieni sy'n gweithio a'r rhai sy'n ystyried dychwelyd i'r | • Mae nifer fach o leoliadau gofal plant heb eu cofrestru gydag AGGCC felly nid yw rhieni yn gallu defnyddio cynlluniau talebau gofal | Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru, Mudiad Meithrin, NDNA, PACEY Cymru | • *Mae angen hyfforddiant digonol a chefnogaeth ar leoliadau heb eu cofrestru i'w galluogi i gofrestru gydag AGGCC.*<br>• *Er mwyn bodloni anghenion gofal plant y rhai sy'n* | • CDO a chyrff ymbarél yn disgrifio'r hyfforddiant a'r cymorth sydd ar gael i'r rhai sy'n dymuno cofrestru gydag AGC<br><br>Cysylltir â PPA Cymru sydd wedyn yn anfon |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | gwaith neu addysg. Bydd Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru ar gyfer plant 3 a 4 oed yn cynorthwyo llawer o'r teuluoedd sy'n gweithio. | plant (bydd cynllun Gofal Plant Di Dreth cenedlaethol yn ei ddisodli'n fuan).<br>• Diffyg hyblygrwydd a fforddiadwyedd gofal plant yw'r prif rwystrau sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio, yn enwedig rhai sy'n gweithio oriau annodweddiadol h.y. gweithwyr sifftiau a'r rhai sy'n gweithio penwythnosau neu dros nos.<br>• Ni all rhieni sy'n gweithio sydd angen darpariaeth | | *gweithio oriau annodweddiadol, mae angen mwy o ofal plant cyn 8am, ar ôl 6pm, dros nos ac ar benwythnosau.*<br>• *Mae angen mwy o ofal plant cyfrwng Cymraeg o bob math ym mhob ardal yn Sir y Fflint, yn enwedig y rhai sy'n darparu gofal dydd llawn yn ystod y tymor a gwyliau'r ysgol.* | y Gweithiwr Datblygu i ymweld ac i helpu gyda'r ffurflenni cofrestru.<br><br>Mae gan Mudiad Meithrin Swyddog Cymorth pwrpasol i Sir y Fflint a fydd yn gweithio gyda chymunedau i gofrestru gydag AGC. Yn arbennig, mae gwaith yn cael ei wneud i gofrestru pob lleoliad fel CIO ac i ailgofrestru gydag AGC gydag Unigolyn Cyfrifol yn hytrach na pherson cofrestredig.<br><br>Caiff PACEY Cymru ei ariannu gan yr awdurdod lleol i gyflenwi ystod o wasanaethau cyn-cofrestru, yn cynnwys sesiynau briffio / cyrsiau CYPOP5 / gweithdai cymorth cyn-cofrestru, cymorth dros y ffôn/ebost, a sesiynau cymhorthfa gynghori unigol, ynghyd â rhannu gwybodaeth am grantiau cychwyn. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | gofal dydd llawn gael mynediad i unrhyw ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. | | | Mae NDNA yn darparu cymorth ac arweiniad<br>i'r rhai sy'n gwneud ymholiadau ynglŷn â<br>sefydlu meithrinfa ddydd.<br><br>Mae NDNA yn cynnig nifer o ffeithlenni sy'n<br>darparu cyngor ac arweiniad i rieni – e.e.<br>dewis eich meithrinfa ddydd, arweiniad i<br>ddwyieithrwydd.<br><br>http://www.ndna.org.uk/NDNA/Stakeholders/Parents_resources/Parents_Factsheets.aspx<br><br>• Sut mae'r CDO a'r cyrff ymbarél yn mynd ati i annog lleoliadau i gynyddu'u horiau / bod yn fwy hyblyg<br><br>Mae'r CDO yn gweithio gyda'r Urdd ac Ysgol<br>Glanrafon ynghylch clwb gwyliau cyfrwng<br>Cymraeg posibl yn yr Wyddgrug.<br><br>Mae'r cyrff ymbarél i gyd yn |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | mynychu<br>cyfarfodydd y Grŵp Cynghori ar y Cynnig<br>Gofal Plant ac yn ymwybodol o bwysigrwydd<br>hyrwyddo darpariaeth hyblyg i rieni sy'n<br>gweithio ar draws y Sir.<br><br>• Cyrff ymbarél yn disgrifio sut y gallant<br>gefnogi'r rhai sydd â diddordeb mewn<br>darparu gwasanaeth gofal plant<br>cyfrwng Cymraeg<br><br>Caiff pob lleoliad sydd wedi cofrestru gyda<br>Mudiad Meithrin gefnogaeth gan Swyddog<br>Cymorth sy'n cynnig cymorth ac arweiniad<br>ar bob agwedd o redeg y Cylch Meithrin.<br>Rhoddir pwyslais arbennig ar ddatblygu<br>iaith drwy gynllun iaith Croesi'r Bont sy'n<br>tracio cynnydd pob plentyn yn y Gymraeg<br>ers iddo gychwyn yn y Cylch. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Mae PPA Cymru yn annog defnyddio'r<br>Gymraeg ac yn darparu rhai adnoddau<br>defnyddiol.<br><br>Mae PACEY Cymru yn cynnig adnoddau a<br>hyfforddiant dwyieithog. Mae'r gwaith<br>datblygu gwarchodwyr plant wedi cynnwys<br>targedu gweithgareddau Cymraeg fel Ti a Fi;<br>mae hefyd yn gweithio gyda Menter yn Sir y<br>Fflint i hyrwyddo gwarchod plant fel gyrfa. |
| Rhieni sy'n chwilio am gyfleoedd gwaith neu hyfforddiant. | • Mae Parents, Childcare and Employment (PaCE) yn darparu cyllid ar gyfer gofal plant i gefnogi rhieni/gwarcheidwaid sy'n chwilio am | | FISF, PaCE | • *Hyrwyddo prosiect PaCE yn barhaus.* | Mae FISF yn parhau i weithio gyda PaCE yn<br>hyrwyddo'r gwasanaeth i rieni pan fyddant yn<br>holi am ofal plant, os ydynt yn dymuno<br>dychwelyd i weithio. Rydym yn gwybod ar hyn<br>o bryd fod PaCE yn Sir y Fflint yn gweithio'n<br>ddiwyd gyda / yn cefnogi 94 o gyfranogwyr |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | gyfleoedd gwaith neu hyfforddiant, pan fo gofal plant yn darparu'r prif rwystr. | | | | drwy dri chynghorydd.<br><br>Mae NDNA Cymru yn rhedeg prosiect cyflogaeth gyda chymorth, 'Childcare Works', i unigolion di-waith 50 oed a throsodd sy'n byw yn Sir y Fflint, gan ddarparu 16 wythnos o gyflogaeth gyda chymorth yr wythnos, i gynnwys gweithdai hyfforddi yn canolbwyntio'n benodol ar ofal plant a lleoliadau mewn unedau gofal plant.<br><br>Prosiect sy'n cael ei ariannu gan y Gronfa Loteri Fawr yw ASPIRE i gefnogi rhieni ifanc neu rieni ifanc sy'n disgwyl * (*sydd o leiaf 29 wythnos i mewn i'w beichiogrwydd), 14 i 25 oed, ar draws Sir y Fflint a Wrecsam.<br>Yn ystod 2017 – 2018 mae wedi cefnogi 116 o gyfranogwyr. Mae'r prosiect yn pryderu |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ynglŷn â’r diffyg cyllid ar gyfer gofal plant i<br>ganiatáu i rieni o oed ysgol ddychwelyd i<br>astudio. Hefyd, nid yw rhieni ifanc sy’n cael<br>arian ar gyfer gofal plant yn y coleg yn cael<br>defnyddio cludiant coleg ar gyfer eu plant. |
| Aelwydydd di-waith. | • Ni chyfeiriodd yr un budd-ddeiliad at hyn fel rhwystr, oherwydd nid yw’r rhan fwyaf o aelwydydd di-waith yn defnyddio gofal plant, ar wahân i’r rhai sydd â hawl i ofal plant Dechrau'n Deg neu Addysg y Blynyddoedd Cynnar wedi’i ariannu. | | FISF, PaCE | • *Hyrwyddo prosiect PaCE yn barhaus.* | Mae FISF yn parhau i weithio gyda Dechrau’n Deg, Hawl Bore Oes a PaCE yn hyrwyddo’r gwasanaethau hyn i rieni pan fyddant yn holi ynglŷn â gofal plant.<br><br>Mae’r CDO wedi mynd i sawl cyfarfod<br>cyfathrebu Canolfan Byd Gwaith ar draws<br>Sir y Fflint i hyrwyddo gwasanaethau FISF,<br>y Cynnig Gofal Plant a gwarchod plant fel<br>opsiwn gyrfa. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Teuluoedd incwm isel. | • Mae fforddiadwyedd yn rhwystr i deuluoedd incwm isel ac roedd rhai budd-ddeiliaid yn croesawu ymrwymiad parhaus Sir y Fflint i ddarparu cyllid cymorth lleoedd. | • Gall y broses weinyddol weithiau achosi oedi neu eithrio rhai teuluoedd incwm isel rhag gwneud cais am gyllid neu gredydau treth. | FISF, Canolfan Byd Gwaith | • *Dylai cefnogaeth i gwblhau ceisiadau ar gyfer cyllid cymorth lleoedd a chredydau treth fod ar gael i bawb.* | Bydd FISF yn cyfeirio rhieni at Welfare Rights a Chanolfan Byd Gwaith os oes ganddynt gwestiynau ynglŷn â chredydau treth a budd-daliadau eraill. Mae staff FISF a'r CDO yn cefnogi rhieni dros y ffôn neu'r ebost neu'n eu gwahodd i Connects yn y Fflint i'w helpu i gwblhau ffurflenni grant am Leoedd a Gynorthwyir. |
| Teuluoedd unig rieni. | • Mae fforddiadwyedd yn rhwystr i deuluoedd unig rieni ac roedd rhai budd-ddeiliaid yn croesawu ymrwymiad parhaus Sir y | • Gall y broses weinyddol weithiau achosi oedi neu eithrio rhai teuluoedd unig rieni rhag gwneud cais am gyllid neu gredydau treth. | FISF, Canolfan Byd Gwaith | • *Dylai cefnogaeth i gwblhau ceisiadau ar gyfer cyllid cymorth lleoedd a chredydau treth fod ar gael i bawb.* | Bydd FISF yn cyfeirio rhieni unigol at Welfare Rights a Chanolfan Byd Gwaith os oes ganddynt gwestiynau ynglŷn â chredyda treth a budd-daliadau eraill. Mae staff FISF a'r CDO yn cefnogi rhien dros y ffôn neu'r ebost neu'n eu gwahod i Connects yn y Fflint i'w helpu i gwblhau ffurflenni grant am Leoedd a Gynorthwy |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Fflint i ddarparu cyllid cymorth lleoedd. | | | | |
| Teuluoedd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. | | • Gall y broses weinyddol weithiau achosi oedi neu eithrio rhai teuluoedd unig rieni rhag gwneud cais am gyllid neu gredydau treth. | FISF, Canolfan Byd Gwaith | • *Dylai cefnogaeth i gwblhau ceisiadau ar gyfer cyllid cymorth lleoedd a chredydau treth fod ar gael i bawb.* | Mae FISF yn gweithio gyda ac yn cyfeirio pobl<br><br>at BAWSO, Save the Family, DASU, Daffodils<br><br>ac asiantaethau eraill. |
| Teuluoedd gyda phlant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd. | • Ni soniwyd am hyn gan unrhyw fudd-ddeiliaid fel rhwystr, gan fod darpariaeth ar gyfer plant gydag anghenion addysgol arbennig neu anabledd yn | | FISF, Swyddog Broceriaeth Gofal Plant | • *Hyrwyddo'r grant Un i Un yn barhaus ymhlith rhieni a lleoliadau gofal plant.*<br>• *Defnyddio'r grant AAA ar gyfer y cynnig gofal plant a ariennir.* | Mae Lynne Mort o FISF a Jackie Dines o<br>PPA Cymru yn helpu rhieni a lleoliadau i gael<br>grantiau Extra Hands.<br><br>Mae 37 o blant wedi cael cymorth un i un<br>rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018<br>gydag 11 wedi'u hariannu o'r grant OOSC,<br>23 wedi'u hariannu o grant Gofal Plant |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | dda iawn yn Sir y Fflint.<br>• Mae cymorth ariannol ar gael drwy'r grantiau Un i Un i gyflogi staff ychwanegol i integreiddio'r plant hyn yn y lleoliad. | | | | CSyFf a 3 o grant AAA y Cynnig Gofal Plant.<br><br>Cafodd un gwarchodwr plant Grant Cynhwysiant, wedi'i ariannu o'r grant OOSC, i ddarparu ramp i'w lleoliad.<br><br>Canolbwyntiodd cyfarfod lleol PACEY i Ranbarth y Gogledd-ddwyrain ym mis Chwefror 2017 ar gynhwysiant, gyda Lynne Mort fel siaradwr gwadd, i godi ymwybyddiaeth o'r pecyn cynhwysiant ac o'r cymorth a roddir gan Lynne, ac i rannu ymarfer da gyda chydweithwyr.<br><br>Cafodd 37 o'r 4,107 o blant a phobl ifanc a fu ar Gynlluniau Chwarae'r Haf yn ystod gwyliau haf 2017 gefnogaeth drwy'r system Cyfeillio. |

**Materion eraill i gael eu hadlewyrchu yn y cynllun gweithredu**

| Categori | Cryfderau | Gwendidau | I'w weithredu gan | Blaenoriaethau | Cerrig Milltir |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynaliadwyedd y sector gofal plant. | • Grant clybiau y tu allan i'r ysgol yn ariannu oriau gweithiwr datblygu, grantiau cynaliadwyedd ac amserlen hyfforddiant.<br>• Grant Gofal Plant CSFf yn ariannu sefydliadau ambarél i gefnogi lleoliadau gofal plant.<br>• Gall rhieni gael mynediad i gymorth ariannol fel credydau treth, cynlluniau a gefnogir gan gyflogwyr a grantiau cymorth | • Straen ariannol gynyddol ar leoliadau, er enghraifft cyflog byw, costau rhent, gofynion pensiwn a chyfraddau busnes.<br>• Gofyniad cynyddol ar leoliadau i gwblhau dogfennau sy'n ofynnol dan reoliadau yn ddigidol, e.e. SASS 1 & 2.Nifer fawr o leoliadau sy'n gweithredu dan bwyllgorau | CDO, FISF, Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru, Mudiad Meithrin, NDNA, PACEY Cymru | • *Sicrhau ariannu parhaus ar gyfer y sector.*<br>• *Hyrwyddo grantiau sydd ar gael yn barhaus i'r lleoliadau a rhieni.*<br>• *Buddsoddiad parhaus mewn cefnogaeth TG ar gyfer lleoliadau sy'n cwblhau SASS Rhan 1 a 2.* | Yn ystod 2017 – 2018 dyfarnodd grant OOSC 4 grant cynaliadwyedd a dyfarnodd Grant Gofal Plant CSyFf 12 grant cynaliadwyedd. Bydd y naill ffrwd grant a'r llall ar gael yn ystod 2018 – 2019 i gefnogi lleoliadau gofal plant ar draws Sir y Fflint.<br><br>Nodai adroddiad datgofrestru PACEY Cymru yn Chwefror 17 fod rhai gwarchodwyr plant yn teimlo y dylent fod wedi canolbwyntio |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | lleoedd. | rheoli gwirfoddol, gyda newidiadau aelodaeth blynyddol. | | | mwy ar elfennau busnes. Yn sgil canfod hynny, mae PACEY Cymru wedi dechrau cysylltu fel mater o drefn â gwarchodwyr sydd newydd gofrestru ac wedi sefydlu cyflwyniad byr ar gefnogaeth i’r rhai sydd newydd gofrestru ar ffurf gweminar. Yn y cyswllt hwn mae’r awdurdod lleol yn ariannu PACEY Cymru i ddarparu ‘gweithdy cymorth i’r rhai sydd newydd gofrestru’ (o fewn rhaglen hyfforddiant ychwanegol FISF) i helpu gwarchodwyr plant newydd gyda chynaliadwyedd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | eu busnesau drwy ganolbwyntio ar farchnata a rhedeg eu busnes newydd yn ogystal â pharatoi ar gyfer eu harolygiad cyntaf.<br><br>Mae pob corff ymbarél wedi hyrwyddo'r grantiau cynaliadwyedd a'r grantiau lleoedd a gynorthwyir yn rheolaidd ac mae'r niferoedd sydd wedi manteisio ar y naill grant a'r llall wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ariannol hon..<br><br>Mae NDNA Cymru wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Cymru ar gynllun rhyddhad ardrethi Llywodraeth Cymru i fusnesau bach, a fydd yn help i gynaliadwyedd meithrinfeydd dydd preifat.<br><br>Mae CPCKC wedi sicrhau arian gan sefydliad Moonlight i ariannu Swyddog Datblygu Busnes Gofal Plant i helpu Clybiau y Tu Allan i Oriau Ysgol yn Sir y Fflint am ddiwrnod yr wythnos.<br><br>Mae FISF wedi prynu chwe gliniadur sydd ar gael i'w benthyca am ddim i leoliadau gofal plant i'w helpu i |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | gwblhau SASS 1 a 2 |
| Trefniadau trawsffiniol. | • Cytundeb trawsffiniol Hawl Bore Oes.<br>• Cyllid trawsffiniol ar gyfer swydd y swyddog Broceriaeth Gofal Plant a swydd y Swyddog Allgymorth Gwybodaeth Anelu'n Uchel.<br>• Cydweithredu ar draws pum sir yng Ngogledd Cymru i gyllido pecyn hyfforddiant cyn-cofrestru gwarchodwr plant. | • Dim trefniadau trawsffiniol ar gyfer prosesu grantiau Cymorth Lleoedd neu grantiau Un i Un. | CDO | • *Sefydlu trefniadau trawsffiniol ar gyfer prosesu grantiau Cymorth Lleoedd neu grantiau Un i Un.*<br>• *Cysondeb â rhaglenni eraill e.e. Hawl Bore Oes / y Cyfnod Sylfaen* | Mae cyllid trawsffiniol yn parhau i blant sy’n mynd i leoliadau Hawl Bore Oes.<br><br>Mae swyddi’r Swyddog Brocera Gofal Plant a Swyddog Gwybodaeth Maes Aspire yn parhau i gael eu hariannu drwy gytundeb rhwng Sir y Fflint a Wrecsam.<br><br>Nid yw’r CDO wedi gallu gwneud unrhyw drefniadau ariannu cyfatebol o ran Lleoedd a Gynorthwyir gan fod gan Awdurdodau Lleol cyfagos |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | weithdrefnau prosesu grantiau gwahanol.<br><br>Mae tîm y Cynnig Gofal Plant yn dal i weithio gydag awdurdodau cyfagos i drafod darpariaeth gyfatebol pan fydd y cynnig yn cael ei gyflwyno'n genedlaethol. |
| Datblygu a Hyfforddi Gweithlu. | • Yn ôl canlyniadau arolwg SASS 1, mae o leiaf 96% o'r gweithlu gofal plant yn meddu ar gymwysterau perthnasol. | • Dibyniaeth ar grant gofal plant y Tu Allan i Oriau Ysgol gan Lywodraeth Cymru i gyllido amserlen hyfforddiant gorfodol.<br>• Dealltwriaeth lleoliadau gofal plant o gymwysterau 'priodol' fel sy'n ofynnol yn y | CDO, Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru, NDNA, PACEY Cymru, Mudiad Meithrin | • *Sicrhau cyllid ar gyfer amserlen hyfforddiant gorfodol a chyfleoedd hyfforddiant eraill ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus.*<br>• *Hyrwyddo cyrsiau lefel 2 a lefel 3 ymhlith pob* | • Mae'r CDO yn hyrwyddo'r rhestr hyfforddiant a'r rhestr hyfforddiant ychwanegol a ariennir – darpariaeth o dan y grant OOSC. Mae'r rhestr hyfforddiant |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Safonau Gofynnol Cenedlaethol (13.6 ac 13.7). | | *lleoliad.* | yn cyfeirio darparwyr gofal plant at Goleg Cambria a Plato Training fel darparwyr lleol cyrsiau Lefel 2, 3 a 5 mewn Gofal Plant a Chwarae a'r Dyfarniad Pontio mewn Gwaith Chwarae.<br><br>• Mae cyrff ymbarél yn rhestru'r cymwyst-erau Lefel 2, 3 neu 5 a'r Dyfarniad |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Pontio mewn Gwaith Chwarae sydd ar gael ac unrhyw gyllid.<br><br>Gall Mudiad Meithrin gynnig hyfforddiant CPD drwy Academi i'r holl staff. Gall Mudiad Meithrin hefyd hyfforddi staff hyd at lefel 3 drwy'r rhaglen hyfforddi genedlaethol.<br><br>Mae NDNA Cymru yn cynnig ystod eang o hyfforddiant wyneb yn wyneb ac ar-lein i gefnogi datblygu'r gweithlu.<br><br>Mae grant Gofal Plant CSyFf wedi |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ariannu dau gylch o gyrsiau CYPOP5 ar gyfer gwarchodwyr plant newydd posibl yn ystod 2017 – 2018. Crybwyllwyd rhai o'r gweithdai a'r hyfforddiant a ariannwyd gan CSyFf ac a gyflenwyd gan PACEY Cymru uchod, megis gweithdy cymorth i warchodwyr plant sydd newydd gofrestru a Fun with Welsh ym mis Chwefror. Mae PACEY Cymru hefyd wedi cyflenwi Fframwaith Arolygu Newydd ym mis Mai a mis Mehefin 2017, Cynhwysiant Digidol Mai 2017, Cynllunio ar gyfer Dysgu Medi |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | 2017, Cyflwyniad i Alergenau Bwyd ac Atal a Rheoli Heintiau Hydref 2017 a Pharatoi ar gyfer Arolygiad Mawrth 2018. |
| Gwaith partneriaeth. | • Gwaith partneriaeth sy'n cynnwys ymgynghori gyda'r Bwrdd Diogelu Plant, Sefydliadau Ambarél/Partner, y Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg, y Fforwm Chwarae Strategol, y Ganolfan Byd Gwaith, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint, AWARE, Cyn-ysgolion Iach, | | | | Mae'r Awdurdod Lleol yn gwerthfawrogi'r gwaith sy'n cael ei wneud gan amryw o gyrff, yn enwedig aelodau FEYDCP, i helpu i gwblhau'r CSA a chyflawni gofynion y Cynllun Gweithredu hwn.<br><br>Mae'r cydweithio hwn yn amlwg o'r cyfarfodydd partneriaeth niferus - FEYDCP, Gweithgor y Cynnig Gofal Plant, partneriaeth |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Awdurdodau Lleol cyfagos, Cyflogwyr Lleol a budd-ddeiliaid eraill. | | | | Addysg Gynnar ayyb. |

**Rhestr termau**

| | | |
|---|---|---|
| AWARE | - | All Wales Area Representatives of EYDCPs |
| BAWSO | - | Information, Advice and Support for Black & Minority Ethnic people in Wales |
| CCO | - | Childcare Offer |
| CDO | - | Childcare Development Officer (Flintshire County Council) |
| CIO | - | Charitable Incorporated Organisation |
| CIW | - | Care Inspectorate Wales |

| | | |
|---|---|---|
| CPCKC | - | Clybiau Plant Cymru Kids Club |
| CPD | - | Continuous Professional Development |
| CSA | - | Childcare Sufficiency Assessment |
| CWLWM | - | Childcare Wales Learning and Working Mutually |
| CYPOP5 | - | Children and Young People Option 5 |
| DASU | - | Domestic Abuse Safety Unit (Flintshire) |
| EDI | - | Erfyn Diagnostig Iaith (Language Diagnostic Tool) |
| FCC | - | Flintshire County Council |
| FEYDCP | - | Flintshire Early Years Development and Childcare Partnership |
| FISF | - | Family Information Service Flintshire |
| NDNA | - | National Day Nurseries Association |
| OOSC | - | Out of School Childcare |
| OSC | - | Out of School Club |
| PaCE | - | Parents, Childcare and Employment |
| PACEY Cymru | - | Professional Association for Childcare and Early Years |
| SASS | - | Self Assessment of Service Statement |
| SEN | - | Special Educational Needs |

| | | |
|---|---|---|
| Wales PPA | - | Wales Preschool Providers Association |

# Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant - Adroddiad Cynnydd 2019

Mae lefel presennol y cyflenwad gofal plant yn Sir y Fflint wedi ei arddangos yn y tabl isod yn seiliedig ar Adroddiad Wythnosol FIS Arolygaeth Gofal Cymru (25.03.19) ac Adroddiad VAS (10.09.18).

| Math o Ofal plant | Cofrestrwyd | Gwaharddwyd | Heb eu Cofrestru na'u Cymeradwyo |
|---|---|---|---|
| Gwarchodwr Plant | **112** | **6** | **-** |
| Gofal Diwrnod Llawn | **47** | **-** | **-** |
| Gofal Dydd Sesiynol | **26** | **-** | **-** |
| Meithrinfeydd | **4** | **-** | **-** |
| Gofal y Tu Allan i'r Ysgol | **43** | **-** | **7** |
| Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored | **1** | **-** | **57** |
| Nani | **-** | **-** | **3** |
| Cyfanswm | **233** | **6** | **67** |

Mae'r Adroddiad Cynnydd hwn yn nodi'r Camau Gweithredu, sy'n rhoi manylion y camau, blaenoriaethau a'r cerrig milltir i gynnal cryfderau a rhoi sylw i ddiffygion a nodir yn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2017 - 2021.

## **Asesiad o'r Galw**

| Cryfderau | Gwendidau | I'w weithredu gan | Blaenoriaethau |
|---|---|---|---|
| • Mae gofal plant mewn lleoliad da ac yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o rieni.<br>• Mae gofal plant yn ddibynadwy yn gyffredinol.<br>• Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn credu bod gofal plant o ansawdd da. | | CDO, FISF, AWARE | • Ar gyfer yr CSA nesaf, gwella hyrwyddo'r arolwg rhieni gan mai cyfran fach iawn o rieni Sir y Fflint wnaeth lenwi'r arolwg ar gyfer 2016.<br>• Sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael argymhellion ar gyfer gwelliannau i'r arolwg rhieni. |

**Cerrig Milltir a adolygwyd 31 Mawrth 2018**

- CDO i ehangu'r rhestr ddosbarthu ar gyfer yr arolwg rieni yn 2021.
- Mae grŵp AWARE wedi bwydo yn ôl i Lywodraeth Cymru yr argymhellion ar gyfer gwelliannau i'r arolwg rhieni (2017).

**Cerrig Milltir a adolygwyd 31 Mawrth 2019**

- Fel yr uchod.
- Mae FISF wedi lansio tudalen Facebook FISF eleni a gall hwn gael ei ddefnyddio i hyrwyddo arolygon (fel y CSA), ymgynghoriadau a chyhoeddiadau ymhlith rhieni ar draws Sir y Fflint. Mae Rheolwr y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd wedi cyflwyno cais datblygu drwy'r rhwydwaith FIS ym mis Mawrth 2019 i ddatblygu system arolygu'n seiliedig ar DEWIS

## Asesiad o Gyflenwad

| Cryfderau | Gwendidau | I'w weithredu gan | Blaenoriaethau |
|---|---|---|---|
| • Mae pob ardal o Sir y Fflint yn cynnal math o ddarpariaeth gofal plant.<br>• Dychwelwyd 77.1% o'r holl waith papur SASS1 yn Sir y Fflint a oedd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. | • Amseru'r arolwg SASS1 ar ddiwedd y tymor ac mor fuan yng ngwyliau'r ysgol. | CDO, FISF, Blynyddoedd Cynnar Cymru (PPA Cymru yn flaenorol), Mudiad Meithrin, NDNA, PACEY Cymru | • Er mwyn cael data mwy dilys, mae angen i ni gefnogi cwblhau SASS Rhan 1 gan fod 22.9% o ddarparwyr gofal plant Sir y Fflint wedi methu a chwblhau arolwg AGC SASS Rhan 1 ar-lein.<br>• Darparu cefnogaeth dechnegol lle bo modd i gefnogi'r lleoliad wrth iddynt gwblhau SASS ar-lein 1 a 2 AGC. |

### Cerrig Milltir a adolygwyd 31 Mawrth 2018

- **Mae cefnogaeth ar gael gan sefydliadau Ambarél i gwblhau SASS 1 a 2 -**

Trefnodd Mudiad Meithrin weithdai i fynd drwy SASS 1 a 2. Rhoddwyd cefnogaeth ychwanegol hefyd gan y Swyddog Cefnogi ar gyfer unrhyw grwpiau a oedd yn profi anawsterau.

Cynhaliodd PPA Cymru sesiwn wybodaeth i aelodau ei defnyddio ar gyfer SASS1, helpodd gweithwyr Datblygu leoliadau yn ystod eu hymweliadau arferol, a gwahoddwyd pob aelod i ddod i swyddfa PPA Cymru am gymorth 1 i 1 neu grŵp os oedd angen.

Cynigiodd PACEY Cymru gymorth dros y ffôn a drwy e-bost i bob gwarchodwr plant cofrestredig yng Nghymru ar ôl cwblhau SASS. Yn Sir y Fflint, darparwyd gweithdai ar y Fframwaith Archwilio ym mis Mai a mis Mehefin yn barod am SASS rhan 2 – roedd cyfanswm o 23 yn bresennol gyda 100% yn rhoi sgôr dda neu ardderchog i'r cwrs. Roedd adborth yn cynnwys sylwadau ar sut y bydd hyn yn cefnogi cwblhau'r SASS, gan gynnwys *"Sut fyddaf yn dangos tystiolaeth fy mod yn gwneud gwaith da ac yn gallu llenwi SASS2" [roedd yn ddefnyddiol iawn].*

Rhannodd NDNA Cymru wybodaeth am SASS 1 a 2 gydag aelodau a rhoddwyd cymorth dros y ffôn ar ôl cwblhau'r SASS.

Mae’r CDO wedi rhoi cefnogaeth i ddarparwyr Clybiau y Tu Allan i Oriau Ysgol yn ystod ymweliadau arferol i gwblhau SASS1 a 2.

- **Mae FISF wedi prynu chwe gliniadur y gellir eu rhoi ar fenthyg am ddim i leoliadau gofal plant i gynorthwyo i gwblhau SASS 1 a 2**

Gall pob Cylch Meithrin wneud cais am grant drwy’r Mudiad Meithrin i brynu offer TG.

Cafodd dau weithdy Hyder Digidol ym mis Mai 2017 eu hyrwyddo i bob lleoliad gofal plant a dim ond un gwarchodwr plant oedd yn bresennol yn y gweithdy cyntaf gyda’r ail weithdy wedi'i ganslo gan na dderbyniwyd unrhyw archebion.

**<u>Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2019</u>**

- **Cefnogaeth a chyngor a ddarparwyd i ddarparwyd gofal plant o amgylch gofynion SASS1 a 2**

  Ar 7 Medi 2018, cyhoeddodd AGC ‘Darparwyr Gofal Plant a chwarae: Nid yw’n ofynnol iddynt gwblhau Hunanasesiad Gwasanaeth (SASS) ar gyfer 2018-19’. Mae AGC yn bwriadu cyhoeddi SASS yn rhan olaf 2019, yn y cyfamser gorchmynnir fod darparwyr gofal plant yn diweddaru eu Hadolygiad Ansawdd Gofal ac iddo fod ar gael os bydd AGC yn gofyn amdano.

  Mae’r gweithdy adroddiad Ansawdd Gofal wedi’i gynnwys ar Atodlen Hyfforddiant Ychwanegol FIS (19 Chwefror 2019 – roedd 14 ymgeisydd yn bresennol).

  Mae’r CDO a phob sefydliad ambarél yn parhau i ddarparu cefnogaeth i ddarparwyr OSC yn ystod ymweliadau arferol ynghylch cynhyrchu Adolygiad Ansawdd Gofal a gweithio tuag at ei Gynllun Gweithredu.

- **Darparu cymorth technegol i helpu darparwyr gofal plant i gwrdd â gofynion gwefan DEWIS SASS 1 a 2, y Cynnig Gofal Plant, Hawl Bore Oes.**

  Mae gliniaduron ar gael gan FISF i’w benthyg i leoliadau i’w cefnogi i gwblhau eu gwaith papur adolygu SASS ac Ansawdd Gofal, hawliadau’r Cynnig Gofal Plant a Hawl Bore Oes a chofrestru ar wefan DEWIS.

  Pob sefydliad ambarél sy’n cefnogi lleoliadau i gael dogfen gyfun (Adolygiadau Ansawdd Gofal a SEfI) yn unol â'r Archwiliad ar y Cyd. Hefyd, annog lleoliadau i brynu eu gliniaduron/ dyfeisiau llechen a phecynnau rhyngrwyd eu hunain.

**Dadansoddiad o gyflenwad a galw darpariaeth gofal plant cyffredinol**

| Categori | Cryfderau | Gwendidau | I'w weithredu gan | Blaenoriaethau |
|---|---|---|---|---|
| Y math o ofal plant sydd ar gael e.e. gofal diwrnod llawn, gofal sesiynol, gofal ar ôl ysgol, gwarchodwr plant | • Darperir ar gyfer yr ystod lawn o wasanaethau ar draws y rhan fwyaf o ardaloedd | • Nifer cyfyngedig o warchodwyr plant mewn lleoliadau gwledig<br>• Dim ond un cynllun chwarae mynediad agored sydd wedi ei gofrestru gydag AGC.<br>• Tan ddefnydd o gyfleusterau crèche cofrestredig<br>• Nifer cyfyngedig o Nanis ar y Cynllun Cymeradwyaeth Wirfoddol | PACEY Cymru, Tîm Datblygu Chwarae, FISF | • *Recriwtio mwy o warchodwyr plant, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.*<br>• *Cefnogi cofrestru cynlluniau chwarae mynediad agored.*<br>• *Codi ymwybyddiaeth, ymysg asiantaethau a darparwyr hyfforddiant, bod cyfleusterau crèche ar gael yn Sir y Fflint.*<br>• *Cynnig mwy o wybodaeth mewn perthynas â nanis ar y cynllun cymeradwyaeth gwirfoddol drwy FISF.* |

**<u>Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2018</u>**

- **Manylion am waith hyrwyddo PACEY a FISF.**

Yn ystod y cyfnod mis Hydref 2017 – Chwefror 2018, darparwyd cyfanswm o 8 bloc 3 awr o ymgysylltu hyrwyddo gan PACEY Cymru i godi ymwybyddiaeth am fod yn warchodwr plant cofrestredig yn ardaloedd targed yr Wyddgrug a Threffynnon, roedd hyn yn cynnwys presenoldeb mewn 9 digwyddiad neu grŵp, ac ymweld ag amryw o leoliadau a sefydliadau ychwanegol i drafod gwarchod plant yn lleol yn ystod yr oriau hyn.

Mae'r CDO wedi bod mewn 2 sesiwn Rhieni a Phlant Bach, sesiwn amser Rhigwm a Digwyddiad Rhieni'r DWP yn y Fflint rhwng mis Rhagfyr 2017 a mis Mawrth 2018 i godi ymwybyddiaeth am ofal plant fel dewis gyrfa.

- **Adroddiad y Swyddog Datblygu Chwarae ar niferoedd lleoliadau**

Mynychodd 4,107 o blant a phobl ifanc Gynlluniau Chwarae'r Haf yn ystod gwyliau haf 2017, gyda 37 o'r plant a'r bobl ifanc hyn yn cael eu cefnogi gan y system Cyfaill.

Eleni, bydd Sir y Fflint yn cynnal yr un nifer o gynlluniau chwarae ag y llynedd. Nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i gofrestru unrhyw un gydag AGC ond byddant yn anelu at wneud yn y dyfodol agos.

- **Hyrwyddo Gwasanaethau Crèche Sir y Fflint yn ystod 2017 - 2018**

Mae Gwasanaethau Crèche Sir y Fflint wedi darparu'r crèches canlynol rhwng 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018

| | | |
|---|---|---|
| Crèches Un Tro = 15 | Crèches 6 wythnos = 1 | Crèches 11 wythnos = 6 |
| Crèches 4 wythnos = 5 | Crèches 7 wythnos = 4 | Crèches 12 wythnos = 1 |
| Crèches 5 wythnos = 6 | Crèches 8 wythnos = 7 | Crèches 14 wythnos = 1 |

Dros y chwe mis diwethaf, mae Gwasanaethau Crèche Sir y Fflint wedi dosbarthu taflenni hyrwyddo i ysgolion, gwestai, meddygfeydd doctoriaid ac wedi eu gosod ar wefan FISF.

- **Sut mae FISF yn hyrwyddo Nanis.**

Ar hyn o bryd, nid oes manylion unrhyw Nanis ar wefan FISF, ond mae cynlluniau i'w cynnwys ar y wefan DEWIS newydd. Bydd rhieni sy'n holi ar ran Nanis yn cael eu cyfeirio at y rhai hynny sydd eisoes ar Gynllun Cymeradwyaeth Wirfoddol AGC

**Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2019**

- **Manylion am waith hyrwyddo PACEY a FISF.**

Yn ystod y cyfnod rhwng mis Mai a mis Medi 2018, darparwyd cyfanswm o 8 bloc 3 awr o ymgysylltu a hyrwyddo i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â bod yn warchodwr plant cofrestredig. Roedd hyn yn cynnwys stondinau arddangos mewn 2 ddigwyddiad mawr cymunedol, bod yn bresennol mewn 10 o grwpiau rhieni a phlant bach a chyfleusterau a gweithgareddau cymunedol. At ei gilydd, roedd o leiaf 95 o unigolion yn y sesiynau grŵp a aethpwyd iddynt yn y cyfnod hwn, a arweiniodd at drafodaeth fanylach gyda 27 o unigolion, a oedd yn dangos bod lefel ddigonol o ddiddordeb mewn gofal plant, naill ai i rannu eu manylion cyswllt neu fynd â gwybodaeth ychwanegol i ffwrdd ac aeth 3 arall a thaflenni i ffrindiau neu gydweithwyr. Mae unigolion o'r ardaloedd targed wedi cwblhau cwrs hyfforddiant cyn cofrestru CYPOP5 ym mis Hydref; gan gynnwys 3 o'r Wyddgrug, 1 o Laneurgain, ac 1 o Dreffynnon.
Yn ystod y cyfnod o fis Ionawr – Chwefror 2019, darparwyd cyfanswm o 4 bloc 3 awr o ymgysylltu hyrwyddo i godi ymwybyddiaeth yn ardaloedd targed yr Wyddgrug a Threffynnon ynglŷn â bod yn warchodwr plant cofrestredig. Roedd hyn yn cynnwys bod yn bresennol mewn 6 o sesiynau grŵp rhieni a phlant bach (gynnwys 1 sesiwn rhieni a babanod dan arweiniad ymwelydd iechyd), 1 sesiwn amser stori / rhigwm, ynghyd â chyfleusterau a gweithgareddau cymunedol eraill. At ei gilydd, roedd o leiaf 66 o unigolion yn bresennol yn y sesiynau yr ymwelwyd â nhw, a arweiniodd at trafodaethau manylach gyda rhai, o'r rhain, aeth 9 a gwybodaeth ychwanegol. Yng nghwrs CYPOP5 mis Mawrth, roedd yr ymgeiswyr yn cynnwys 1 person o'r Wyddgrug, mae 1 person o'r rownd hon o waith ymgysylltu ar hyn o bryd yn aros am y sesiwn friffio lleol nesaf.

Mae'r CDO wedi bod i Ganolfan Byd Gwaith yr Wyddgrug ar gyfer digwyddiad Rhieni Sengl ym mis Gorffennaf 2018 a thair o Sesiynau llwybrau Rhieni Sengl ym mis Tachwedd 2018 i hyrwyddo FISF, DEWIS, dewisiadau a chyllid gofal plant ac i hyrwyddo gwarchod plant fel dewis gyrfa. Mae gwaith estyn allan FISF wedi gwella ac ehangu yn y maes hwn ers recriwtio dau Swyddog Gwybodaeth newydd eleni.

- **Adroddiad y Swyddog Datblygu Chwarae ar niferoedd lleoliadau**

Mynychodd 3,906 o blant a phobl ifanc 5 i 12 oed (5 i 15 ar gyfer plant gydag anableddau) Gynlluniau Chwarae'r Haf yn ystod gwyliau haf 2018, gyda 41 o'r plant a'r bobl ifanc hyn yn cael eu cefnogi gan y Cynllun Cyfaill Sir y Fflint.

Roedd y cynlluniau chwarae yn cael eu darparu ar 58 o safleoedd mewn partneriaeth â chynghorau tref a chymuned. Gweithiodd yr Awdurdod Lleol mewn partneriaeth ag Urdd Gobaith Cymru i ddarparu 4 o gynlluniau haf cyfrwng Cymraeg. Ar gyfer 2018, gweithiodd y Gwasanaeth

Budd-daliadau Awdurdod Lleol mewn partneriaeth i gynnig ciniawau poeth i'r holl blant mewn mannau lle'r oedd tlodi bwyd – Aeth y bwyd at y plant ac roedd croeso i'r holl blant.

Mae FISF yn gweithio gyda'r Tîm Datblygu Chwarae i ystyried datblygu ardaloedd Chwarae agored yn llyfryn Sir y Fflint. Bydd y Tîm Datblygu chwarae yn ariannu'r llyfryn ac yn ei ddatblygu gydag Addysg. Bydd FISF yn cymryd rhan yn ei ddatblygiad i annog plant i fanteisio ar gyfleoedd chwarae agored yn y sir.

Eleni, bydd Sir y Fflint yn cynnal yr un nifer o gynlluniau chwarae ag y llynedd. Nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i gofrestru unrhyw un gydag AGC ond byddant yn anelu at wneud hynny yn y dyfodol agos. Yn ôl yr arwyddion cynnar, mae nifer o gynghorau tref a chymuned wedi nodi cyllid ychwanegol i gefnogi wythnosau ychwanegol yn eu cymunedau. Mae 10 o drefi a chymunedau wedi optio am y 6 wythnos lawn hyd yma.

- **Hyrwyddo Gwasanaethau Crèche Sir y Fflint yn ystod 2018 - 2019**

Mae Gwasanaethau Crèche Sir y Fflint wedi darparu'r crèches canlynol rhwng 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019

| | | | |
|---|---|---|---|
| Crèche Un Tro = 8 | Crèches 2 wythnos = 2 | Crèches 3 wythnos = 1 | Crèches 4 wythnos = 1 |
| Crèches 5 wythnos = 2 | Crèches 6 wythnos = 1 | Crèches 7 wythnos = 3 | Crèches 8 wythnos = 4 |
| Crèches 10 wythnos = 2 | Crèches 11 wythnos = 6 | Crèches 12 wythnos = 7 | Crèches 14 wythnos = 1 |
| Crèches 35 wythnos = 1 | | | |

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae staff Crèches Sir y Fflint wedi parhau i hyrwyddo'r defnydd o'r gwasanaeth. Mae'r galw wedi cynyddu eleni yn sgil gostyngiad yn y rhaglenni a gynigir dan gyllid grant er ei bod yn ymddangos fod nifer y sesiynau a ddarperir ar yr un lefel a'r llynedd. Bydd y tîm yn parhau i weithio i hyrwyddo a chodi proffil y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn i ddod.

- **Sut mae FISF yn hyrwyddo Nanis.**

Mae cyllideb Gofal Plant CSFf yn rhoi cymhorthdal at hyfforddiant a chymorth sefydlu ar gyfer Nanis sy'n awyddus i ymuno â'r cynllun cymeradwyaeth wirfoddol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw nanis newydd yn cofrestru ar y cynllun Cymeradwyaeth Wirfoddol eleni. Gellid

priodoli hyn i'r newidiadau mewn gofynion cofrestru gan fod bellach rhaid i Nanis gael cymhwyster Gofal Plant Lefel 3 neu'r cymhwyster CYPOP5 er mwyn cofrestru ar y cynllun.
Ym mis Mai 2018, disodlwyd gwefan FISF gan DEWIS, y wefan lle gall rhieni edrych am ddarparwyr Gofal Plant yn y sir. Nid yw DEWIS yn darparu cyfleuster i gofrestru Nanis ar hyn o bryd, fodd bynnag, maent wedi gofyn i ychwanegu hyn at y dewis o ofalwyr gofal plant a dylid gweithredu ar hyn yn y dyfodol agos. Ar 25 Chwefror 2019, mae newid mewn deddfwriaeth wedi golygu na all nanis gofrestru ar hyn o bryd ar y Cynllun Cymeradwyaeth Wirfoddol, felly, wrth symud ymlaen, bydd hyn yn effeithio ar y nifer o nanis sy'n gallu gosod eu manylion ar wefan DEWIS.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gofal plant yn darparu ar gyfer plant o oedran penodol, e.e. o'u genedigaeth o 2 oed neu dros 8 oed | • Gwarchodwyr Plant a darparwyr Gofal Diwrnod Llawn yn darparu ar gyfer plant o 0 – 12 oed<br>• Cyflenwad cymharol gyson a digonol o ofal plant ar gyfer plant sy'n derbyn darpariaeth Gofal Dydd Sesiynol | • Nemor ddim darpariaeth ar ôl ysgol ar gyfer pobl ifanc 12 – 17 oed<br>• Mae clybiau gwyliau yn darparu ar gyfer nifer fechan o blant dan bump oed | MM, PACEY Cymru, NDNA, Blynyddoedd Cynnar Cymru (PPA Cymru yn flaenorol), CPCKC, CDO, tîm CO | • *Annog yr holl ddarparwyr gofal plant i ehangu'r ystod oedran maent yn darparu er ei chyfer yn unol â diwygiadau diweddar i reoliadau cofrestru o rai dan wyth oed i rai dan ddeuddeg oed.*<br>• *Annog pob darparwr perthnasol i ofal plant ehangu'r ystod oedran maent yn darparu ar ei gyfer i ddiwallu gofynion y Ddarpariaeth Gofal Plant* |

**<u>Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2018</u>**

- **Sefydliadau Ambarél yn cyflenwi enghreifftiau o leoliadau sydd wedi ehangu eu hystod oedran.**

Ers i Sir y Fflint ddechrau darparu'r CO, bellach mae 12 o'n 30 cynllun chwarae'r Gwyliau yn darparu gofal i blant o dair blwydd oed.

O'r 24 clwb Ar ôl Ysgol a gofrestrwyd i ddarparu gofal i blant 3 oed, mae 8 ohonynt wedi ehangu eu cofrestriad yn ddiweddar i'r ystod oedran is hwn.

Mae Woodies Wraparound (Saltney) bellach yn darparu ar gyfer clwb cyn ac ar ôl yr ysgol ac felly'n darparu ar gyfer y plant oedran ysgol hŷn (8- 11).

Mae meithrinfeydd dydd sy'n aelodau o'r NDNA yn Sir y Fflint yn darparu ar gyfer plant o rai newydd anedig.

Mae gwarchodwyr plant sy'n dymuno cynyddu eu niferoedd o 6 dan 8 oed i 10 dan 12 oed wedi wynebu costau yn dilyn ymgynghori gydag adran gynllunio CSFf. Ac mae hyn wedi atal rhai rhag ehangu ar eu hystod oedran.

**Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2019**

Sefydlwyd clwb ar ôl ysgol newydd yn Ysgol Gynradd Llaneurgain yn darparu ar gyfer plant 4 – 11 oed. Maent wrthi'n cofrestru gyda AGC.

Mae Caban Cae'r Nant wedi agor cylch chwarae newydd ac yn cefnogi rhieni plant sy'n mynd i Ysgol Cae'r Nant.

Gofal Diwrnod Llawn NEWYDD (wrthi'n cael ei gofrestru) Clwb Bwthyn Bach, Caerwys. Bwriadu agor ym mis Ebrill 2019

Gofal sesiynol NEWYDD (wrthi'n cael ei gofrestru) Kinnerton Little Acorns.

Gofal Diwrnod Llawn NEWYDD (wrthi'n cael ei gofrestru) Ysgol Abermorddu drwy weithio ar y cyd gyda Meithrinfa Ddydd leol.

Yn dilyn y rhaglen SHEP sy'n cael ei darparu yn yr ysgol yn ystod gwyliau'r haf 2018, mae Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney wedi sefydlu clwb brecwast i annog dewisiadau bwyta iach.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gofal plant fforddiadwy | • Mae lleiafrif bach iawn o leoliadau yn Sir y Fflint sydd heb eu cofrestru felly mae rhieni'n gallu cael credyd treth a defnyddio talebau gofal plant yn y rhan fwyaf o leoliadau gofal plant. | • Mae rhieni yn nodi mai fforddiadwyedd yw'r ffactor pwysicaf wrth iddynt ystyried eu dewisiadau gofal plant.<br>• Mae'r rhai sy'n manteisio ar elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith a Chynlluniau Cymorth Cyflogwyr yn isel iawn yn Sir y Fflint.<br>• Nid oedd tua 48% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg rhieni / gofalwyr yn gwybod ym mhle y gallent gael gwybodaeth am gymorth ariannol â gofal plant. | Blynyddoedd Cynnar Cymru (PPA Cymru yn flaenorol), CPCKC, CDO, tîm Datblygu Chwarae, FISF | • *Hyrwyddo mwy ar Gredydau Treth Gwaith neu Gredydau Cynhwysol a Chynlluniau Cymorth Cyflogwyr sydd ar gael (gan gynnwys y cynllun Gofal Plant Di-dreth cenedlaethol, newydd).*<br>• *Dylid annog a chefnogi darparwyr pob math o ofal plant heb eu cofrestru i gofrestru ag AGC.* |

**<u>Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2018</u>**

- **Gwaith a wnaed gan Sefydliadau Ambarél i hyrwyddo credydau treth / credydau cynhwysol, cynlluniau a gefnogir gan gyflogwyr a gofal plant di-dreth.**

Mae Sir y Fflint yn Weithredwyr Cynnar y cynnig gofal plant 3-4 wedi'i ariannu - hyd at 30 awr o ofal plant ac addysg gyfun. Mae nifer dda wedi manteisio ar hyn ac mae wedi ehangu gwybodaeth am y wefan 'Dewisiadau Gofal Plant'.

Mae PACEY wedi bod yn hyrwyddo ac yn trafod y ddarpariaeth gofal plant drwy newyddion, e-newyddion, cylchgrawn PACEY, hefyd wedi ei drafod yng nghyfarfodydd lleol PACEY. Hefyd drwy ateb ymholiadau unigol a chyfeirio at y tîm Cynnig Gofal Plant.

Mae Mudiad Meithrin yn hyrwyddo credydau treth / credydau cynhwysol, cynlluniau a gefnogir gan gyflogwyr a gofal plant di-dreth yn genedlaethol drwy eu tudalennau Facebook a twitter. Mae lleoliadau hefyd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd yn y newyddlen bob tymor a drwy'r swyddog cefnogi lleol.

Mae PPA Cymru a CWLWM yn hysbysebu a hyrwyddo credydau treth, cynlluniau a gefnogir gan gyflogwyr a gofal plant di-dreth drwy eu cyfryngau cymdeithasol ac ar eu gwefannau.

Cyhoeddwyd llyfryn newydd 'Dewisiadau Gofal Plant' Llywodraeth Cymru yn 2017 ac ar gael gan FISF.

Mae CDO wedi cynnal erthyglau rheolaidd yn y newyddlen FISF ynghylch credydau Treth Gwaith, Cynlluniau a Gefnogir gan Gyflogwyr a'r Cynllun Gofal Plant Di-dreth newydd.

Mae taflen 'Cymorth gyda chostau gofal plant' wedi ei diweddaru ym mis Awst a Hydref 2017.

Derbyniodd pum aelod o staff FISF hyfforddiant Credyd Cynhwysol ar 15 Mawrth 2018 yn Wrecsam.

Mae NDNA Cymru wedi rhoi cyhoeddusrwydd i'r wefan dewisiadau gofal plant ac wedi rhannu gwybodaeth ynghylch gofal plant di-dreth drwy e-fwletinau ac ar wefan NDNA.

Rhannodd CWLWM wybodaeth ynghylch gofal plant di-dreth: http://www.cwlwm.org.uk/tax-free-childcare-opens-to-all-eligible-families/

- **Mae cefnogaeth yn cael ei rhoi i leoliadau gofal plant heb eu plant gael eu cofrestru gydag AGC**

Mae'r CDO a PPA Cymru wedi cefnogi ysgol Chwitffordd, ysgol Y Santes Fair, y Fflint ac ysgol Abermorddu wrth iddynt symud tuag at gofrestru eu Clybiau Ar Ôl Ysgol sydd heb eu cofrestru ar hyn o bryd.

**Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2019**

- **Gwaith a wnaed gan Sefydliadau Ambarél i hyrwyddo credydau treth / credydau cynhwysol, cynlluniau a gefnogir gan gyflogwyr a gofal plant di-dreth.**

Mae CWLWM yn hysbysebu a hyrwyddo credydau treth, cynlluniau a gefnogir gan gyflogwyr a gofal plant di-dreth drwy eu cyfryngau cymdeithasol ac ar eu gwefannau.

Mae Blynyddoedd Cynnar Cymru yn hysbysebu a hyrwyddo credydau treth, cynlluniau a gefnogir gan gyflogwyr a gofal plant di-dreth drwy eu cyfryngau cymdeithasol ac ar eu gwefannau.

Mae tîm Cynnig Gofal Plant Sir y Fflint yn cefnogi rhieni sy’n derbyn y CO a chredydau treth ar gyfer yr oriau hynny sydd y tu allan i oriau a ariennir.

Mae staff FISF wedi cael hyfforddiant amrywiol ynghylch budd-daliadau gofal plant a chynlluniau talu er enghraifft hyfforddiant mewnol ar Daliadau Uniongyrchol. Mae dau Swyddog Gwybodaeth FISF newydd wedi cael eu recriwtio eleni gyda phrofiad o weithio mewn timau Gwybodaeth i Deuluoedd a Theuluoedd yn Gyntaf.

Mae CDO wedi cynnwys erthyglau yn y newyddlen FISF ynghylch credydau Treth Gwaith, Cynlluniau a Gefnogir gan Gyflogwyr, y cynllun Gofal Plant Di-dreth a datblygiadau ynghylch darparu’r Cynnig Gofal Plant yn Sir y Fflint a siroedd cyfagos.

Mae Grŵp Gwrthdlodi Sir y Fflint drwy Gyngor ar Bopeth yn awyddus i weithio gydag FISF ar friffiau lleol sy’n edrych ar thema costau gofal plant a fforddiadwyedd.

- **Mae cefnogaeth yn cael ei rhoi i leoliadau gofal plant heb eu cofrestru i gael eu cofrestru gydag AGC**

Mae’r CDO a staff Blynyddoedd Cynnar Cymru yn cefnogi nifer o leoliadau i gael eu cofrestru gydag AGC - gan gynnwys Clwb Ar ôl Ysgol (ASC) Chwitffordd, ASC Llaneurgain, ASC Trelogan, ASC Queensferry, ASC y Santes Fair (y Fflint) ac ASC Gronant.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Adegau pan fo gofal plant ar gael, gan gynnwys yr angen am ofal plant hyblyg yn darparu ar gyfer patrymau defnydd afreolaidd ar draws y diwrnod, yr wythnos a'r flwyddyn; | | • Mae llai na 50% o ddarparwyr gofal diwrnod llawn a gwarchodwyr plant yn cynnig sesiynau gofal hanner diwrnod.<br>• Mae darparwyr gofal sesiynol yn dueddol o ddarparu sesiynau bore neu bnawn yn unig a chymharol ychydig o ofal cofleidiol neu glwb cinio.<br>• Ychydig iawn o ddarparwyr sy’n cynnig gofal plant cyn 8.00am neu ar ôl 6.00pm. | CDO, Blynyddoedd Cynnar Cymru (PPA Cymru yn flaenorol), Mudiad Meithrin, NDNA, PACEY Cymru | • *Er mwyn bodloni anghenion gofal plant y rhai sy’n gweithio oriau annodweddiadol, mae angen mwy o ofal plant cyn 8am, ar ôl 6pm, dros nos ac ar benwythnosau.*<br>• *Dylid annog darparwyr gofal dydd sesiynol a darparwyr gofal y tu allan i’r ysgol i estyn eu horiau i fodloni anghenion teuluoedd sy’n gweithio.*<br>• *Dylid annog pob darparwr gofal plant i weithio ar y cyd i sicrhau fod y rheini sy’n gweithio yn gallu cael* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Does nemor ddim gofal plant ar benwythnosau neu dros nos. | | *mynediad i ddarpariaeth addas i gyflawni'r Cynnig Gofal Plant* |

**<u>Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2018</u>**

- **Sefydliadau ambarél yn cynnig enghreifftiau o leoliadau sy'n ymestyn eu horiau i ddiwallu anghenion teuluoedd sy'n gweithio**

Mae Gwarchodwyr Plant Squib & Squidge wedi ymestyn eu horiau dyddiol a hefyd yn cynnig gofal ar ddyddiau Sadwrn a dros nos.

Mae Emma Williams, gwarchodwr plant sydd newydd gofrestru wedi cofrestru i ddarparu lleoliadau gofal plant ar y penwythnos ac mae ei sesiynau yn ystod yr wythnos wedi ymestyn tan mor hwyr â 9.00pm.

Trafodir oriau hyblyg yn ystod y broses CYPOP5 a chyn cofrestru i annog meddwl am hyn o'r dechrau un.

Mae Woodland Imps (Mynydd Isa), Oaktree Playgroup (Bwcle), Cylch Chwarae Sandycroft, Cylch Chwarae Kelsterton (Cei Connah) a Grŵp Chwarae (Newydd) Glan Aber (Bagillt) i gyd wedi ymestyn eu horiau i ddiwallu anghenion rhieni sy'n gweithio.

Mae PPA Cymru hefyd yn gweithio gyda darparwyr newydd sy'n sefydlu darpariaethau gyda'r nod o gynnig y CO yn Sir y Fflint e.e. Caerwys, Abermorddu a Chwitffordd

Mae'r CDO wedi cefnogi nifer o glybiau Tu allan i Oriau Ysgol sydd wedi nodi'n ddiweddar eu bod yn ymestyn eu horiau – gan gynnwys R.A.S.C.A.L.S. (Penyffordd, Caer), Cool Kidz Club (Brynffordd), LAFS Club (Licswm) a St. Winefride's (Treffynnon).

Mae Teigrod Terrig (Treuddyn) wedi ymestyn eu cofrestriad Clwb y Tu Allan i Oriau Ysgol i gynnwys clwb gwyliau dwyieithog.

## Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2019

- **Sefydliadau ambarél yn cynnig enghreifftiau o leoliadau sy'n ymestyn eu horiau i ddiwallu anghenion teuluoedd sy'n gweithio**

Sefydlwyd clwb ar ôl ysgol newydd yn Ysgol Gynradd Llaneurgain yn darparu ar gyfer plant 4 – 11 oed. Maent wrthi'n cofrestru gyda AGC.

Ymestynnodd Saltney Small Steps eu cofrestriad i gynnwys Clwb Gwyliau i ddiwallu anghenion rhieni sy'n gweithio.

Ymestynnodd Woody Wraparound eu cofrestriad i gynnwys Clwb Gwyliau i ddiwallu anghenion rhieni sy'n gweithio.

Mae Caban Cae'r Nant wedi agor cylch chwarae newydd ac yn cefnogi rhieni plant sy'n mynd i Ysgol Cae'r Nant.

Ymestynnodd Cylch Terrig eu horiau i ddechrau'n gynharach am 8am

Ymestynnodd Cylch Chwarae Hawkesbury eu horiau i ddiwallu anghenion rhieni sy'n gweithio

Estynnodd darpariaeth dan 5 Treuddyn eu horiau i ddiwallu anghenion rhieni sy'n gweithio

Gofal Diwrnod Llawn NEWYDD (wrthi'n cael ei gofrestru) Clwb Bwthyn Bach, Caerwys. Bwriadu agor ym mis Ebrill 2019

Gofal sesiynol NEWYDD (wrthi'n cael ei gofrestru) Kinnerton Little Acorns.

Gofal Diwrnod Llawn NEWYDD (wrthi'n cael ei gofrestru) Ysgol Abermorddu drwy weithio ar y cyd gyda Meithrinfa Ddydd Ieol.

Clwb Gofal Plant Bryn Coch (Cylch Chwarae Playmates yn flaenorol – wedi ymestyn eu horiau

Ymestynnodd Cylch Chwarae Oaktree eu horiau i ddiwallu anghenion rhieni sy'n gweithio

Mae Cylch Chwarae Gwernaffield wedi ymestyn eu horiau i hwyluso'r CO

Mae Sandycroft wedi ymestyn i gynnig gofal cofleidiol a meithrinfa ysgol

Bydd Active Kids Club, ar ôl ymgynghori blaenorol gyda rhieni yn ystod tymor y gwanwyn, yn agor Clwb Gwyliau dros wyliau'r Nadolig

Fel rhan o gymorth i warchodwr plant sy'n dechrau arni, anogir pob gwarchodwr plant i gynnig oriau hyblyg

Mae tîm Gofal Uniongyrchol CSFf wedi nodi wrth iddynt recriwtio gweithwyr gofal yn y cartref eu bod yn gweld fod staff posibl yn cael trafferth cael mynediad i ofal plant er mwyn dechrau gwaith yn gynnar. Mae'r CDO wedi argymell fod ymgeiswyr o'r fath yn cael eu cyfeirio at FISF a fydd yn gallu cynnig rhestr o ddarparwyr gofal plant sy'n cynnig oriau hyblyg neu a allai fod yn barod i ymestyn eu horiau os ydynt yn cael digon o geisiadau i wneud hynny.

- **Enghreifftiau o weithio ar y cyd i gynnig lleoedd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant**

Mae Sir y Fflint wedi llwyddo i dderbyn £4.8 miliwn i gefnogi rhai bylchau yn y sector gofal plant ar gyfer plant 3-4 oed drwy'r CO a chefnogaeth gan bartneriaid gan gynnwys y Tîm Gwella Ysgolion.

Mae gwaith ar y cyd wedi gweld Meithrinfa Ddydd o CBSW yn cymryd cyfrifoldeb am Glwb Ar ôl Ysgol yn Ysgol Estyn, Yr Hôb ac wedi dechrau cynnig clwb gwyliau ar yr un safle. Mae'r un meithrinfa ddydd yn trafod gydag ysgol Abermorddu i gynnig gwasanaeth cofleidiol tebyg.

Mae Ysgol Sychdyn yn gweithio gyda grŵp chwarae Sychdyn i integreiddio'r cylch chwarae ar dir yr ysgol fel eu bod yn gallu cynnig gofal coflediol mewn amgylchedd diogel.

Mae Treuddyn Under Fives wedi symud i fod ar eiddo'r ysgol ac maent wedi ymestyn eu horiau i gefnogi rhieni sy'n dymuno cael mynediad i'r Cynnig Gofal Plant.

Mae Gofal Plant Treffynnon yn codi plant o ysgolion lleol i bontio'r bwlch ym Magillt.

Mae sawl enghraifft o warchodwyr plant a lleoliadau sesiynol sy'n gweithio gyda'i gilydd i gefnogi rhieni gyda'r CO ac EE.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Lleoliad gofal plant | • Mae gwasgariad daearyddol darpariaeth gofal plant yn Sir y Fflint yn dda ac mae'n cyd-fynd â phoblogaeth, cysylltiadau cludiant a nodweddion pob ardal | • Diffyg lleoedd gofal yn ystod gwyliau mewn nifer o leoliadau, ond yn arbennig yr Wyddgrug a Threffynnon. | CDO, CPCKC | • *Datblygu darpariaeth gofal yn ystod gwyliau yn yr Wyddgrug a Threffynnon.* |

**Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2018**

Mae clwb gwyliau newydd wedi cofrestru yn Nhreuddun (darpariaeth ddwyieithog) ac yn cael ei farchnata yn newyddlen Ysgol Glanrafon. Mae'r CDO wedi cynnal trafodaethau gyda'r Urdd ac Ysgol Glanrafon ynghylch darparu clwb gwyliau Cyfrwng Cymraeg yn yr Wyddgrug.

**Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2019**

- Estynnodd Saltney Small Steps eu cofrestriad i gynnwys Clwb Gwyliau i ddiwallu anghenion rhieni sy'n gweithio.
- Ymestynnodd Woody Wraparound eu cofrestriad i gynnwys Clwb Gwyliau i ddiwallu anghenion rhieni sy'n gweithio.
- Mae'r cofrestriad gofal plant newydd yn Ysgol Estyn, Yr Hôb yn cynnwys clwb gwyliau sy'n cael ei reoli gan Feithrinfa Ddydd leol
- Mae Ysgol Glanrafon wedi cadarnhau y byddant yn cynnwys clwb gwyliau fel rhan o'u hadeilad newydd a fydd yn cael ei ariannu drwy gronfa grant Cyfalaf Llywodraeth Cymru. Mae strwythur Rheoli'r clwb gwyliau yn cael ei drafod.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg | • Mae gan bob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint glwb ar ôl ysgol | • 30% yn unig o rieni a gwblhaodd yr arolwg oedd yn credu bod digon o ofal plant cyfrwng Cymraeg ar gael yn y Sir.<br>• Nid oes gan Sir y Fflint unrhyw warchodwyr plant, clybiau gwyliau, crèches, nanis na meithrinfeydd gofal dydd cofrestredig sy'n darparu eu gwasanaethau yn Gymraeg. | Mudiad Meithrin, NDNA, Blynyddoedd Cynnar Cymru (PPA Cymru yn flaenorol), PACEY Cymru, CDO, CPCKC | • *Mae angen mwy o ofal plant cyfrwng Cymraeg o bob math ym mhob ardal yn Sir y Fflint, yn enwedig y rhai sy'n darparu gofal diwrnodau llawn yn ystod y tymor a gwyliau'r ysgol.*<br>• *Dylid annog pob lleoliad gofal plant i ddarparu rhai elfennau dwyieithog, o leiaf* |

**Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2018**

- **Sefydliadau ambarél yn rhoi manylion gwaith a wnaed i annog datblygiad darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Hefyd darparu manylion cyrsiau hyfforddi/ adnoddau sy'n annog lleoliadau i fod yn ddwyieithog.**

Mae'r CDO wedi cynnal trafodaethau gyda'r Urdd a Chorff Llywodraethu Ysgol Glanrafon ynghylch darparu clwb gwyliau Cyfrwng Cymraeg yn yr Wyddgrug.

Mae amserlen hyfforddiant ychwanegol FISF wedi cynnwys dau weithdy 'Hwyl ar y Gymraeg'.

Fel rhan o strategaeth Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 bydd Mudiad Meithrin yn agor lleoliadau newydd ar draws Cymru. Mae Sir y Fflint wedi ei chlustnodi ar gyfer lleoliad newydd a fydd yn agor o fewn y 12-18 mis nesaf.

Mae PPA Cymru wedi cwrdd â'u holl dargedau EDI gan ddarparu cysylltiadau ar gyfer y prosiect gan leoliadau sy'n aelodau, hyrwyddwyd cyrsiau Un Dau Tri, mae cydlynydd y Gymraeg wedi bod yn ymweld â'r rhai a gymerodd ran yn y cyrsiau Un Dau Tri - mae hi'n darparu sesiwn flasu'r Gymraeg a hefyd yn cynnig adnoddau Cymraeg i leoliadau eu defnyddio.  Mae 10 o weithgareddau Cymraeg ar gael drwy becyn ar wefan Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-Ysgol Cymru.

https://www.pacey.org.uk/news-and-views/news/archive/2017-news/september-2017/welsh-language-tool/

Mae gan PACEY Cymru ystod o adnoddau Cymraeg ar gael i gefnogi aelodau, gan gynnwys cefnogi cyflwyno mwy o Gymraeg i'r rhai hynny sy'n llai hyderus.  Caiff adnoddau newydd eu hychwanegu bob mis i'r ardal hon.

Darparwyd gweithdai Hwyl ar y Gymraeg ar amserlen hyfforddiant ychwanegol a ariennir FISF ar gyfer mis Chwefror 2018. Rhoddodd 100% sgôr dda/ardderchog i'r cwrs a rhoddodd 100% sgôr ardderchog i'r tiwtor.  Rhai o'r sylwadau oedd “wedi mwynhau hwn yn fawr, mae'r adnoddau'n help mawr”, “gwych, wedi mwynhau sesiwn heno'n fawr”.

Gwaith datblygu gwarchodwyr plant – wedi cynnwys targedu sesiynau Ti a Fi Cymraeg i geisio recriwtio siaradwyr Cymraeg i ystyried gwarchod plant.

Mae 4 o feithrinfeydd dydd yn Sir y Fflint wedi derbyn hyfforddiant Cymraeg Un Dau Tri - hwyl a sbri a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac wedi cael cymorth gan weithiwr cefnogi'r Gymraeg NDNA o fewn y flwyddyn ddiwethaf.

**Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2019**

- **Sefydliadau ambarél yn rhoi manylion gwaith a wnaed i annog datblygiad darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Hefyd darparu manylion cyrsiau hyfforddi/ adnoddau sy'n annog lleoliadau i fod yn ddwyieithog.**

GWIRIWR – mae Blynyddoedd Cynnar Cymru yn cynnig cefnogaeth i'r lleoliadau hynny sy'n cwblhau targed GWIRIWR ar gyfer Sir y Fflint, sef fod 12 o staff yn cwblhau pob un o'r 4 adran. Rhagorwyd ar hyn gydag 17 yn ei gwblhau.  Darparodd Blynyddoedd Cynnar Cymru ac NDNA gefnogaeth ac arweiniad ar y cyrsiau hyfforddi peilot i baratoi am y gyfres o gyrsiau hyfforddiant Cymraeg newydd a fydd ar gael yn 2019. Mae amryw o adnoddau Cymraeg ar gael ar wefan Blynyddoedd Cynnar Cymru.

Mae'r Mudiad Meithrin yn derbyn cyllid gan FISF ac Addysg Bore Oes i ddarparu a hyrwyddo gofal plant cyfrwng Cymraeg ar draws y Sir.

- Rhai o'r datblygiadau newydd yw cylch Ti a Fi newydd yn Helygain.
- Mae cynlluniau ar y gweill i agor Cylch Meithrin newydd ym Mwcle ar ôl Pasg 2019, i ymuno â chylch Ti a Fi Bwcle sydd wedi symud i'r un safle yn ddiweddar.
- Mae cais llwyddiannus am gyfalaf wedi ei wneud i gael estyniad i Ysgol Glanrafon a fydd yn cynnwys adeilad newydd i gynnwys gofal plant a'r blynyddoedd cynnar.
- Mae cais llwyddiannus arall am galaf wedi'i wneud i ymestyn/ gwella'r ddarpariaeth yn Shotton
- Mae Cylch Meithrin Terrig wedi ymestyn eu horiau ac maent bellach ar agor o 8.00am tan 3.00pm bob dydd ac maent ar hyn o bryd yn ymchwilio i ymarferoldeb ymestyn yr oriau hyd yn oed ymhellach.

Cefnogaeth PACEY Cymru -

- Cynhaliodd PACEY Cymru ddigwyddiad ar 17 Tachwedd ym Mhorth Eirias gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru a oedd yn agored i bob darparwr gofal plant. Nod y digwyddiad oedd edrych am syniadau ar sut i gyflwyno mwy o eirfa Cymraeg drwy gydol ymarferion i gefnogi dysgu gan blant. Bydd yr hyfforddiant yn addas i unigolion sydd ag ychydig iawn o sgiliau Cymraeg, dysgwyr Cymraeg neu siaradwyr Cymraeg rhugl a chafodd ei gynllunio i alluogi'r rhai a oedd yn bresennol i ddefnyddio'r iaith yn eu lleoliadau.
- Mae PACEY Cymru ynghyd â phartneriaid CWLWM yn parhau i hyrwyddo a recriwtio cyfranogwyr ar gyfer Gwiriwr – gwiriwr lefel dysgu Cymraeg, sy'n adnodd diagnostig sydd wedi'i ddylunio i helpu'r gweithlu Gofal Plant, Blynyddoedd Cynnar a Gwaith Chwarae i nodi eu lefel bresennol o allu o ran y Gymraeg yn gywir. Mae'n seiliedig ar gwblhau gweithgareddau ar ddarllen, ysgrifennu, gwrando, a siarad. Mae rhywfaint o wybodaeth ar http://www.cwlwm.org.uk/wheres-your-welsh-at/
- Mae PACEY Cymru yn cynnal gweminarau i gefnogi gwarchodwyr plant sy'n cymryd rhan yn y cynllun Gwiriwr, sydd wedi cael croeso mawr gan gynnwys oddi wrth gyfranogwyr yn Sir y Fflint.
- Cymraeg Gwaith - Nod y cynllun yw bod partneriaid CWLWM yn cydweithio ac yn gwneud i unigolyn ddefnyddio (yn ôl eu harbenigedd) i ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu ymhellach. Ariennir y cynllun gan Lywodraeth Cymru drwy Ganolfan Ddysgu Cymraeg Genedlaethol Cymru. Prif nod y cynllun yw sicrhau bod y gweithlu'n derbyn cyfleoedd amrywiol i ddysgu a datblygu eu gallu yn y Gymraeg, er mwyn gallu defnyddio'r iaith yn hyderus yn y gweithle a'r tu hwnt. Roedd cyrsiau peilot yn cynnwys cwrs 10 wythnos a gynhaliwyd yn Sir y Fflint, lle'r oedd gwarchodwr plant cofrestredig lleol hefyd yn bresennol (ynghyd â lleoliadau eraill).
- Mae PACEY Cymru wedi datblygu adnoddau ar-lein ymhellach i gefnogi gwarchodwyr plant gyda Datblygu'r Gymraeg. Tynnwyd y rhain ynghyd i Ganolbwyntio ar Ddatblygu'r Gymraeg yn https://www.pacey.org.uk/welsh-language-development/

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *Darpariaeth gofal plant ar gyfer categorïau ieithoedd gwahanol* | • Nid oes darpariaeth gofal plant ar gael yn Sir y Fflint mewn ieithoedd ar wahân i Gymraeg neu Saesneg, ac ychydig iawn o alw sydd amdani yn ôl data FISF. | • Dim ond un rhiant gydag iaith arall gwblhaodd yr arolwg i rieni | | • *Dylid cefnogi lleoliadau er mwyn annog teuluoedd ag ieithoedd eraill i ddefnyddio lleoliadau gofal plant sefydledig.*<br>• *Gwella cefnogaeth i rieni sy'n cwblhau'r arolwg ar-lein honno i rieni* |

**Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2018**

- Mae'r tîm CO wedi nodi fod teuluoedd gydag ieithoedd eraill wedi manteisio ar y cynnig gofal plant gan gynnwys Rwsieg a Phwyleg. Mae'r tîm FISF hefyd wedi derbyn nifer o Geisiadau am Grantiau lleoedd a gynorthwyir gan deuluoedd gydag ieithoedd eraill. Bydd staff FISF yn cefnogi pob rhiant gyda'r arolwg ar-lein i rieni neu unrhyw ffurflenni cais am grant FISF beth bynnag eu hethnigrwydd, cenedligrwydd neu iaith.

- Hyrwyddodd CDO yr arolwg Rhieni CSA drwy nifer o rwydweithiau cefnogaeth lleiafrifol gyda chymorth gan Fiona Mocko, (Swyddog Datblygu Polisi CSFf – Cydraddoldeb)

**Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2019**

- **Dylid cefnogi lleoliadau er mwyn annog teuluoedd ag ieithoedd eraill i ddefnyddio lleoliadau gofal plant sefydledig.**
  Mae'r tîm CO a'r tîm FISF yn parhau i gefnogi teuluoedd gydag ieithoedd eraill i'w galluogi i gael mynediad i'w gwasanaethau.

**Materion yn wynebu categorïau penodol o rieni mewn perthynas ag argaeledd darpariaeth gofal plant**

| Categori | Cryfderau | Gwendidau | I'w weithredu gan | Blaenoriaethau |
|---|---|---|---|---|
| Rhieni sy'n gweithio | • Mae fforddiadwyedd gofal plant yn bryder allweddol i'r rhieni hynny sy'n gweithio a'r rhai sy'n ystyried dychwelyd i'r gwaith neu addysg.<br>Bydd Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru ar gyfer rhai 3 a 4 oed yn cynorthwyo nifer o'r teuluoedd hyn sy'n gweithio | • Mae nifer fechan o leoliadau gofal plant heb eu cofrestru gydag AGC felly ni all rhieni gael mynediad at elfen gofal plant y credydau treth gwaith neu ddefnyddio cynlluniau talebau gofal plant (i gael ei ddisodli gyda'r cynllun Gofal Plant Di-dreth).<br>• Diffyg hyblygrwydd a fforddiadwyedd gofal plant yw'r prif rwystrau a wynebir gan rieni sy'n gweithio, yn arbennig y rhai sy'n gweithio oriau annodweddiadol h.y. gweithwyr shifft a'r rhai hynny sy'n gweithio ar y penwythnos neu dros nos<br>• Nid yw'r rheini sy'n gweithio sydd angen darpariaeth gofal diwrnod llawn yn gallu cael mynediad at unrhyw ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Blynyddoedd Cynnar Cymru (PPA Cymru yn flaenorol), Mudiad Meithrin, NDNA, PACEY Cymru | • *Mae angen hyfforddiant a chefnogaeth ddigonol ar leoliadau heb eu cofrestru i'w galluogi i gofrestru gydag AGC.*<br>• *Er mwyn bodloni anghenion gofal plant y rhai sy'n gweithio oriau annodweddiadol, mae angen mwy o ofal plant cyn 8am, ar ôl 6pm, dros nos ac ar benwythnosau.*<br>• *Mae angen mwy o ofal plant cyfrwng Cymraeg o bob math ym mhob ardal yn Sir y Fflint, yn enwedig y rhai sy'n darparu gofal diwrnodau llawn yn ystod y tymor a gwyliau'r ysgol.* |

**Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2018**

- **CDO a sefydliadau ambarél yn rhoi manylion hyfforddiant a chefnogaeth sydd ar gael i'r rhai sy'n awyddus i gofrestru gydag AGC**

Cysylltir â PPA Cymru sydd yna'n anfon gweithiwr datblygu i ymweld a chynorthwyo gyda ffurflenni cofrestru.

Mae gan Mudiad Meithrin Weithiwr Cefnogi penodol i Sir y Fflint a fydd yn gweithio gyda phwyllgorau i gofrestru gydag AGC. Yn arbennig, mae gwaith yn cael ei wneud i gofrestru pob lleoliad fel CIO ac ailgofrestru gyda CIW gydag unigolyn Cyfrifol yn hytrach na pherson cofrestredig.

Ariennir PACEY Cymru gan yr awdurdod lleol i ddarparu ystod o wasanaethau cyn-gofrestru, gan gynnwys sesiynau briffio / cyrsiau CYPOP5 / gweithdai cefnogi cyn-gofrestru, cymorth dros y ffôn/ drwy e-bost, a sesiynau cymhorthfa gyngor unigol, ynghyd â gwybodaeth grant sefydlu. Mae NDNA yn cynnig cefnogaeth a chanllawiau i'r rhai sy'n gwneud ymholiadau ynglŷn â dechrau meithrinfa ddydd.

Mae NDNA yn cynnig nifer o daflenni ffeithiau am ddim sy'n cynnig cyngor a chyfarwyddyd i rieni – e.e. dewis eich meithrinfa ddydd, canllaw i ddwyieithrwydd: http://www.ndna.org.uk/NDNA/Stakeholders/Parents_resources/Parents_Factsheets.aspx

- **Sut mae CDO a'r sefydliadau ambarél yn mynd ati'n ymarferol i annog lleoliadau i ymestyn eu horiau / bod yn fwy hyblyg**

Mae'r CDO wedi gweithio gyda'r Urdd ac Ysgol Glanrafon ynghylch clwb gwyliau Cyfrwng Cymraeg posibl yn yr Wyddgrug.

Mae pob sefydliad ambarél yn mynd i gyfarfodydd Grŵp Cynghori CO ac yn ymwybodol o bwysigrwydd hyrwyddo darpariaeth hyblyg ar gyfer rhieni sy'n gweithio ar draws y Sir.

- **Sefydliadau ambarél yn rhoi manylion ynglŷn â sut y gallant gefnogi'r rhai hynny sydd â diddordeb mewn darparu gwasanaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg**

Cefnogir pob lleoliad a gofrestrir gyda'r Mudiad Meithrin gan Swyddog Cefnogi sy'n cynnig cefnogaeth ac arweiniad ar bob agwedd ar redeg y Cylch Meithrin. Rhoddir pwyslais penodol ar ddatblygiad iaith drwy gynllun iaith Croesi'r Bont sy'n olrhain cynnydd pob plentyn yn y Gymraeg ers dechrau yn y Cylch.

Mae PPA Cymru yn annog y defnydd o'r Gymraeg ac yn cynnig adnoddau defnyddiol.

Mae PACEY Cymru yn cynnig adnoddau a hyfforddiant dwyieithog.  Yn gynwysedig yn y gwaith datblygu gofalwyr plant wedi oedd targedu gweithgareddau Cymraeg fel Ti a Fi, hefyd ymgysylltu â Menter Iaith Sir y Fflint i helpu hyrwyddo gwarchod plant fel gyrfa.

**Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2019**

- **CDO a sefydliadau ambarél yn rhoi manylion hyfforddiant a chefnogaeth sydd ar gael i'r rhai sy'n awyddus i gofrestru gydag AGC**

**Mae PACEY Cymru yn cynnig gwaith datblygu gwarchodwyr plant a chefnogaeth cyn-gofrestru er mwyn annog gwarchodwyr plant newydd. Cynhaliwyd dau gwrs CYPOP5 yn ystod y flwyddyn - un ym mis Hydref 2018 a'r llall ym mis Mawrth 2019**

Mae Blynyddoedd Cynnar Cymru yn cynnig cefnogaeth i leoliadau gyda chofrestriad AGC naill ar gydag ymweliad gan swyddog datblygu neu gymorth swyddfa.  Oherwydd fod darpariaeth newydd wedi ei sefydlu a'r newidiadau mae darparwyr yn eu gwneud i'w statws cyfreithiol, mae **14** o ddarparwyr wedi cael cefnogaeth gyda chofrestriad AGC. Ar hyn o bryd, mae cefnogaeth yn cael ei ddarparu i Ysgol Abermorddu ac Ysgol Yr Esgob, Caerwys sy'n agor darpariaeth newydd yn fuan.

Mae'r CDO ar hyn o bryd yn cefnogi Ysgol Gynradd Gatholig St. Anthony, Saltney i gael eu cofrestru gydag AGC

- **Sut mae CDO a'r sefydliadau ambarél yn mynd ati'n ymarferol i annog lleoliadau i ymestyn eu horiau / bod yn fwy hyblyg**

**Yn y sesiwn Friffio a drwy gydol y broses gofrestru, mae PACEY Cymru'n annog gwarchodwyr plant newydd i ystyried cynnig oriau gweithio hyblyg i gwrdd ag anghenion rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol.**

**Drwyddi draw, mae pob sefydliad gofal plant ambarél yn cefnogi lleoliadau i ystyried egluro eu horiau mewn modd cynaliadwy**

- **Sefydliadau ambarél yn rhoi manylion ynglŷn â sut y gallant gefnogi'r rhai hynny sydd â diddordeb mewn darparu gwasanaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg**

Mae **PACEY Cymru** yn cynnig adnoddau a hyfforddiant dwyieithog.  Mae gwaith datblygu gwarchodwyr plant yn 2018-19 wedi parhau i dargedu gweithgareddau Cymreig fel Ti a Fi i annog siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i ystyried gyrfa fel gwarchodwr plant.

**Blynyddoedd Cynnar Cymru**

- Ymwelodd Blynyddoedd Cynnar Cymru â lleoliadau oedd wedi cwblhau cyrsiau Un, Dau Tri i gynnig cefnogaeth ychwanegol ynghylch darllen Cymraeg yn hyderus, gweithgareddau chwarae Cymraeg a darparu adnoddau Cymraeg ychwanegol iddynt

- Wedi hyrwyddo’r Cynnig Gweithredol, wedi rhannu gwybodaeth ar fendithion enwebu siaradwr Cymraeg i wisgo'r cortyn gwddf a’r bathodyn fel bod modd eu hadnabod os oes rhywun eisiau siarad Cymraeg.

- Rhannu llyfrau dwyieithog Dechrau Da i'r lleoliadau eu defnyddio gyda’u teuluoedd

- Wedi ymweld â lleoliadau i’w cefnogi i gwblhau’r Gwiriwr iaith (17 wedi eu cwblhau)

Mae gan **Mudiad Meithrin** Swyddog Cefnogi lleol a fydd yn cynghori a chynorthwyo ym mhob agwedd o redeg Cylch drwy gynnig cefnogaeth reolaidd dros y ffôn, drwy e-bost ac ymweliadau cymorth. Mae Mudiad Meithrin hefyd yn cyflogi swyddog cefnogi ar gyfer y grwpiau Ti a Fi a Swyddog Croesi’r Bont arall drwy gyllid addysg. Eleni bydd canllawiau rheoli newydd wedi’u diweddaru’n cael eu lansio - Llyfr Mawr Piws – canllaw ymarferol i helpu staff a phwyllgorau yng ngweithrediad y cylch o ddydd i ddydd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhieni’n ceisio cyfleoedd gwaith neu hyfforddiant | • Mae Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) yn darparu cyllid ar gyfer Gofal Plant i gefnogi rhieni / gwarcheidwaid sy’n ceisio cyfleoedd gwaith neu hyfforddiant, pan mai Gofal Plant yw’r prif rwystr | | FISF, PaCE, NDNA | • *Parhau i hyrwyddo’r prosiect PaCE* |

**<u>Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2018</u>**

Mae FISF yn parhau i weithio gyda PaCE i hyrwyddo’r gwasanaeth i rieni pan eu bod yn ymholi ynghylch gofal plant os ydynt yn dymuno dychwelyd i waith. Rydym ar hyn o bryd yn ymwybodol fod PaCE yn Sir y Fflint yn cymryd rhan ymarferol gyda / yn cefnogi 94 o gyfranogwyr ar draws tri ymgynghorydd.

Mae NDNA Cymru yn cynnal prosiect cyflogaeth a gefnogir ‘Mae Gofal Plant yn Gweithio’ ar gyfer unigolion di-waith dros 50 oed sy’n byw yn Sir y Fflint, ac yn cynnig 16 wythnos o gyflogaeth â chymorth am dâl am 16 awr yr wythnos i gynnwys gweithdai hyfforddiant penodol i ofal plant a lleoliadau o fewn lleoliadau gofal plant.

Mae ANELU'N UCHEL yn brosiect a ariennir gan y Gronfa’r Loteri Fawr i gefnogi rhieni ifanc neu rieni ifanc beichiog* (* sy’n feichiog ers o leiaf 29 wythnos) 14 i 25 oed ar draws Sir y Fflint a Wrecsam.

Yn ystod 2017 – 2018, roedd wedi cefnogi 116 o gyfranogwyr. Mae’r prosiect yn pryderu am y diffyg cyllid ar gyfer gofal plant i ganiatáu rhieni oedran ysgol i ddychwelyd i astudio. Hefyd, nid oes hawl gan rieni ifanc sy’n derbyn cyllid ar gyfer gofal plant yn y coleg i ddefnyddio cludiant coleg ar gyfer eu plant.

**Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2019**

- **Parhau i hyrwyddo’r prosiect PaCE**

  Daeth y prosiect Anelu'n Uchel i ben yn gynharach eleni yn unol â’i amserlen ariannu.

  Mae’r Rheolwr FISF wedi cwrdd â PaCE ym mis Chwefror 219 i ystyried ailwampio’r rhaglen drwy nodi nifer o feysydd i’w gwella, yn arbennig ynghylch hyrwyddo ac adborth. Un awgrym yw fod Swyddogion Gwybodaeth FISF yn cynnal gwaith estyn allan, yn arbennig o amgylch Gogledd Sir y Fflint wledig a’r pentrefi gwledig o amgylch yr Wyddgrug, i ategu’r gwaith a wnaed gan y tîm PaCE. Hefyd, mae PaCE yn ymwybodol o’r CSA ac yn gallu bwydo yn ôl i ni unrhyw sylwadau sydd ganddynt ar ddarpariaeth gofal plant i ffurfio tystiolaeth.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Aelwydydd di-waith | • Ni chyfeiriodd unrhyw fudd-ddeiliaid at hwn fel rhwystr gan nad yw'r mwyafrif o aelwydydd di-waith yn defnyddio gofal plant, ar wahân i’r rhai hynny sydd â hawl i ofal plant Dechrau'n Deg neu Addysg y Blynyddoedd Cynnar a ariennir | | FISF, PaCE | • *Parhau i hyrwyddo’r prosiect PaCE* |

**Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2018**

Mae FISF yn parhau i weithio gyda Dechrau'n Deg, Hawl Bore Oes a PaCE i hyrwyddo’r gwasanaethau hyn i rieni pan eu bod yn holi ynghylch gofal plant.

Mae’r CDO wedi bod i nifer o gyfarfodydd cyfathrebu’r Ganolfan Byd Gwaith ar draws Sir y Fflint i hyrwyddo gwasanaethau FISF, y CO a gwarchod plant fel dewis gyrfa.

**Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2019**

- **Parhau i hyrwyddo'r prosiect PaCE**
  Mae FISF yn parhau i weithio gyda PaCE, Dechrau'n Deg a Hawl Bore Oes i hyrwyddo'r gwasanaethau hyn i rieni pan eu bod yn holi ynghylch gofal plant.

  Mae'r CDO wedi bod i bedwar sesiwn Rhiant Sengl yng Nghanolfan Byd Gwaith yr Wyddgrug i hyrwyddo FISF, DEWIS, y Cynnig Gofal Plant a gyrfaoedd mewn gwarchod plant.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Teuluoedd ar incwm isel | • Mae fforddiadwyedd yn rhwystr i deuluoedd ar incymau isel a chroesawodd rhai budd-ddeiliaid ymrwymiad parhaus Sir y Fflint i ddarparu cyllid Lleoedd a Gynorthwyir | • Gall y broses weinyddol weithiau oedi neu eithrio rhai teuluoedd ar incymau isel rhag ceisio am gyllid neu gredydau treth. | FISF, Jobcentreplus, | • *Dylai cefnogaeth i gwblhau ceisiadau am gyllid Lleoedd a gynorthwyir a chredydau treth fod ar gael i bawb* |

**<u>Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2018</u>**

Bydd FISF yn cyfeirio rhieni i Hawliau Lles a'r Ganolfan Byd Gwaith os oes cwestiynau ganddynt ynghylch credydau treth a budd-daliadau eraill.

Mae staff FISF a'r CDO yn cefnogi rhieni dros y ffôn neu drwy e-bost neu eu gwahodd i Sir y Fflint yn Cysylltu i'w cefnogi i gwblhau ffurflenni grantiau Lleoedd a Gynorthwyir.

**<u>Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2019</u>**

- **Dylai cefnogaeth i gwblhau ceisiadau am gyllid Lleoedd a gynorthwyir a chredydau treth fod ar gael i bawb**

Mae FISF yn derbyn hyfforddiant yn ymwneud â budd-daliadau a chyllid ar gyfer teuluoedd incwm isel ac yn gallu eu cyfeirio a'u cefnogi i geisio am gyllid.

Mae'r CDO yn gweinyddu taliadau'r grant Lleoedd a Gynorthwyir o gyllideb Gofal Plant CSFf a'r grant Gofal Plant Tu Allan i'r Ysgol Llywodraeth Cymru gyda'r ddau grant yn ariannu lleoedd ar gyfer 125 o blant yn ystod y tymor a 40 o blant yn ystod gwyliau'r ysgol ar gyfer 2018 /19.

Mae Blynyddoedd Cynnar Cymru yn parhau i gefnogi gweinyddiaeth Cynllun Lleoedd a Gynorthwyir yn Sir y Fflint gyda 63 i blant yn derbyn cefnogaeth ar gyfer 2018/19

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Teuluoedd â rhiant sengl | • Mae fforddiadwyedd yn rhwystr i deuluoedd rhiant sengl a chroesawodd rhai budd-ddeiliaid ymrwymiad parhaus Sir y Fflint i ddarparu cyllid Lleoedd a Gynorthwyir | • Gall y broses weinyddol weithiau oedi neu eithrio rhai teuluoedd â rhiant sengl rhag ceisio am gyllid neu gredydau treth. | FISF, Canolfan Byd Gwaith, | • *Dylai cefnogaeth i gwblhau ceisiadau am gyllid Lleoedd a gynorthwyir a chredydau treth fod ar gael i bawb* |

**<u>Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2018</u>**

Bydd FISF yn cyfeirio rhieni i Hawliau Lles a'r Ganolfan Byd Gwaith os oes cwestiynau ganddynt ynghylch credydau treth a budd-daliadau eraill.

Mae staff FISF a'r CDO yn cefnogi rhieni dros y ffôn neu drwy e-bost neu eu gwahodd i Sir y Fflint yn Cysylltu i'w cefnogi i gwblhau ffurflenni grantiau Lleoedd a Gynorthwyir.

**<u>Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2019</u>**

- **Dylai cefnogaeth i gwblhau ceisiadau am gyllid Lleoedd a gynorthwyir a chredydau treth fod ar gael i bawb**

Mae FISF yn derbyn hyfforddiant yn ymwneud â budd-daliadau a chyllid ar gyfer teuluoedd incwm isel ac yn gallu eu cyfeirio a'u cefnogi i geisio am gyllid.

Mae'r CDO yn gweinyddu taliadau'r grant Lleoedd a Gynorthwyir o gyllideb Gofal Plant CSFf a'r grant Gofal Plant Tu Allan i'r Ysgol Llywodraeth Cymru gyda'r ddau grant yn ariannu lleoedd ar gyfer 125 o blant yn ystod y tymor a 40 o blant yn ystod gwyliau'r ysgol ar gyfer 2018. Ym mis Ionawr 2019, nid oedd unrhyw gyllid pellach ar gael o'r gronfa grant Tu Allan i Oriau Ysgol ar gyfer y grant lleoedd a gynorthwyir a gofynnodd y CDO wrth Lywodraeth Cymru a oedd modd ceisio am gyllid pellach.  Hoffem ddiolch i Lywodraeth Cymru am eu hymateb prydlon, gan fod modd iddynt ryddhau grant pellach o £5,000 a oedd yn galluogi'r CDO i gefnogi 19 o blant pellach i dderbyn gofal plant yn ystod y tymor a 7 o blant eraill i dderbyn gofal gwyliau yn ystod tymor y Gwanwyn.

Mae'r CDO wedi bod i bedwar sesiwn Rhiant Sengl yng Nghanolfan Byd Gwaith yr Wyddgrug i hyrwyddo FISF, DEWIS, y Cynnig Gofal Plant a gyrfaoedd mewn gwarchod plant.

**Mae Blynyddoedd Cynnar Cymru yn parhau i gefnogi gweinyddiaeth Cynllun Lleoedd a Gynorthwyir yn Sir y Fflint gyda 63 i blant yn derbyn cefnogaeth ar gyfer 2018/19**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Teuluoedd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol | | • Gall y broses weinyddol weithiau oedi neu eithrio rhai teuluoedd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol rhag ceisio am gyllid neu gredydau treth. | FISF, Canolfan Byd Gwaith, | • *Dylai cefnogaeth i gwblhau ceisiadau am gyllid Lleoedd a gynorthwyir a chredydau treth fod ar gael i bawb* |

**<u>Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2018</u>**

Mae FISF yn gweithio gyda, ac yn gwneud atgyfeiriadau i, BAWSO, Achub y Teulu, DASU, Daffodils ac asiantaethau eraill

**<u>Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2019</u>**

- **Dylai cefnogaeth i gwblhau ceisiadau am gyllid Lleoedd a gynorthwyir a chredydau treth fod ar gael i bawb**

Mae FISF yn parhau i weithio gydag amryw o asiantaethau ar draws Sir y Fflint i sicrhau bod teuluoedd o grwpiau ethnig lleiafrifol yn derbyn cefnogaeth i geisio am gyllid Lleoedd a Gynorthwyir a budd-daliadau eraill i deuluoedd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Teuluoedd sydd â phlant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd | • Ni chyfeiriodd unrhyw fudd-ddeiliad at hyn fel rhwystr, gan fod darpariaeth i blant gydag anghenion addysgol arbennig neu anabledd yn dda iawn yn Sir y Fflint<br>• Mae cymorth ariannol ar gael drwy'r grantiau Dwylo Ychwanegol i gyflogi staff ychwanegol i integreiddio'r plant hyn o fewn y lleoliad. | | FISF, Blynyddoedd Cynnar Cymru (PPA Cymru yn flaenorol), Swyddog Broceriaeth Gofal Plant | • *Parhau i hyrwyddo'r grant Dwylo Ychwanegol ymhlith rhieni a lleoliadau gofal plant*<br>• *Defnyddio'r grant AAA ar gyfer y cynnig gofal plant a ariennir.* |

**<u>Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2018</u>**

Mae Lynne Mort o FISF a Jackie Dines o PPA Cymru yn cefnogi rhieni a lleoliadau i gael mynediad i'r grant Dwylo Ychwanegol.

Mae 37 o blant wedi cael cefnogaeth un i un o fis Ebrill 2017 i fis Mawrth 2018 gydag 11 yn cael eu hariannu o'r grant Clybiau y Tu Allan i'r Ysgol, 23 wedi eu hariannu o'r grant Gofal Plant a 3 o'r grant CO AAA.

Derbyniodd un gwarchodwr plant Grant Cynhwysiant, a ariennir gan y grant OOSC, i ddarparu ramp ar gyfer ei lleoliad.

Roedd cyfarfod Rhanbarthol lleol y Gogledd Ddwyrain ym mis Chwefror 2017 yn canolbwyntio ar gynhwysiant gyda Lynne Mort yn siaradwr gwadd i godi ymwybyddiaeth am y pecyn cynhwysiant a chefnogaeth Lynne, a rhannu arfer da gyda chymheiriaid.

Roedd 37 o'r 4,107 o blant a phobl ifanc yn mynychu Cynlluniau Chwarae'r Haf yn ystod gwyliau haf 2017 yn cael eu cefnogi gan y system Cyfaill.

**<u>Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2019</u>**

- **Parhau i hyrwyddo'r grant Dwylo Ychwanegol ymhlith rhieni a lleoliadau gofal plant**

Mae Lynne Mort o FISF a Jackie Dines o Blynyddoedd Cynnar Cymru wedi parhau i gefnogi rhieni a lleoliadau i gael mynediad at y grantiau Dwylo Ychwanegol hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2018 pan adawodd Lynne Mort ei swydd gyda CSFf fel Swyddog Broceriaeth Gofal Plant.  O

fis Ionawr tan fis Mawrth 2019, comisiynwyd Jackie Dines drwy Flynyddoedd Cynnar Cymru i ddarparu elfennau swydd y Swyddog Broceriaeth Gofal Plant sydd wedi cynnwys cefnogi rhieni a lleoliadau gyda cheisiadau am grant Dwylo Ychwanegol.

Mae'r CDO yn gweinyddu taliad y grant Dwylo Ychwanegol o gyllideb Gofal Plant CSFf ar gyfer rhai nad ydynt yn aelodau o Flynyddoedd Cynnar Cymru a grant Gofal Plant Tu Allan i'r Ysgol Llywodraeth Cymru, gyda'r ddau grant yn ariannu lleoedd ar gyfer 19 o blant yn ystod 2018 /19. Galluogodd cymorth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru tuag at ddiwedd cyfnod ariannu'r CDO i brosesu 3 grant pellach i gefnogi plant yn ystod tymor y Gwanwyn. Unwaith eto, diolch yn fawr, ar ran y teuluoedd hyn o Sir y Fflint, i Lywodraeth Cymru am y cymorth ariannol ychwanegol hwn.

Mae'r CDO hefyd yn prosesu'r taliadau AAA CO.  Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, mae 14 teulu wedi elwa ar daliadau grant Dwylo Ychwanegol ac mae dau leoliad wedi derbyn grant Cyfarpar / adnoddau i gefnogi plentyn CO yn eu lleoliad.

Cefnogodd Blynyddoedd Cynnar Cymru 11 o blant gyda chymorth un i un o fis Ebrill 2018 tan fis Mawrth 2019, a ariannwyd drwy grant Gofal Plant CSFf.

- **Defnyddio'r grant AAA ar gyfer y cynnig gofal plant a ariennir.**

  *Bu gwaith ar y cyd rhwng asiantaethau (EE a FISF) i annog dull cyson o ddyrannu cyllid cefnogi ADY rhwng cynlluniau, yn arbennig gan y gallai'r un plant fod yn cael mynediad at gyllid o ddwy ffynhonnell. Mae EE a FISF wedi adolygu eu ffurflenni cais am gyllid ar gyfer y grantiau ADY er mwyn cryfhau cysondeb a diwallu anghenion gorau'r plentyn.*

**<u>Materion eraill i'w hadlewyrchu yn y cynllun gweithredu</u>**

| Categori | Cryfderau | Gwendidau | I'w weithredu gan | Blaenoriaethau |
|---|---|---|---|---|
| Cynaliadwyedd y sector gofal plant | • Mae'r Grant OOSC yn ariannu oriau gweithiwr datblygu, grantiau cynaliadwyedd ac atodlen hyfforddiant.<br>• Grant Gofal Plant CSFf | • Straen ariannol cynyddol ar leoliadau, er enghraifft y cyflog byw, costau rhent, gofynion pensiwn, cyfleustodau a threthi busnes. | CDO, FISF, Blynyddoedd Cynnar Cymru (PPA Cymru yn flaenorol), Mudiad Meithrin, CPCKC, NDNA, PACEY | • *Sicrhau cyllid parhaus ar gyfer y sector.*<br>• *Hyrwyddo'r grantiau sydd ar gael i leoliadau a* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | yn ariannu sefydliadau ambarél i gefnogi lleoliadau gofal plant<br>• Gall rhieni gael mynediad at gymorth ariannol fel credydau treth, cynlluniau a gefnogir gan gyflogwyr a grantiau lleoedd a gynorthwyir. | • Gofyniad cynyddol ar leoliadau i lenwi dogfennau rheoleiddio gofynnol yn ddigidol e.e. SASS 1 a 2.<br>• Y nifer fawr o leoliadau sy'n gweithredu dan bwyllgorau rheoli gwirfoddol, gyda newidiadau blynyddol i'r aelodaeth. | Cymru | *rhieni yn gyson.*<br>• *Buddsoddiad parhaus mewn cefnogaeth TG i leoliadau sy'n cwblhau SASS Rhan 1 a 2* |

**Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2018**

Yn ystod 2017 – 2018 dyfarnodd y grant OOSC 4 o grantiau cynaliadwyedd a dyfarnodd grant Gofal Plant CSFf 12 o grantiau cynaliadwyedd i gefnogi. Bydd y ddwy ffrwd grantiau hyn ar gael yn ystod 2018 – 2019 i gefnogi lleoliadau gofal plant ar draws Sir y Fflint.

Nododd adroddiad dadgofrestru PACEY Cymru ym mis Chwefror 17 fod rhai gwarchodwyr plant yn teimlo y dylent fod wedi meddwl mewn modd mwy masnachol. Yn sgil y canfyddiadau hyn, mae PACEY Cymru wedi sefydlu galwadau rheolaidd ar gyfer gwarchodwyr plant sydd newydd gofrestru a rhoi cyflwyniad byr i weminar gefnogi cofrestriadau newydd.  Yn ogystal â hyn, mae'r awdurdod lleol yn ariannu PACEY Cymru i ddarparu 'gweithdy cefnogaeth i rai sydd Newydd Gofrestru' (o fewn rhaglen hyfforddiant ychwanegol FISF) i helpu gwarchodwyr plant newydd gyda chynaliadwyedd busnes drwy ganolbwyntio ar farchnata a rhedeg eu busnes newydd yn ogystal â pharatoi am eu harchwiliad cyntaf.

Mae pob sefydliad ambarél wedi hyrwyddo'r grantiau cynaliadwyedd a'r grantiau lleoedd a gynorthwyir yn gyson gyda mwy yn manteisio ar y ddau grant yma yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Mae NDNA Cymru wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar y cynllun gostyngiadau trethi i fusnesau bach, a fydd yn cefnogi cynaliadwyedd meithrinfeydd dydd preifat.

Mae CPCKC wedi sicrhau cyllid gan sefydliad Moonlight i ariannu Swyddog Datblygu Busnes Gofal Plant Peripatetig i gefnogi lleoliadau OSC yn Sir y Fflint am un diwrnod yr wythnos.

Mae FISF wedi prynu chwe gliniadur y gellir eu rhoi ar fenthyg am ddim i leoliadau gofal plant i gynorthwyo i gwblhau SASS 1 a 2

**Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2019**

- **Sicrhau cyllid parhaus ar gyfer y sector.**
  Yn ystod 2018 – 2019 dyfarnodd y grant OOSC 8 o grantiau cynaliadwyedd a dyfarnodd grant Gofal Plant CSFf 9 o grantiau cynaliadwyedd i gefnogi. Bydd y ddwy ffrwd grantiau hyn ar gael yn ystod 2019 – 2020 i gefnogi lleoliadau gofal plant ar draws Sir y Fflint.

  Cyhoeddodd PACEY Cymru Restr o warchodwyr plant a ddadgofrestrwyd Restr o warchodwyr plant a ddadgofrestrwyd sy'n dangos y gwaith a wnaed yn erbyn argymhellion adroddiad dadgofrestru gwarchodwr plant yn 2017. Yn sgil y canfyddiadau hyn, mae PACEY Cymru wedi sefydlu galwadau rheolaidd ar gyfer gwarchodwyr plant sydd newydd gofrestru a rhoi cyflwyniad byr i weminar gefnogi cofrestriadau newydd. Yn ogystal â hyn, mae'r awdurdod lleol yn ariannu PACEY Cymru i ddarparu cefnogaeth i rai sydd Newydd Gofrestru fel gwarchodwyr plant, sydd wedi symud i fodel cymhorthfa gyngor yn hytrach na gweithdy er mwyn cynnig cefnogaeth cynaliadwyedd busnes wedi'i deilwra, sy'n cynnwys marchnata a rhedeg eu busnes newydd, yn ogystal â pharatoi am eu harchwiliad cyntaf.

  Mae CPCKC wedi sicrhau cyllid gan sefydliad Moonlight i ariannu Swyddog Datblygu Busnes Gofal Plant Peripatetig i gefnogi lleoliadau OSC yn Sir y Fflint am un diwrnod yr wythnos hyd nes 31 Rhagfyr 2018.

  Mae cynaliadwyedd yn parhau i fod yn bryder wrth i ni ddarganfod fod gennym grwpiau chwarae bychan na allant agor am hirach nac maent yn gwneud ar hyn o bryd ac oherwydd hyn, gallent fod dan anfantais o ran bod yn gynaliadwy gan na allant gystadlu â'r lleoliadau sy'n agor am hirach er mwyn cymryd y plant CO.

  Mae'r adroddiad NDNA fod trethu busnes yng Nghymru wedi eu hepgor rŵan i bob meithrinfa (am dair blynedd i ddechrau). Mae hyn mewn ymateb i alwadau gan yr NDNA i'r Llywodraeth helpu meithrinfeydd i gwrdd â chyflogau sy'n cynyddu, pensiwn, awto-gofrestru a chostau tâl salwch. Cafodd y cais i godi'r gyfradd ar gyfer hawl bore oes i £4.50 yr awr yn unol â'r cynnig 30 awr ei ddiwallu hefyd. Mae Sir y Fflint yn cynnig cynllun peilot ar hyn o bryd. Croesawyd hyn a bydd hefyd yn helpu meithrinfeydd i barhau i gynnig y Cyfnod Sylfaen gan mai'r gyfradd a dalwyd cyn hyn oedd £2.91 yr awr.

- **Hyrwyddo'r grantiau sydd ar gael i leoliadau a rhieni yn gyson.**

Mae Blynyddoedd Cynnar Cymru yn cefnogi darparwyr gyda materion yn ymwneud â chynaliadwyedd, darparu templedi cynllun busnes a gwybodaeth ddefnyddiol ynghylch grantiau, rydym hefyd yn anfon cynrychiolydd i gyfarfodydd y panel cynaliadwyedd.

Mae newyddlen FISF yn parhau i hyrwyddo argaeledd grantiau i bob lleoliad

Mae pob sefydliad ambarél wedi hyrwyddo'r grantiau cynaliadwyedd a'r grantiau lleoedd a gynorthwyir yn gyson gyda mwy yn manteisio ar y grantiau hyn yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

- **Buddsoddiad parhaus mewn cefnogaeth TG i leoliadau sy'n cwblhau SASS Rhan 1 a 2**

  Mae FISF wedi prynu chwe gliniadur y gellir eu rhoi ar fenthyg am ddim i leoliadau gofal plant i gynorthwyo i gwblhau SASS 1 a 2, cofrestru â DEWIS a gweinyddu'r Cynnig Gofal Plant.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Trefniadau trawsffiniol | | • Cytundeb Hawl Bore Oes trawsffiniol<br>• Cyllid trawsffiniol i swyddi'r swyddog Broceriaeth Gofal Plant a'r Swyddog Estyn Allan Gwybodaeth Anelu'n Uchel.<br>• Gwaith ar y cyd ar draws pum sir yng Ngogledd Cymru i ariannu'r pecyn hyfforddiant cyn cofrestru i warchodwyr plant | • Dim cytundebau trawsffiniol ar gyfer prosesu grantiau Lleoedd a Gynorthwyir neu Un i Un. | CDO | • *Sefydlu cytundebau trawsffiniol ar gyfer prosesu grantiau Lleoedd a Gynorthwyir neu Un i Un.*<br>• *Cysondeb gyda rhaglenni eraill e.e. Hawl Bore Oes / y Cyfnod Sylfaen* |

**<u>Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2018</u>**

Mae cyllid trawsffiniol yn parhau ar gyfer plant sy'n mynd i leoliadau hawl bore oes.

Mae swydd y Swyddog Broceriaeth Gofal Plant a'r Swyddog Estyn Allan Gwybodaeth Anelu'n Uchel yn parhau i gael eu hariannu gan gytundeb rhwng Sir y Fflint a Wrecsam.

Nid yw'r CDO wedi gallu gwneud unrhyw drefniadau cydgyfnewid cyllid ynghylch lleoedd a gynorthwyir gan fod gan Awdurdodau Lleol cyfagos wahanol weithdrefnau prosesu grantiau.

Mae’r tîm CO yn parhau i weithio gydag awdurdodau cyfagos i drafod dychwelyd y cynnig pan ei fod yn cael ei gyflwyno'n genedlaethol.

**Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2019**

- **Sefydlu cytundebau trawsffiniol ar gyfer prosesu grantiau Lleoedd a Gynorthwyir neu Un i Un.**

  Ariannwyd swydd y Swyddog Broceriaeth Gofal Plant drwy gytundeb rhwng Sir y Fflint a Wrecsam hyd at 31 Rhagfyr 2018

  Mae modd prosesu Grant Dwylo Ychwanegol y Cynnig Gofal Plant ar gyfer plant Sir y Fflint sy’n mynd i leoliadau mewn Awdurdodau Lleol.

- **Cysondeb gyda rhaglenni eraill e.e. Hawl Bore Oes / y Cyfnod Sylfaen**

  Mae’r tîm CO yn parhau i weithio gydag awdurdodau cyfagos i drafod dychwelyd y cynnig wrth iddo gael ei gyflwyno'n genedlaethol. Er enghraifft, ffurfiolwyd y trefniadau trawsffiniol rhwng Cyngor Dwyrain Swydd Gaer a Chyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer ym mis Tachwedd 2018.

  Mae EE ac FISF wedi cyfarfod i hwyluso llyfnhau proses geisio am grantiau Dwylo Ychwanegol gymaint â phosibl. Fodd bynnag, gan fod cyllid yn cael ei gyrchu ar wahân, nid oes modd defnyddio gwaith papur wedi’i ddyblygu.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu a Hyfforddi’r Gweithlu | • Yn ôl canlyniadau arolwg SASS 1, mae gan o leiaf 96% o’r gweithlu gofal plant | • Dibyniaeth ar Grant Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol i ariannu’r atodlen hyfforddiant gorfodol. | CDO, Blynyddoedd Cynnar Cymru (PPA Cymru yn flaenorol), Mudiad | • *Sicrhau cyllid ar gyfer yr amserlen hyfforddiant gorfodol a chyfleoedd* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | gymwysterau perthnasol | • Dealltwriaeth lleoliadau gofal plant o gymwysterau ‘priodol’ fel sy’n ofynnol yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol (13.6 ac 13.7) | Meithrin, NDNA, PACEY Cymru | *hyfforddi ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus*<br>• *Hyrwyddo cyrsiau lefel 2 a Lefel 3 ymhlith pob lleoliad.* |

**Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2018**

- **Mae’r CDO yn hyrwyddo’r amserlen hyfforddiant a’r amserlen hyfforddiant ychwanegol a ariennir o’r grant OOSC. Mae’r amserlen hyfforddiant yn cyfeirio at ddarparwyr gofal plant i Coleg Cambria a hyfforddiant Plato fel darparwyr lleol cyrsiau Lefel 2, 3 a 5 mewn Gofal Plant a Chwarae a’r Wobr Drawsnewid mewn Gwaith Chwarae.**

- **Sefydliadau ambarél yn rhoi manylion cymwysterau Lefel 2, 3 neu 5 a'r Wobr Drawsnewid mewn Gwaith Chwarae sydd ar gael ac unrhyw gyllid.**

Mae’r Mudiad Meithrin yn gallu cynnig hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus drwy Academi i’r holl staff. Mae Mudiad Meithrin hefyd yn gallu hyfforddi staff hyd at lefel 3 drwy’r rhaglen hyfforddiant cenedlaethol.

Mae NDNA Cymru yn cynnig ystod eang o hyfforddiant wyneb yn wyneb ac ar-lein i gefnogi datblygu'r gweithlu.

Mae grant Gofal Plant CSFf wedi ariannu dwy rownd o gyrsiau CYPOP5 ar gyfer darpar warchodwyr plant newydd yn ystod 2017 – 2018. Cyfeiriwyd uchod at rai o’r gweithdai a hyfforddiant a ariennir gan CSFf ac wedi eu darparu gan PACEY Cymru fel y gweithdy cefnogi i staff sydd newydd eu cofrestru ar gyfer gwarchodwyr plant a Hwyl ar y Gymraeg ym mis Chwefror.  Mae PACEY Cymru eisoes wedi darparu Fframwaith Archwilio Newydd ym mis Mai a Mehefin 2017, Cynhwysiant Digidol ym mis Mai 2017, Cynllunio ar gyfer Dysgu ym mis Medi 2017, Cyflwyniad i Alergenau Bwyd ac Atal a Rheoli Haint, mis Hydref 2017 a Pharatoi ar gyfer eich Archwiliad ym mis Mawrth 2018.

**Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2019**

- **Sicrhau cyllid ar gyfer yr amserlen hyfforddiant gorfodol a chyfleoedd hyfforddi ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus**

**Mae'r CDO yn parhau i ddarparu Amserlen Hyfforddiant ac Amserlen Hyfforddiant Ychwanegol a ariennir o'r grant OOSC. Mae'r incwm a gynhyrchir gan yr amserlen hyfforddiant yn galluogi lleoliadau i elwa ar ystod y gyfleoedd hyfforddiant drwy'r Amserlen hyfforddiant Ychwanegol**

**PACEY Cymru –** Mae Grant Gofal Plant CSFf wedi ariannu dwy rownd o hyfforddiant a chefnogaeth cyn cofrestru (Hydref 2018 a mis Mawrth 2019). Roedd yr hyfforddiant a ariannwyd gan CSFf a'i ddarparu gan PACEY Cymru yn cynnwys gweithdy Cwblhau eich Adroddiad Gofal ar 19 Chwefror 2019 (a gyfeiriwyd ato'n gynharach). Mae PACEY Cymru hefyd wedi cynnig digwyddiadau hyfforddiant rhanbarthol sydd wedi bod yn agored i warchodwyd plant o Sir y Fflint, sy'n cynnig 'defnyddio'r Gymraeg yn eich lleoliad' ym Mae Colwyn (Tachwedd 2018), digwyddiad y Cyfnod Sylfaen yn Llandudno (Mawrth 2019), a sesiwn adrodd straeon ym Mharc Gwepra (Mawrth 2019).

Mae'r **Cynllun Lleoliadau Cyn-ysgol Cynaliadwy (HSPSS)** yn gynllun cenedlaethol a reolir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, a'i gydlynu yn Sir y Fflint fel estyniad i'r Cynllun Ysgolion Iach. Mae lleoliadau cyn ysgol yn gweithio i hyrwyddo a gwarchod pob agwedd ar iechyd gan gynnwys gweithgarwch corfforol, iechyd maeth a cheg, emosiynol a chymdeithasol, diogelwch, hylendid a lles eu staff. Rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019, ymunodd 4 lleoliad â'r cynllun gan gynnwys 1 grŵp chwarae, 2 Warchodwr Plant, 1 Cylch Meithrin. Mae 3 lleoliad wedi cwblhau'r Cynllun gan olygu bod cyfanswm o 15 wedi cwblhau'r cynllun hyd yma.

Ailaseswyd 5 lleoliad pellach eleni.

Yn ogystal â darparu cefnogaeth i leoliadau i gwblhau themâu y mae'r swyddog HSPSS yn gweithio mewn partneriaeth â Design 2 Smile a'r dietegwyr o Betsi Cadwaldr yn ogystal ag asiantaethau eraill i gynnig hyfforddiant a gweithdai perthnasol i leoliadau sy'n cymryd rhan yn y cynllun.

Mae datblygu'r gweithlu **Hawl Bore Oes** 2018 – 2019 wedi cynnwys: Hyfforddiant 2 ddiwrnod y Cyfnod Sylfaen; Llythrennedd Corfforol; Gwella Canlyniadau; Diogelu (Aftathought); diweddariad Dull Solihull; Ariannwyd nifer o'r cyrsiau hyn drwy Grant Datblygu Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar.

Mae'r **Mudiad Meithrin** wedi darparu hyfforddiant ar reoli Ymddygiad, defnyddio mathemateg yn yr amgylchedd awyr agored, 5 cam tuag at fyw'n iach, Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a Throchi Iaith.

- **Hyrwyddo cyrsiau lefel 2 a Lefel 3 ymhlith pob lleoliad.**

Mae Blynyddoedd Cynnar Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, Cymwysterau Cymru; CBAC/ City and Guilds i ddatblygu a hyrwyddo Cymwysterau ar gyfer y sector gofal plant.

Mae incwm o amserlen Hyfforddiant FISF 2017 – 2018 wedi ei ddefnyddio i ariannu 19 ymgeisydd ar y Dyfarniad Trawsnewid i Waith Chwarae drwy Goleg Cambria.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwaith partneriaeth | • Gweithio mewn partneriaeth gan gynnwys ymgynghori â Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Sir y Fflint, Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru, Sefydliadau Ambarél / Partner, y Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg, y Fforwm Chwarae Strategol, Canolfan Byd Gwaith, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint, AWARE, Lleoliadau Cyn-ysgol Iach, Awdurdodau Lleol Cyfagos, Cyflogwyr Lleol a budd-ddeiliaid eraill | | | |

**<u>Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2018</u>**

Mae'r Awdurdod Lleol yn gwerthfawrogi'r gwaith a wneir gan amryw o sefydliadau, yn arbennig aelodau FEYDCP, i gefnogi cwblhau'r CSA a chwrdd â gofynion y Cynllun Gweithredu hwn.

Mae'r dull cydweithredol hwn yn amlwg yn ystod y cyfarfodydd partneriaeth – FEYDCP, Gweithgor y Cynnig Gofal Plant, y bartneriaeth Addysg Bore Oes ac ati.

**<u>Cerrig Milltir a adolygwyd ar 31 Mawrth 2019</u>**

Mae'r Awdurdod Lleol yn parhau i werthfawrogi'r gwaith a wneir gan amryw o sefydliadau, yn arbennig y rhai a gynrychiolir ym Mhartneriaeth Ddatblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (EYDCP), i'w cefnogi i gwrdd â gofynion y Cynllun Gweithredu hwn a chynhyrchu Adroddiad Cynnydd blynyddol y CSA.

## Geirfa

AWARE - Cynrychiolwyr Ardal EYDCPs Cymru Gyfan

BAWSO - Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ar gyfer pobl Ddu ac o Leiafrifoedd Ethnig yng Nghymru

CO - Y Cynnig Gofal Plant

CDO - Swyddog Datblygu Gofal Plant (Cyngor Sir y Fflint)

CIO - Sefydliad Elusennol Corfforedig

AGC - Arolygiaeth Gofal Cymru

CPCKC - Clybiau Plant Cymru Kids' Club

CPD - Datblygiad Proffesiynol Parhaus

CSA - Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant

CWLWM - Dysgu a Gweithio Cydfuddiannol Gofal Plant Cymru

CYPOP5 - Plant a Phobl Ifanc Dewis 5

DASU - Uned Ddiogelwch Cam-drin Domestig (Sir y Fflint)

EDI - Erfyn Diagnosteg Iaith

CSFf - Cyngor Sir y Fflint

FEYDCP -Partneriaeth Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Sir y Fflint

FISF - Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint

NDNA - Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd

OOSC - Gofal y Tu Allan i'r Ysgol

OSC - Clwb y Tu Allan i'r Ysgol

PaCE - Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth

PACEY Cymru - Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar

SASS - Datganiad Hunanasesiad o'r Gwasanaeth

AAA - Anghenion Addysgol Arbennig

PPA Cymru - Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru (Blynyddoedd Cynnar Cymru bellach)

## 4. Datblygu Gofal Plant Sir y Fflint - Grant Cynaliadwyedd 2020 – 2021

Mae'r grant cynaliadwyedd hwn wedi ei sefydlu i gefnogi darparwyr gofal plant yn Sir y Fflint.

Os bydd yn llwyddiannus, caiff y grant ei dalu'n syth i'r Darparwr Gofal Plant.
Cymeradwyir y grantiau gan Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Sir y Fflint.

Rwyf i, yr un â'm llofnod isod, ag awdurdod i lofnodi'r datganiad hwn ar ran y lleoliad a enwir ar ail dudalen y cais hwn. Mae'r wybodaeth sydd wedi'i hamgáu yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth.

Rwyf yn cadarnhau bod y cais hwn yn cael ei wneud ar y ddealltwriaeth, os bydd yn llwyddiannus, y bydd y lleoliad yn rhwymedig i ddefnyddio'r grant ar gyfer y pwrpas a nodwyd yn y cais hwn yn unig ac yn cytuno i fodloni meini prawf ac amodau a thelerau dyfarnu'r grant.

**Sicrhewch eich bod yn cynnwys y canlynol gyda'ch cais:**

- ❑ **Copi o'ch Datganiad Banc mwyaf diweddar o'ch <u>holl</u> gyfrifon**
- ❑ **Copi o'ch cynllun busnes**
- ❑ **Copi o ddatganiad ariannol eich cyfrifon blynyddol diwethaf**
- ❑ **Copi o'ch adroddiad ansawdd gofal**

**<u>Os bydd arnoch chi angen cymorth i lenwi'r ffurflen hon cysylltwch ag un o'r canlynol:-</u>**

| | |
|---|---|
| Tîm Datblygu Gofal Plant Sir y Fflint | 01352 703500 |
| Clybiau Plant Cymru | 01492 536318 |
| Blynyddoedd Cynnar Cymru | 01745 530111 |
| Mudiad Meithrin | 01970 639639 |
| PACEY Cymru | 07734734124 |
| Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd | 01352 759367 |

**Dychwelwch at: Tîm Datblygu Gofal Plant, Canolfan Westwood, Tabernacle Street, Bwcle CH7 2JT neu e-bost: childcaredevelopmentgrants@flintshire.gov.uk**

**<u>Diogelu Data</u>**

Bydd eich data yn cael ei brosesu gan Gyngor Sir y Fflint at ddibenion asesu eich datganiad o ddiddordeb ar gyfer y grant. Mae prosesu eich data personol yn angenrheidiol er mwyn cymryd camau ar eich cais cyn sefydlu cytundeb. Gall Cyngor Sir y Fflint rannu eich data gydag aelodau Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Sir y Fflint lle bo'n briodol.

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn cadw eich data gydol cyfnod y grant (7 mlynedd). Os caiff y grant ei wrthod, caiff eich data ei gadw am 3 blynedd. Os ydych o'r farn bod Cyngor Sir y Fflint wedi cam-ddefnyddio eich data personol ar unrhyw adeg, gallwch anfon cwyn at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ymweld â'u gwefan neu drwy ffonio eu llinell gymorth ar 0303 123 1113. I gael rhagor o wybodaeth ynghylch sut mae Cyngor Sir y Fflint yn prosesu data personol a'ch hawliau chi, darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd ar ein gwefan -- http://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Contact-Us/Privacy-Notice.aspx

**Sylwer:** Bydd y cynllun grant hwn yn cael ei fonitro gan Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Sir y Fflint i sicrhau bod y grant yn cael ei wario i'r dibenion a fwriedir a bydd manylion eich lleoliad yn cael eu rhannu gyda Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint a fydd yn rhoi manylion eich lleoedd gofal plant i'r cyhoedd.

**Datblygu Gofal Plant Sir y Fflint**
**Grant Cynaliadwyedd Gofal Plant 2020 – 2021**

Enw'r Darparwr Gofal Plant (y telir Grant iddo): ____________________________________

Cyfeiriad yr eiddo lle darperir y gofal plant:___________________________________________

______________________________________________________________________________

Cyfeiriad gohebu (os yw'n wahanol i'r uchod):___________________________________________

______________________________________________________________________________

Enw cyswllt:________________________________Swydd:______________________________

Rhif ffôn dydd:_________________________Cyfeiriad e-bost:____________________________

Ar gyfer pa fath o grant ydych chi'n ymgeisio amdano? (Ticiwch fel y bo'n briodol)

- ❑ Cynaliadwyedd (Cyflogau a Rhent YN UNIG)
- ❑ Costau Cychwynnol (ac eithrio Gwarchodwyr Plant)
- ❑ Ehangu (Cyflogau YN UNIG)
- ❑ Cynhwysiant (Offer a Hyfforddiant)

A ydych wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru?

- ❑ Ydw
- ❑ Na

Os atebwch 'na', rhowch dystiolaeth eich bod wedi cyflwyno neu am gyflwyno eich cais i'r Arolygiaeth?

______________________________________________________________________________

A ydych wedi'ch cofrestru i ddarparu unrhyw un o'r canlynol? (ticiwch y dewisiadau perthnasol)

- ❑ Darparwr Dechrau'n Deg
- ❑ Darparwr Hawliau Bore Oes
- ❑ Darparwr Cynnig Gofal Plant

Ar gyfer faint o blant ydych chi wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru? (os yw'n berthnasol)

______________________________

Nifer y plant ar y gofrestr ar gyfer y canlynol:

Dechrau'n Deg______________ Hawl Bore Oes_____________

Y Cynnig Gofal Plant_______________ Talu ffioedd_______________

Faint o blant (ar gyfartaledd) sy'n mynd i bob sesiwn?______________________________

| **Rhowch fanylion o'r oriau fesul sesiwn** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Dydd Llun | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Iau | Dydd Gwener |
| AM | | | | | |
| PM | | | | | |
| **Clwb Gwyliau** (nodwch sawl wythnos o ofal yn ystod y gwyliau rydych chi'n eu darparu) | | | | | |
| Ebrill | Mai | Gorffennaf | Hydref | Rhagfyr | Chwefror |
| | | | | | |
| Faint ydych chi'n ei godi? | | | Y sesiwn | Hanner Diwrnod | Diwrnod llawn |
| | | | | | |

**<u>Rhowch fanylion pam eich bod chi'n gwneud cais am y grant(iau) yma?</u>**
**<u>Gallwch atodi tudalennau eraill os oes angen</u>**

| | |
|---|---|
| Cynaliadwyedd (Cyflogau a Rhent YN UNIG) | |
| Costau Cychwynnol (yn cynnwys Ymchwil y Farchnad) | |

| | |
|---|---|
| Ehangu (yn cynnwys Ymchwil y Farchnad) | |
| Cynhwysiant (Offer a Hyfforddiant) | *Rhaid i ddatganiad ategol gan weithiwr proffesiynol gofal iechyd, addysg neu wasanaethau cymdeithasol ddod gyda'r cais hwn* |

**Rhowch ddadansoddiad o sut y bydd y grant yn cael ei wario**

| |
|---|
| *Rhowch ddadansoddiad o'ch cyfrifiadau. Gallwch atodi tudalennau eraill os oes angen* |

| | |
|---|---|
| **Swm y grant y gofynnir amdano** | **£** |

Os yw eich cais yn aflwyddiannus, beth fyddai'r canlyniad i'ch darpariaeth:

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

**Llofnod:**___________________________ **Dyddiad:**_______________.

## Atodiad 2. Mudiad Meithrin

## 5. E-bost i Ceri Edwards - Dirprwy Reolwr Mudiad Meithrin yng Ngogledd Ddwyrain Cymru - Cadarnhau sgwrs ffôn ar 5 Mehefin 2020

Annwyl Ceri,

Diolch i chi am y sgwrs ffôn ar 5 Mehefin 2020 ynghylch prosiect ymchwil Menter Iaith Fflint a Wrecsam i mewn i ddarpariaeth gofal plant a'r posibilrwydd o agor meithrinfa newydd cyfrwng Cymraeg i wasanaethu siroedd Wrecsam a'r Fflint.

Roedd yn bleser trafod fy ymchwil gyda chi, a gweld eich egni a'ch brwdfrydedd dros y Gymraeg fel Dirprwy Reolwr Mudiad Meithrin yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.

Rwy'n cadarnhau ein trafodaeth fel a ganlyn:

1. Mae pob Cylch Meithrin yn endid unigol sydd yn talu aelodaeth i Mudiad Meithrin.

2. Mae'r Cylchoedd Meithrin yn cynnig gofal ac addysg i blant dros 2 flwydd oed

3. Mae Cylchoedd Meithrin yn cynnig gofal plant / addysg mewn 11 lleoliad yn Wrecsam a 7 lleoliad yn Sir y Fflint

4. Mae pob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn y ddwy sir gyda Chylch Meithrin ar y safle. Nid yw pob un yn darparu gofal i blant 2 flwydd oed, mae rhai ond yn darparu gofal cofleidiol i blant yn nosbarth Meithrin yr ysgol.

6. Mae rhai cylchoedd yn darparu gofal cyn a/neu ar ôl ysgol i blant y dosbarth meithrin, gydag oriau amrywiol rhwng 7.45am a 6.00pm mewn gwahanol leoliadau.

6. Nid yw Cylchoedd Meithrin Fflint a Wrecsam ar hyn o bryd yn  yn darparu gofal plant o unrhyw fath yn ystod gwyliau ysgol yn yr ardaloedd dan sylw.

Gobeithio bod hyn yn crynhoi ein trafodaeth yn ddigonol. Unwaith eto, a gaf i ddal ar y cyfle hwn i ddiolch i chi unwaith eto am eich cymorth.

Yn gywir,

Bronwen

**Bronwen Wright**

Swyddog Prosiect Gofal Plant / Childcare Project Officer

Menter Iaith Fflint a Wrecsam

01352 744040

bronwen@menterfflintwrecsam.cymru

menteriaith
FFLINT A WRECSAM

Cofrestrwch yma i dderbyn ein cylchlythyr / Sign-up to our e-newsletter here

Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg
Please write to me in Welsh or English

Corlan,

Uned 3/*Unit 3*

Parc Busnes Yr Wyddgrug/*Mold Business Park*

Yr Wyddgrug/*Mold*

CH7 1XP

01352 744040

www.menterfflintwrecsam.cymru

## 6. E-bost i Eunice Jones - Rheolwr Cynllun Hyfforddi Cenedlaethol a Chynllun Ysgolion Cam wrth Gam, Mudiad Meithrin - Cadarnhau sgwrs ffôn ar 8 Mehefin 2020

Annwyl Eunice,

Diolch i chi am y sgwrs ffôn ar 8 Mehefin 2020 ynghylch prosiect ymchwil Menter Iaith Fflint a Wrecsam i mewn i ddarpariaeth gofal plant a'r posibilrwydd o agor meithrinfa newydd cyfrwng Cymraeg i wasanaethu siroedd Wrecsam a'r Fflint.

Roedd yn bleser trafod fy ymchwil gyda chi, a gweld eich egni a'ch brwdfrydedd dros y Gymraeg fel Rheolwr Cynllun Hyfforddi Cenedlaethol a Chynllun Ysgolion Cam wrth Gam, Mudiad Meithrin.

Rwy'n cadarnhau ein trafodaeth fel a ganlyn:

1. Mae eich cynllun prentisiaeth[1.] newydd, sydd i gychwyn yn fuan mewn partneriaeth ag Urdd Gobaith Cymru, yn cynnig cyfle newydd i gymhwyso fel ymarferydd trwy brentisiaeth Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant. Mae hon yn gwrs cyfrwng Cymraeg 18 mis o hyd, ar gyfer staff a gyflogir (neu bydd yn cael eu cyflogi o ddyddiad cychwyn y brentisiaeth) gan ddarpariaethau sy'n aelodau o Fudiad Meithrin, Meithrinfeydd Dydd preifat cyfrwng Cymraeg, neu Ysgolion cyfrwng Cymraeg. Rhaid i'r dysgwr fod yn gyflogedig yn y lleoliad am o leiaf 16 awr yr wythnos. Bydd cyrsiau yn cychwyn dwywaith bob blwyddyn gydag i fyny at 100 o fyfyrwyr ym mhob carfan. Mae'r Gogledd-ddwyrain yn ardal benodol ar gyfer darparu'r cwrs, gyda myfyrwyr yn mynychu gweithdai, cael asesiadau yn y gweithle, gweithio ar astudiaethau achos a chael prawf amlddewis fel rhan o'r broses asesu a chymhwyso.
2. Mae hefyd Cynllun Ysgolion Cam wrth Gam[2.] sy'n bodoli mewn 17 ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg gyda 135 o ddisgyblion yn astudio ar gyrsiau amrywiol ledled Cymru (yn 2019). Cyflwynir nifer o gyrsiau amrywiol sy'n gynnwys Cwrs Lefel 2 (Tystysgrif) Gofal ac Addysg Plant (CACHE), Lefel 3 a Lefel 3 Estynedig Gofal, Dysgu a Datblygiad Plentyn (CACHE). Mae'r cynlyn hefyd yn cyflwyno'r cymwysterau newydd Gofal Plant mewn ysgolion, sef y TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant a'r Lefel 3 Gofal, Dysgu, Chwarae a Datblygiad Plant gan City & Guilds/CBAC.
3. Comisiynwyd Mudiad Meithrin i ysgrifennu adnoddau Cymraeg ar gyfer cyrsiau gofal plant City & Guilds a CBAC sydd yr unig ddarparwr cyfres newydd o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru[3].
4. Byddai meithrinfa newydd cyfrwng Gymraeg yn Sir y Fflint neu Wrecsam yn;

i. Cynnig mwy o gyfleoedd profiad gwaith i fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg ym meysydd gwaith Gofal Plant

ii. Ehangu apêl cyrsiau yn y maes Gofal i fwy o fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith yn y Gogledd-ddwyrain

iii. Rhoi mwy o gyfleoedd i gadw myfyrwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg

iv. Darparu mwy o gyfleoedd cyflogaeth iaith Gymraeg o ansawdd da yng Ngogledd-ddwyrain Cymru

5. Pan fydd amgylchiadau'n caniatáu, byddech yn awyddus i gydweithredu â Menter Iaith Fflint a Wrecsam neu unrhyw fenter newydd yn y dyfodol i drefnu cyfarfod i ddysgu mwy am y prosiect hwn.

*Ffynonellau:*

*[1.] Cynllyn Prentisiaeth - https://www.meithrin.cymru/lefel3/*

*[2.] Cynllun Ysgolion Cam wrth Gam - https://www.meithrin.cymru/cam-wrth-gam-cy/cyrsiau-ysgolion/*

*[3.] Cyrsiau City & Guilds a CBAC - https://www.dysguiechydagofal.cymru/cymwysterau/*

Gobeithio bod hyn yn crynhoi ein trafodaeth yn ddigonol. Unwaith eto, a gaf i ddal ar y cyfle hwn i ddiolch i chi unwaith eto am eich cymorth.

Yn gywir,

Bronwen

**Bronwen Wright**

Swyddog Prosiect Gofal Plant / Childcare Project Officer

Menter Iaith Fflint a Wrecsam

01352 744040

bronwen@menterfflintwrecsam.cymru

menteriaith FFLINT A WRECSAM

Cofrestrwch yma i dderbyn ein cylchlythyr / Sign-up to our e-newsletter here

Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg
Please write to me in Welsh or English

Corlan,

Uned 3/*Unit 3*

Parc Busnes Yr Wyddgrug/*Mold Business Park*

Yr Wyddgrug/*Mold*

CH7 1XP

01352 744040

[www.menterfflintwrecsam.cymru](http://www.menterfflintwrecsam.cymru)

# Atodiad 3. Prifysgol Glyndŵr

## 7. E-bost i Elen Mai Nefydd - Llysgennad Iaith Prifysgol Glyndŵr Wrecsam - Cadarnhau sgwrs ffôn ar 8 Mehefin 2020

Annwyl Elen,

Diolch i chi am y sgwrs ffôn ar 1 Mehefin 2020 ynghylch prosiect ymchwil Menter Iaith Fflint a Wrecsam i mewn i ddarpariaeth gofal plant a'r posibilrwydd o agor meithrinfa newydd cyfrwng Cymraeg i wasanaethu siroedd Wrecsam a'r Fflint.

Roedd yn bleser trafod fy ymchwil gyda chi, a gweld eich egni a'ch brwdfrydedd fel Llysgennad Iaith Prifysgol Glyndŵr i ehangu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd o waith y Brifysgol.

Rwy'n cadarnhau ein trafodaeth fel a ganlyn:

1. Ar hyn o bryd mae yna feithrinfa ar Gampws Plas Coch Wrecsam (Meithrinfa Little Scholars) sy'n cael ei rhedeg gan Active Childcare Ltd, nad yw'n gysylltiedig â Phrifysgol Glyndŵr mewn unrhyw ffordd. Mae'r gofal a ddarperir yn Saesneg, ac nid ydynt yn gallu darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Dyma le darperir gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun ofyn amdano. Nid yw ar gael oherwydd diffyg staff sy'n siarad Cymraeg. Mae adroddiad archwilio diweddaraf gan Arolygiaeth Gofal Cymru (Hydref 2019) yn cadarnhau bod hyn yn wir[1].
2. Yn 2017-18 roedd gan y brifysgol 5740 o fyfyrwyr[2] a 547 o staff[3]. Dyma'r ystadegau diweddaraf sydd ar gael. Mae'r Brifysgol yn cynnal archwiliad mewnol o sgiliau iaith Cymraeg staff, ond nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn allanol ar hyn o bryd.
3. Y brifysgol sy'n berchen ar y rhydd-ddaliad ar gyfer mwyafrif eu safleoedd, ac ar hyn o bryd maent yn gweithio i gael gwared ar rai asedau tir. Mae cynllun adnewyddu a gwella "Campws 2025"[4] yn cynnwys cynlluniau cynnal a gwella darpariaeth gofal plant fel rhan o gynllunio gofod cymdeithasol myfyrwyr a staff.
4. Ar hyn o bryd mae'r brifysgol yn cynnig tua 15 cwrs sy'n ymwneud â Gofal, Addysg a Phlentyndod. Gall myfyrwyr gwblhau eu gwaith yn Saesneg neu Gymraeg, a fydd yn cael ei gyfieithu'n broffesiynol i'w farcio os bydd darlithwyr di-gymraeg â'r angen.
5. Rydych yn awyddus i'r Brifysgol ystyried darparu meithrinfa ddydd cyfrwng Gymraeg newydd fel rhan o gynlluniau Campws 2025. Rydych yn hapus i weithio gyda Menter Iaith Fflint a Wrecsam neu unrhyw fenter newydd yn y dyfodol i lobïo'r Brifysgol gyda'r bwriad o nodi adeilad addas ar gyfer cynnig y ddarpariaeth hon ar un o'u campysau.
6. Rydych yn awyddus i hyrwyddo unrhyw gynlluniau sy'n hybu proffil yr iaith Gymraeg a'r Brifysgol yn gyffredinol. Byddai meithrinfa Gymraeg ar y safle yn gwneud hyn mewn sawl ffordd;
    a. Cynorthwyo staff sy'n siarad Cymraeg i ddychwelyd i'r gweithle ar ôl genedigaeth eu plant
    b. Darparu mwy o ddewis a hygyrchedd gofal plant i fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg
    c. Darparu gofal plant cyfrwng Cymraeg i'r gymuned ehangach yn y ddwy sir

d. Cynnig mwy o gyfleoedd gwaith i fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg ym meysydd gwaith Gofal Plant
e. Ehangu apêl Prifysgol Glyndŵr i fwy o fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith ledled Cymru
f. Rhoi mwy o gyfleoedd i gadw myfyrwyr Cymraeg yng Nghymru ar gyfer addysg uwch
g. Darparu mwy o gyfleoedd cyflogaeth iaith Gymraeg o ansawdd da yng Ngogledd-ddwyrain Cymru

7. Pan fydd amgylchiadau'n caniatáu, byddech yn awyddus i gydweithredu â Menter Iaith neu unrhyw fenter newydd yn y dyfodol i drefnu cyfarfod agored i staff a myfyrwyr ddysgu mwy am y prosiect hwn. Gobeithiwyd nodi pryd hynny unrhyw unigolion a allai fod â diddordeb mewn ymuno ag unrhyw bwyllgor neu fwrdd rheoli ar y fenter.

Gobeithio bod hyn yn crynhoi ein trafodaeth yn ddigonol. Unwaith eto, a gaf i ddal ar y cyfle hwn i ddiolch i chi unwaith eto am eich cymorth.


*Ffynonellau:*
[1.] *Little Scholars Nursery - adroddiad archwilio gan Arolygiaeth Gofal Cymru*
*https://gov.wales/docs/cssiw/report/inspection_reports/17511_c_190910_w.pdf*
[2.] *Student Data 2017-18*
*https://www.glyndwr.ac.uk/en/media/Open%20Data%20-%202017-2018%20-%20Student%20Data.ods*
[3.] *Staff Data 2017-18*
*https://www.glyndwr.ac.uk/en/media/Open%20Data%20-%202017-2018%20-%20Staff%20Data.ods*
[4.] *Campws 2025*
*https://www.glyndwr.ac.uk/cy/YnglynaPhrifysgolGlyndwr/Campws2025/*


Yn gywir,

Bronwen


**Bronwen Wright**

Swyddog Prosiect Gofal Plant / Childcare Project Officer

Menter Iaith Fflint a Wrecsam

01352 744040

bronwen@menterfflintwrecsam.cymru


menteriaith
FFLINT A WRECSAM

Cofrestrwch yma i dderbyn ein cylchlythyr / Sign-up to our e-newsletter here

Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg
Please write to me in Welsh or English

Corlan,

Uned 3/*Unit 3*

Parc Busnes Yr Wyddgrug/*Mold Business Park*

Yr Wyddgrug/*Mold*

CH7 1XP

01352 744040

[www.menterfflintwrecsam.cymru](http://www.menterfflintwrecsam.cymru)

## Atodiad 4. Coleg Cambria

## 8. E-bost i Llinos Roberts - Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol, y Gymraeg a Rhyngwladol Coleg Cambria - Cadarnhau sgwrs ffôn ar 8 Gorffennaf 2020

Annwyl Llinos,

Diolch i chi am y sgwrs ffôn ar 8/7/20 ynghylch prosiect ymchwil Menter Iaith Fflint a Wrecsam i mewn i ddarpariaeth gofal plant a'r posibilrwydd o agor meithrinfa newydd cyfrwng Cymraeg i wasanaethu siroedd Wrecsam a'r Fflint.

Roedd yn bleser trafod fy ymchwil gyda chi, a gweld eich egni a'ch brwdfrydedd fel Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol, y Gymraeg a Rhyngwladol Coleg Cambria i ehangu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd o waith y Coleg.

Rwy'n cadarnhau ein trafodaeth fel a ganlyn:

1. Ar hyn o bryd mae Coleg Cambria yn berchen ac yn rhedeg meithrinfeydd ar safleoedd Glannau Dyfrdwy, ac Iâl Wrecsam. Mae meithrinfa Glannau Dyfrdwy yn cynnig gofal i uchafswm o 106 o blant rhwng 3 mis a 5 mlwydd oed, ac yn agored i fyfyrwyr, staff y coleg a phlant trigolion yr ardal. Mae meithrinfa Iâl Wrecsam yn cynnig gofal i uchafswm o 26 o blant rhwng 3 mis a 4 blwydd oed ac yn agored i fyfyrwyr y coleg yn unig. Mae'r gofal a ddarperir gan y 2 feithrinfa yn Saesneg, ac nid ydynt yn gallu darparu 'Cynnig Rhagweithiol' y Gymraeg. Dyma le darperir gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun ofyn amdano. Nid yw ar gael oherwydd diffyg staff sy'n rhugl yn y Gymraeg. Mae adroddiadau archwilio diweddaraf gan Arolygiaeth Gofal Cymru (28/11/18 a 22/1/19) yn cadarnhau bod hyn yn wir[1 a 2]. Mae rhai staff erbyn hyn gyda mwy o sgiliau iaith Gymraeg, ond nid yw'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gael bellach. Roedd hefyd arolygiad gan Estyn ym mis Mawrth 2016[3].
2. Yn 2018-19 roedd gan y coleg oddeutu 6,000 o fyfyrwyr llawn amser, 11,000 o fyfyrwyr rhan amser a 1,000 o staff. Dyma'r ystadegau diweddaraf sydd ar gael am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2019[4] . Mae bellach tua 1500 o staff gan y Coleg. Mae'r Coleg yn cynnal archwiliad o sgiliau iaith Cymraeg staff, ac mae'r adroddiad diweddaraf (blwyddyn i 31/7/19) yn dangos bod canran mawr o staff gydag o leiaf sgiliau sylfaenol yn y Gymraeg[5]. Gwelir hefyd Polisi Iaith Gymraeg y Coleg[6].
3. Mae'r coleg yn gweithredu ar 7 safle (gan gynnwys un yng nghyfleuster gweithgynhyrchu Airbus, ac un yn CEM Berwyn yn Wrecsam). Y coleg sy'n berchen ar y rhydd-ddaliad ar gyfer mwyafrif eu safleoedd. Ers 2013 mae'r Strategaeth Ystadau wedi darparu rhaglen i wella ansawdd adnoddau'r Coleg. Mae safle Iâl Cambria yn cael ei ailddatblygu gydag adeilad tri llawr newydd i gynnwys neuadd gynadledda gyda 200 sedd, ceginau a bwyty hyfforddi newydd, man astudio o'r radd flaenaf, man chwaraeon chwyldroadol ac ystafelloedd TG. Mae hefyd hwb cymunedol newydd ar safle Llysfasi. Gweler Adroddiad Blynyddol 2019[7].

4. Ar hyn o bryd mae'r coleg yn cynnig tua 6 cwrs llawn amser a 5 cwrs rhan amser sy'n ymwneud â Gofal, Addysg a Phlentyndod. Mae'r coleg yn darparu cyrsiau Safon Uwch, TGAU, BTEC, Cymraeg i Oedolion, ac Addysg Uwch. Mae'r coleg hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda dros 1,000 o gyflogwyr yn lleol ac yn genedlaethol i ddarparu cyfleoedd prentisiaeth a hyfforddeiaeth. Mae'r Coleg yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r ysgolion cyfrwng Cymraeg lleol i ddatblygu cyfleoedd fel bod dysgwyr yn gallu cael addysg alwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â datblygu darpariaeth ei gwricwlwm ei hun i ehangu'r cyfleoedd dwyieithog. Mae Coleg Cambria'n darparu cyrsiau cynlyn Camau gan Lywodraeth Cymru, sef cynllun dysgu Cymraeg penodol ar gyfer y gweithlu Addysg a Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar[8].

5. Rydych yn awyddus i hyrwyddo unrhyw gynlluniau sy'n hybu proffil yr iaith Gymraeg a'r Coleg yn gyffredinol. Byddai meithrinfa cyfrwng Cymraeg yn yr ardal yn gwneud hyn mewn sawl ffordd;

    a. Cynorthwyo staff sy'n siarad Cymraeg i ddychwelyd i'r gweithle ar ôl genedigaeth eu plant

    b. Darparu mwy o ddewis a hygyrchedd gofal plant i fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg

    c. Darparu gofal plant cyfrwng Cymraeg i'r gymuned ehangach yn y ddwy sir

    d. Cynnig mwy o gyfleoedd gwaith i fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg ym meysydd gwaith Gofal Plant

    e. Darparu mwy o gyfleoedd cyflogaeth iaith Gymraeg o ansawdd da yng Ngogledd-ddwyrain Cymru

6. Pan fydd amgylchiadau'n caniatáu, byddech yn awyddus i gydweithredu â Menter Iaith neu unrhyw fenter newydd yn y dyfodol i drefnu cyfarfod agored i staff a myfyrwyr ddysgu mwy am y prosiect hwn. Gobeithiwyd nodi pryd hynny unrhyw unigolion a allai fod â diddordeb mewn ymuno ag unrhyw bwyllgor neu fwrdd rheoli ar y fenter.

Ffynonellau:
1.Arolygiaeth Gofal Cymru - Adroddiad Arolygu Gofal Plant, Meithrinfa Ddydd Toybox 28/11/18
<https://gov.wales/docs/cssiw/report/inspection_reports/2848_c_181130_w.pdf>
